

# Ymgynghoriad Gwasanaeth Llyfrgell Gwynedd Haf 2015

Dyfodol y Gwasanaeth Llyfrgell: Adolygiad ac Argymhellion

Lluniwyd yr adroddiad

gan

Judith Broady-Preston a Sian Shakespear

Dr Judith Broady-Preston, BA(Hons) MA PhD  
MCLIP FHEA  
Reader in Information Management,  
Institute Director of Postgraduate Studies,  
Institute of Management,  
Prifysgol Aberystwyth University Aberystwyth,

Cymdeithion Sian Shakespear Associates  
26, Stryd Fawr, Bethesda, Gwynedd, LL57 3AE  
07890613933  
[www.sianshakespear.co.uk](http://www.sianshakespear.co.uk)

Cymdeithion Sian Shakespear Associates

## Cynnwys

1. Crynodeb Gweithredol [gydag Argymhellion].....	4
2. Cyflwyniad a Cefndir.....	9
Cyflwyniad.....	9
Cefndir.....	9
Gwasanaeth Llyfrgell Gwynedd: y ddarpariaeth bresennol.....	11
3. 2015 Ymgynghoriad ac Adolygiad.....	12
Ymdriniaeth ac amserlen.....	12
Ymgynghoriad: Y Broses a'r Deilliannau.....	13
4. Canlyniadau a Dadansoddiad Ansoddol.....	14
4.1 Datblygu Sgiliau Digidol.....	15
4.2 Mynediad at Wybodaeth.....	16
• Iaith.....	16
• Lleoliad a phatrymau defnyddio.....	17
• Y gwasanaeth llyfrgell teithiol a chartref.....	19
• Trafnidiaeth a theithio.....	19
• Gwirfoddolwyr, Llyfrgelloedd a reolir gan Gymunedau a Rhannu'r ddarpariaeth gwasanaeth.....	20
4.3 Hyrwyddo Iechyd a Lles.....	22
4.4 Hybu Darllen.....	25
5. Canlyniadau a dadansoddiad meintiol.....	27
5.1 Blaenoriaethau i'r dyfodol a gwasanaethau hanfodol.....	27
• Plant/defnyddwyr Lori Ni: blaenoriaethau.....	27
• Defnyddwyr Gwasanaethau Oedolion.....	29
• Grwpiau ffocws: canlyniadau.....	31
• Plant/defnyddwyr Lori Ni: arferion darllen/hoffterau.....	34
6. Casgliadau.....	35
7. Argymhellion.....	37
8. Atodiadau.....	40

## **Rhestr Ffigurau**

Ffigur 1: Plant/Defnyddwyr Lori Ni – Blaenoriaeth 1

Ffigur 2: Plant/Defnyddwyr Lori Ni – Blaenoriaeth 2

Ffigur 3: Cyfuno Blaenoriaethau 1 a 2 – Plant/Defnyddwyr Lori Ni

Ffigur 4: Blaenoriaeth 1 - Defnyddwyr Gwasanaethau Oedolion

Ffigur 5: Cyfuno Blaenoriaethau 1 a 2 - Defnyddwyr Gwasanaethau Oedolion

Ffigur 6: Elfennau hanfodol y gwasanaeth - Grŵp Ffocws Pobl Ifanc

Ffigur 7: Elfennau hanfodol y gwasanaeth - Cyngor Pobl Hŷn

Ffigur 8: Elfennau hanfodol y gwasanaeth - Grwpiau Rhieni

## 1. Crynodeb Gweithredol

Mae'r canlynol yn gasgliadau ymgynghoriad cyhoeddus a wnaed gan Gymdeithion Sian Shakespear ar ran Cyngor Gwynedd ar ei Ddogfen Ymgynghori yn ystod gwanwyn/haf 2015 gydag adolygiad arbenigol annibynnol ar Wasanaeth Llyfrgell Gwynedd.

### Casgliadau

- a. Yn wyneb sefyllfa ariannol gynyddol anodd, mae'n rhaid i Gyngor Gwynedd gydbwyso'r hyn y mae angen iddo'i wneud i gyflawni ei rwymedigaethau o dan Ddeddf Llyfrgelloedd ac Amgueddfeydd 1964<sup>1</sup>, bodloni anghenion a disgwyliadau'r defnyddwyr â'r galwadau trwm eraill ar ei gyllideb. Fel un is-set o boblogaeth Gwynedd, roedd gan ddefnyddwyr y Gwasanaeth Llyfrgell a gymerodd ran yn Ymgynghoriad 2015 farn gref ac yn gyffredinol roeddent yn gwrthwynebu newid gan nad oes ganddynt lawer o ddealltwriaeth o'r toriadau yn y gyllideb sy'n wynebu'r Cyngor, na chydymdeimlad chwaith.
- b. Nid yw'r weledigaeth a'r strategaeth ddrafft *'Mwy na Llyfrau'* yn cydnabod yn llawn bod gan adeiladau llyfrgell swyddogaethau pwysig y tu hwnt i lyfrau a darparu gwybodaeth. Maent yn fannau cyhoeddus a chanolfannau cymdeithasol mewn nifer o gymunedau, mewn perthynas â:
  - iechyd meddwl – er enghraifft – drwy leddfu ac atal dementia
  - atal ymddygiad gwrthgymdeithasol
  - addysg – hwyluso a helpu caffael sgiliau llythrennedd a chymdeithasol
  - lleihau ôl-troed carbon y sir
  - cyfrannu at yr economi leol
  - cynhwysiad cymdeithasol ar sail oed, iaith neu drwy gymhathu newydd-ddyfodiaid.Ymhellach mae llawer o'r rhain yn cyfrannu at nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- c. Nid yw mwyach yn ariannol gynaliadwy i Wasanaeth Llyfrgell Gwynedd barhau i gadw amryw o adeiladau at ddibenion llyfrgell yn unig, gyda stoc yn eistedd ar silffoedd heb fod ar gael, a dim mynediad at gyfrifiaduron am lawer o'r amser, oherwydd mai dim ond yn rhan-amser y mae'r adeiladau ar agor. Hwn yw'r gwirionedd er gwaethaf ymbil taer gan ddefnyddwyr ar i'r Cyngor gadw adeiladau llyfrgell hyd yn oed os mai am ychydig oriau'r wythnos y maent ar agor.
- d. Mae angen i'r ddarpariaeth llyfrgell newydd ddatblygu a newid yn raddol fel bod defnyddwyr yn ymgylfarwyddo â'r newidiadau ac yn cael cyfle i newid eu hymddygiad a'u patrymau defnydd eu hunain.
- e. Rhaid i newidiadau ac addasiadau gael eu cynnwys drwyddi draw ym mhob man darparu gwasanaeth ac ym mhob cymuned er mwyn bodloni anghenion defnyddwyr a chyflawni gofynion y gwasanaeth i fod yn gynaliadwy ac yn addas ar gyfer y dyfodol.

---

<sup>1</sup> Llyfrfa Ei Mawrhydi (1964) *Deddf Llyfrgelloedd ac Amgueddfeydd Cyhoeddus 1964*. Ar gael: <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1964/75>

f. Mae angen i Gyngor Gwynedd sicrhau fod ei Wasanaeth Llyfrgell yn bodloni'r safonau presennol ar gyfer Llyfrgelloedd Cyhoeddus fel ag y'u cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru<sup>2</sup> er mwyn cyflawni ei rwymedigaethau statudol. Ond, er mwyn gwneud y toriadau sylweddol yn y gyllideb sy'n ofynnol o dan *Her Gwynedd*, i wneud y gwasanaeth yn addas i'r 21ain ganrif a diwallu anghenion defnyddwyr, mae Cyngor Gwynedd angen model sy'n denu defnyddwyr i:

- ymweld â phrif lyfrgell
- ymweld â llyfrgell a reolir yn gymunedol o dan arweiniad yr awdurdod<sup>3</sup>
- ymweld â llyfrgell symudol
- cael mynediad i'r Gwasanaeth Llyfrgell ar-lein

g. Bydd angen i'r ddarpariaeth newydd sicrhau fod y ffactorau canlynol yn eu lle cyn llawned â phosibl ym mhob man darparu gwasanaeth:

- amseroedd agor/ymweld cyfleus,
- safon gwasanaeth uchel,
- amrywiaeth ddeniadol o eitemau a gwasanaethau,
- cyfleoedd i gymdeithasu'n anffurfiol
- mynediad hawdd,
- cysylltiadau trafndiaeth cyfleus.

Byddai'n ddymunol hefyd rhoi cyfleoedd i'r defnyddwyr bori drwy gasgliadau sy'n cael eu diweddarau'n gyson neu gael eu cyflwyno i lyfrau ac awduron newydd.

h. Mae gan gymunedau gwahanol gymwyseddau, galluoedd a dymuniadau gwahanol o ran cymryd rhan ac ysgwyddo cyfrifoldeb am lyfrgelloedd ac ni fydd un model yn addas i bob sefyllfa. Bydd angen cyfathrebu'n ofalus iawn o safbwynt ymgysylltu â gwirfoddolwyr a gwneud hynny'n raddol.

i. Gallai gwirfoddolwyr gymryd rhan i ehangu a chyfoethogi'r profiad llyfrgell mewn:

- llyfrgelloedd sefydlog
- dosbarthu ystafell gefn
- digwyddiadau a sesiynau hyfforddi
- ar lyfrgelloedd teithiol/ymweliadau cartref
- trafndiaeth
- codi arian

i **gefnogi** staff cyflogedig proffesiynol os yw'r staff a'r gwirfoddolwyr yn cael hyfforddiant. Fodd bynnag, mae'r lefelau staffio isel presennol yn effeithio ar amser staff i reoli gwirfoddolwyr a gall defnyddwyr fod yn wrthwynebus i unrhyw gynllun gwirfoddoli. Mae angen sgiliau arbennig, y gallu i gyfathrebu a phrofiad.

---

<sup>2</sup> Lywodraeth Cymru (2014) *Llyfrgelloedd yn gwneud gwahaniaeth: pumed fframwaith y Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2014-2017*. Ar gael: <http://gov.wales/docs/drah/publications/140425wpls5en.pdf>

<sup>3</sup> *Canllawiau ynghylch Llyfrgelloedd a Reolir gan Gymunedau a Darpariaeth Statudol Gwasanaethau Llyfrgelloedd Cyhoeddus yng Nghymru*. Ar gael: <http://gov.wales/docs/drah/publications/150522community-managed-libraries-en.pdf>

- j. Er bod y cyfle i bori drwy lyfrau a'u trafod yn eu dwylo yn cael ei werthfawrogi gan nifer o ddefnyddwyr, gallai datrysiadau digidol/ar-lein gyfrannu o'u cyflwyno'n sensitif, megis defnyddwyr yn cael eu gwahodd drwy alwad ffôn neu e-bost i ymweld ag adeilad llyfrgell neu ddolen i weld llyfrau a ddewiswyd iddynt, yn seiliedig ar eu defnydd blaenorol.
- k. Ar hyn o bryd mae adeiladau Llyfrgell Gwynedd yn darparu mynediad hanfodol ac am ddim i gyfrifiaduron i sectorau o'r boblogaeth mewn nifer o gymunedau, rhai ohonynt â chyfraddau cynhwysiant digidol isel. Am y rheswm a eglurwyd ym mhwynt c, mae'n bosibl na fydd Cyngor Gwynedd yn gallu cefnogi rhai o'r adeiladau hyn yn y dyfodol.
- l. Mae adeiladau llyfrgell a'u staff yn chwarae rhan bwysig o safbwynt yr iaith Gymraeg mewn amryw o gymunedau drwy'r sir ac mae ganddynt rôl sylweddol mewn rhai ohonynt.
- m. Drwyddi draw mae nifer defnyddwyr Gwasanaeth Llyfrgell Gwynedd yn dirywio oherwydd:
  - proffil oedran hŷn y defnyddwyr
  - tynfa'r oes ddigidol sy'n gwneud adeiladau llyfrgell yn llai perthnasol i bobl iau.
 Ond, mae tueddiadau defnyddwyr yn llyfrgell Penygroes yn awgrymu fod modd, gydag ymdrech bendant a marchnata parhaus, cynyddu niferoedd defnyddwyr hyd yn oed ymhlith yr ifanc.
- n. Bydd angen i'r model o ddarparu gwasanaeth ystyried cynnydd parhaus yn nefnyddwyr y gwasanaeth llyfrgell cartref ond ochr yn ochr â hyn, peidio â difrio'r agwedd 'gwasanaeth' lle mae staff yn treulio amser gyda phobl yn eu cartrefi, h.y. nid rhoi sylw i niferoedd yn unig.
- o. Mae angen i Wasanaeth Llyfrgell Gwynedd, mewn cydweithrediad ag ysgolion a'r gwasanaeth addysg, barhau i ddatblygu ac addasu er mwyn darparu deunydd darllen hanfodol i blant, yn yr ysgol a'r tu allan, i gefnogi eu haddysg a helpu sgiliau llythrennedd a chynyddu nifer y defnyddwyr yn y dyfodol.

## Argymhellion

### Y Strategaeth/Y Weledigaeth

a. Newid nod craidd 3 o: 'Hybu'r defnydd o adnoddau'r gwasanaeth a llyfrgelloedd fel canolfannau cymunedol amlbwrpas' i 'Cefnogi a hybu'r defnydd o'r gwasanaeth a'i adeiladau fel mannau cymunedol anffurfiol a ffurfiol amlbwrpas a gwasanaethau y tu hwnt i lyfrau'.

b. Newid maes gwasanaeth allweddol/thema graidd sy'n adlewyrchu'r uchod i

*Hybu iechyd a lles unigolion a chymunedau.*

c. Ystyried cynnwys gweithredoedd o dan yr uchod sy'n adlewyrchu rôl bwysig y gwasanaeth a llyfrgelloedd o ran cydlyniant cymunedol, iechyd meddwl, cynhwysiant cymdeithasol, yr economi leol a'r iaith Gymraeg.

## Y ddarpariaeth

- d.** Er mwyn cyflwyno gwasanaeth mwy cost-effeithlon ac effeithiol, mae angen cynnig ystod ehangach o ddarpariaeth gwasanaeth llyfrgell na'r hyn a gynigir ar hyn o bryd (+/-20 awr gwasanaeth llyfrgell sefydlog neu symudol), naill ai fel ateb unigol neu mewn cyfuniad ag un arall, fel ag yr amlinellir yn Argymhellion e-q isod.
- e.** Creu amrywiaeth o ddarpariaeth gwasanaeth i wella a pharu argaeledd y gwasanaeth/oriau agor â'r patrymau defnydd drwy roi sylw at anghenion defnyddwyr. Angen rhoi sylw arbennig i gydweddu mynediad corfforol/oriau agor ag amserlenni trafndiaeth gyhoeddus a phatrymau gwaith lleol.
- f.** Ystyried cynnig gwasanaeth llyfrgell a reolir gan gymunedau yn yr 8 llyfrgell sydd ar agor am lai na 20 awr yr wythnos yn ogystal â'r 9 llyfrgell lawn-amser. Er mwyn sicrhau fod y rhain yn gymwys i gael eu hystyried fel rhan o'r ddarpariaeth statudol, sefydlu llyfrgelloedd Model C - llyfrgelloedd cymunedol dan arweiniad yr awdurdod - fel ar yr argymhellir yn adroddiad *Ymddiriedolaethau Annibynnol a Llyfrgelloedd Cymunedol yng Nghymru* (2014) (t.30)<sup>4</sup> a gadarnheir gan *Ganllawiau Llywodraeth Cymru ynghylch Llyfrgelloedd a Reolir gan Gymunedau a Darpariaeth Statudol Gwasanaethau Llyfrgelloedd Cyhoeddus yng Nghymru* (t. 17).<sup>5</sup> Dylai gwasanaethau o'r fath fodloni'r 18 Hawl Craidd a amlinellir ym mhumed fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru<sup>6</sup>.
- g.** Symud tuag at system fwy canolog ar gyfer storio a dosbarthu CDs, DVDs, deunydd print ac electronig [model "Y Llyfrgell Brydeinig gwasanaeth Boston Spa"] i gefnogi'r ystod gyfan o ddarpariaeth llyfrgell er mwyn osgoi cael stoc yn eistedd ar silffoedd mewn llyfrgelloedd wedi cau. Y system a'r broses i gael eu goruchwyllo gan staff cyflogedig ond ei chyflwyno'n weithredol gan wirfoddolwyr a hyfforddwyd drwy'r ystod o adeiladau a'r gwasanaeth teithiol neu drwy gyfleusterau eraill fel canolfannau hamdden ac ysgolion.
- h.** Cyflwyno rhaglen o weithgareddau a gwasanaethau yn y 9 llyfrgell fwyaf i hyrwyddo cynhwysiant digidol. Gallai'r rhain gael eu cyflwyno gan staff llyfrgelloedd cyhoeddus gyda chymorth grwpiau defnyddwyr o'r cymunedau i gyd i dreialu a chynghori ar unrhyw weithgareddau a gwasanaethau newydd. Byddai'r 9 llyfrgell yn y tymor hir yn arwain ar yr e-adnoddau ac yn cyflwyno hyfforddiant wyneb yn wyneb wrth i'r gwasanaethau newydd gyrraedd cymunedau. Gallai gwirfoddolwyr gefnogi'r datblygiadau hyn drwy ymgymryd â thasgau bob dydd fel dosbarthu/derbyn llyfrau.

---

<sup>4</sup> Roberts, D.H.E. (2014) *Ymddiriedolaethau Annibynnol a Llyfrgelloedd Cymunedol yng Nghymru: Ymchwil i natur y ddarpariaeth gyfredol a'r hyn a gynllunir, Rhagfyr 2014, comisiynwyd gan Lywodraeth Cymru*. Ar gael: <http://gov.wales/docs/drah/publications/150211-independent-trusts-community-libraries-en.pdf>

<sup>5</sup> Llywodraeth Cymru (2015) *Canllawiau ynghylch Llyfrgelloedd a Reolir gan Gymunedau a Darpariaeth Statudol Gwasanaethau Llyfrgell Cyhoeddus yng Nghymru*. Ar gael: <http://gov.wales/docs/drah/publications/150522community-managed-libraries-en.pdf>

<sup>6</sup> Llywodraeth Cymru (2014) *Llyfrgelloedd yn gwneud gwahaniaeth: pumed fframwaith y Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2014-2017*. Ar gael: <http://gov.wales/docs/drah/publications/140425wpls5en.pdf>

**i.** Codi lefelau llythrennedd ymhlith plant a phobl ifanc, gwella mynediad at e-adnoddau drwy roi benthyc darlennyddion e-lyfrau yn ogystal ag e-ddeunyddiau (llyfrau, cylchgronau a llyfrau sain) fel ag y rhoddir yn barod o dan delerau cynllun “ECALM” (*Every Child a Library Member*)<sup>7</sup>.

**j.** Cefnogi Argymhelliad a. uchod ac mewn cysylltiad ag f, archwilio partneriaethau posibl gyda grwpiau/mudiadau cymunedol perthnasol a llunio dulliau a gweithgareddau i alluogi llyfrgelloedd i gyflawni eu potensial fel manau cymunedol ffurfiol ac anffurfiol amlbwrpas a hyrwyddo iechyd a lles y tu hwnt i gyflenwi a benthyc adnoddau’n unig.

**k.** Sicrhau corff sydd â hanes blaenorol a phrofiad o’r sector gwirfoddol, megis Mantell Gwynedd, i helpu i recriwtio gwirfoddolwyr addas i helpu i gyflawni pob model o ddarpariaeth llyfrgell a phwyntiau gwasanaeth fel y bo’n briodol.

**l.** Creu rhaglen a gynlluniwyd i recriwtio a hyfforddi gwirfoddolwyr a fydd yn cynnwys hyfforddiant cyffredinol mewn cyflwyno gwasanaeth a hyfforddiant mwy arbenigol mewn cefnogi a chyflenwi technoleg, ynghyd â gweithgareddau ategol megis cludo defnyddwyr i’r llyfrgell agosaf, codi arian a mynd gyda gyrwyr llyfrgelloedd teithiol i gartrefi. Dylid ystyried hefyd cyflwyno rhaglen hyfforddiant i’r staff cyflogedig er mwyn eu galluogi i reoli a chyflawni modelau gwasanaeth newydd fel ag yr argymhellwyd uchod a rheoli staff gwirfoddol yn effeithiol ac effeithlon.

**m.** Gwella’r cyfeirio at/arwyddo holl ystod y gwasanaethau llyfrgell yn cynnwys yr adeiladau, gwasanaethau teithiol, benthyc rhwng llyfrgelloedd ac ymweliadau cartref – ar y we ac yn ffisegol.

**n.** Adnewyddu marchnata a chyfathrebu gwasanaethau Cyngor Gwynedd yn gyffredinol yn cynnwys llyfrgelloedd, er mwyn hyrwyddo cynnig gwasanaeth integredig lleol. Ceisio cynnal ymgyrchoedd marchnata penodol dros gyfnod o 3 – 5 mlynedd er mwyn gwneud ymdrech barhaus i wrthdroi’r dirywiad yn nifer y defnyddwyr, gyda’r nod hirdymor o gynyddu defnydd.

**o.** Archwilio cyfleoedd posibl am bartneriaethau newydd neu ddatblygu’r trefniadau presennol â:

- Phartneriaeth Ogwen ym Methesda
- y Swyddfa Bost neu’r Cyngor Cymuned yng Nghricieth
- Antur Nantlle ym Mhenygroes
- yr ysgol gynradd leol neu’r fenter gymdeithasol, Menter Fachwen, yn Neiniolen
- y Feddygfa yn Nefyn neu’r fenter gymdeithasol yng Nghongl Meinciau, Botwnnog
- y Ganolfan Gymuned/Cyngor Cymuned yn Llanberis,
- Ysgol Uwchradd Ardudwy yn Harlech,
- Cwmni Deudraeth ym Mhenrhyndeudraeth.

**p.** Darparu digon o fynediad am ddim i gyfrifiaduron mewn adeiladau cyhoeddus lleol eraill/pwyntiau gwasanaethau cymunedol ar adegau ac amodau cyfleus, er enghraifft canolfannau hamdden, ysgolion ac yn y blaen os nad yw mynediad i adeiladau llyfrgell yn parhau mewn cymunedau penodol.

---

<sup>7</sup> Treialwyd y cynllun hwn gan Wunedd; i gael manylion gweler <http://www.cilip.org.uk/cilip-cymru-wales/news/every-child-member>



**q.** Parhau i gyflogi staff Cymraeg eu hiaith a mynd ati i recriwtio gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg i wneud unrhyw ddyletswyddau blaen tŷ. Cadw dewis eang o lyfrau Cymraeg er mwyn cynnal rôl bwysig llyfrgelloedd o safbwynt yr iaith Gymraeg.

## 2. Cyflwyniad a Cefndir

### Cyflwyniad

1. Dechreuodd Cyngor Gwynedd Adolygiad o'i Wasanaeth Llyfrgell Cyhoeddus yn 2012 yn dilyn canlyniad asesiad 2012 Llywodraeth Cymru a oedd yn nodi lefelau staffio isel iawn i'r gwasanaeth o'u cymharu â'r safon genedlaethol, a allai effeithio ar ei allu i gyflwyno gwasanaeth cynhwysfawr (gweler isod). Canlyniad Cymal cyntaf yr Adolygiad hwn (2012-2014) oedd dogfen ymgynghorol<sup>8</sup> a oedd yn amlinellu cynigion a gweledigaeth ar gyfer dyfodol y Gwasanaeth Llyfrgell a oedd yn rhoi sylw ar bedwar maes gwasanaeth allweddol:

- Datblygu Sgiliau Digidol
- Mynediad at Wybodaeth
- Hybu Iechyd a Lles
- Hybu Darllen

2. Ail gymal yr Adolygiad oedd ymgynghoriad cyhoeddus a oedd yn gysylltiedig â chynnwys *Mwy na Llyfrau*, a gynhaliwyd yn ystod Gwanwyn/Haf 2015 gan Cymdeithion Sian Shakespear Associates ar ran Cyngor Gwynedd. Roedd pwrpas y cymal hwn yn ddeublyg: (1) cynnig cyfle i bobl leol ddweud eu dweud a helpu u ffurfio dyfodol y Gwasanaeth Llyfrgelloedd; a (2) mesur effaith y newidiadau posibl.

3. Mae'r rhesymau dros yr adolygiad hwn a'i amseriad yn deillio o gyfuniad o ffactorau. Fel awdurdodau lleol eraill yng Nghymru, bydd Cyngor Gwynedd yn derbyn llai o arian gan Lywodraeth Cymru i dalu am wasanaethau lleol (*Mwy na Llyfrau*, 2015, t.2). Mae'n rhaid i'r Gwasanaeth Llyfrgell "wneud arbedion sylweddol yn unol â gwasanaethau eraill y Cyngor - o leiaf 25% o'i gyllideb erbyn 2017/18" (*Ymgynghoriad Haf 2015*).

### Cefndir

4. Mae darparu "gwasanaeth llyfrgell cynhwysfawr ac effeithlon i bawb sy'n dymuno'i ddefnyddio" yn ofyniad statudol i awdurdodau lleol yng Nghymru o dan delerau Deddf Llyfrgelloedd ac Amgueddfeydd Cyhoeddus 1964. Mae'r gofyniad hwn yn ymestyn i bawb sy'n byw, yn gweithio, neu mewn addysg llawn amser yn yr ardal sy'n dod o dan Gyngor Gwynedd. Un o wendidau cydnabyddedig Deddf 1964 yw diffyg diffiniad ffurfiol o'r ymadrodd "gwasanaeth cynhwysfawr ac effeithlon", ynghyd â chanllawiau clir am yr hyn ddylai nodweddu gwasanaeth o'r fath. Yn sgil ffurfio Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru ceir canllawiau gweithredol, a hefyd yng nghanlyniad Adolygiadau Barnwrol megis Ymchwiliad Wirral (t.9).

5. Mae'r cyfrifoldeb dros oruchwylio'r ddyletswydd statudol hon yn aros gyda Llywodraeth Cymru a gomisiynodd yn 2013 Adolygiad Arbenigol ar Lyfrgelloedd Cyhoeddus yng Nghymru gan Banel Cyfeirio (Cadeirydd: Claire Creaser) a adroddodd yn ôl ym mis Gorffennaf 2014.<sup>9</sup> Roedd yr Adolygiad hwn yn edrych ar rôl llyfrgelloedd cyhoeddus yn eu cymunedau a sut roeddent yn cyflwyno

---

<sup>8</sup> Cyngor Gwynedd (2015) *Mwy na Llyfrau: Ymgynghoriad Cyhoeddus ar Ddyfodol Gwasanaethau Llyfrgell Cyngor Gwynedd, Gwanwyn 2015*. Ar gael: <https://www.gwynedd.gov.uk/en/Council/Documents---Council/Have-your-say/Public-consultation-on-the-future-of-Gwynedd-Councils-Library-Service.pdf>

<sup>9</sup> Llywodraeth Cymru (2014) *Adolygiad Arbenigol o Lyfrgelloedd Cyhoeddus yng Nghymru 2014*. Ar gael: <http://gov.wales/docs/drah/publications/141021libraries-review-report-en.pdf/>

gwasanaethau. Wedi'i lunio'n bennaf i ystyried y ffyrdd y gallai gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus Cymru gydweithio a chyflwyno gwasanaethau arloesol yn y dyfodol, roedd yr Adolygiad yn gofyn hefyd am ymatebion i bedwar cwestiwn. Roedd y cwestiwn cyntaf yn gofyn am farn am natur a math y gwasanaethau y dylai llyfrgelloedd cyhoeddus eu cynnig yn y dyfodol i fodloni anghenion lleol a oedd yn newid.<sup>10</sup>

6. Diben y panel Cyfeirio oedd gwneud argymhellion ynglŷn â chyflwyno'r gwasanaeth statudol yn y dyfodol "ond gan fod rhywfaint yn bragmataidd o ystyried yr hinsawdd economaidd bresennol" gyda'r amod "Mae'n glir na ellir cynnal y status quo mwyach" (*Adolygiad Arbenigol...2014*, t.5).

7. Nododd ac arfarnodd *Adolygiad Arbenigol* 2014 ystod o fodelau cynaliadwy posibl i'r dyfodol o gyflawni gwasanaeth, yn cynnwys llyfrgelloedd a reolir gan y gymuned. Yn gweithredu yn Lloegr o 2011, dosbarthodd Adroddiad gan Gyngor y Celfyddydau Lloegr<sup>11</sup> dri model o ddarpariaeth gwasanaeth i Lyfrgelloedd Cymunedol

- a. Llyfrgell Gydgyhyrchiol a Reolir gan y Gymuned – yn cael ei harwain a'i chyflawni gan y gymuned, yn aml gyda chefnogaeth y Cyngor ac fel rhan o'r rhwydwaith llyfrgelloedd cyhoeddus, ond ddim â staff cyflogedig yn aml
- b. Llyfrgell Gydgyhyrchiol a Gefnogir gan y Gymuned - yn cael ei harwain a'i hariannu gan y cyngor, fel arfer gyda staff cyflogedig ond cryn dipyn o gymorth gwirfoddolwyr
- c. Llyfrgell Gydgyhyrchiol Gymunedol a Gomisiynir - yn cael ei chomisiynu a'i hariannu'n llawn gan y cyngor ond yn cael ei chyflenwi gan gorff trydydd sector megis menter gymunedol neu gymdeithasol ddielw, neu gorff cydfuddiannol.

8. Roedd Argymhellion IV a IX (*Adolygiad Arbenigol...2014*) yn galw am ymchwil bellach i rôl llyfrgelloedd cymunedol yng Nghymru, yn cynnwys ystyried rôl Ymddiriedolaethau Elusennol Annibynnol mewn rheoli gwasanaethau llyfrgell cyhoeddus, a arweiniodd at gomisiynu astudiaeth gan Lywodraeth Cymru, Rhagfyr2014.<sup>12</sup> Roedd Adroddiad Roberts (2014) a ddeilliodd o hwn yn adnabod pedwar model ar gyfer Cymru, gyda Model C yn cael ei argymhell ar hyn o bryd fel yr un sy'n cynnig "y gobaith gorau am gynaliadwyedd a hyfywedd, a phwyslais priodol ar ansawdd y gwasanaeth."<sup>13</sup>

9. Gellir cynnwys llyfrgelloedd a reolir yn gymunedol fel rhan o'r ddarpariaeth statudol os ydynt yn cydymffurfio â'r 18 hawl craidd a amlinellwyd ym Mhuned Fframwaith y Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru<sup>14</sup> yn ôl doethineb yr awdurdod. Mae'r hawliau hyn yn amlinellu pa wasanaethau a

<sup>10</sup> Llywodraeth Cymru (2014) *Adolygiad o lyfrgelloedd cyhoeddus Cymru*. Ar gael:

<http://gov.wales/topics/cultureandsport/museums-archives-libraries/libraries/public-libraries-review/?lang=en>

<sup>11</sup> Arts Council England (2013) *Learning from experience; guiding principles for local authorities*. Ar gael:

<http://tinyurl.com/nobhgj6>

<sup>12</sup> Roberts, D.H.E. (2014) *Independent Trusts and Community Libraries in Wales: Research into the nature of the current and planned provision, December 2014, commissioned by the Welsh Government*. Ar gael:

<http://gov.wales/docs/drah/publications/150211-independent-trusts-community-libraries-en.pdf>

<sup>13</sup> Llywodraeth Cymru (2015) *Canllawiau ynghylch Llyfrgelloedd a Reolir gan Gymunedau a Darpariaeth Statudol Gwasanaethau Llyfrgelloedd Cyhoeddus yng Nghymru*. Ar gael:

<http://gov.wales/docs/drah/publications/150522community-managed-libraries-en.pdf> p. 4.

<sup>14</sup> Llywodraeth Cymru (2014) *Llyfrgelloedd yn gwneud gwahaniaeth: pumed fframwaith y Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2014-2017*. Ar gael:

<http://gov.wales/docs/drah/publications/140425wpls5en.pdf>

chyfleusterau y gall y cyhoedd eu disgwyl gan unrhyw wasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru (mae'r rhestr lawn ar gael fel Atodiad 1).

10. Mae'r mathau hyn o ddarpariaeth, o'u datblygu'n llawn, yn cynnig y potensial i wneud arbedion gan eu bod yn dibynnu ar wirfoddolwyr yn cyflwyno gwasanaethau ochr yn ochr â staff medrus a gwybodus. O ganlyniad, nid yw'r arbedion gymaint â rhai'r modelau sy'n dibynnu'n llwyr neu'n bennaf ar wirfoddolwyr neu gyrff allanol yn unig, ond dyma ddull cytbwys o ddarparu'r gwasanaeth, sy'n sicrhau fod y cyhoedd yn cael gwasanaeth llyfrgell o safon sy'n bodloni gofynion statudol heb fod yn canolbwytio ar gyflawni arbedion cost yn unig.<sup>15</sup>

11. Caiff crynodeb o'r heriau sy'n wynebu'r ddarpariaeth gwasanaethau llyfrgell yng Ngwynedd ei amlinellu yn *Ymgynghoriad Haf 2015*.

### **Gwasanaeth Llyfrgell Gwynedd: y ddarpariaeth bresennol<sup>16</sup>**

12. Mae gan y Gwasanaeth Llyfrgell Cyhoeddus 17 llyfrgell sefydlog a phedair llyfrgell symudol. Mae naw ohonynt ar agor am fwy nag 20 awr yr wythnos, yn cael eu galw'n "brif lyfrgelloedd" ac wedi'u lleoli yn:

- Abermaw
- Bangor
- Blaenau Ffestiniog
- Caernarfon
- Dolgellau
- Porthmadog
- Pwllheli
- Tywyn
- Y Bala

Mae'r wyth llyfrgell sefydlog arall ar agor am lai nag 20 awr ac maent wedi'u lleoli yn:

- Bethesda
- Cricieth
- Deiniolen
- Harlech
- Llanberis
- Nefyn
- Penygroes
- Penrhyndeudraeth

13. Ceir proffiliau a mapiau o'r llyfrgelloedd unigol yn *Mwy na Llyfrau 2015* (Atodiadau 1 a 2), ynghyd â manylion yr ystod o wasanaethau a ddarperir yn 2015 (tt.3-4) a chrynodeb o'r asesiad presennol o

---

<sup>15</sup> Llywodraeth Cymru (2015) *Canllawiau ynghylch Llyfrgelloedd a Reolir gan Gymunedau a Darpariaeth Statudol Gwasanaethau Llyfrgelloedd Cyhoeddus yng Nghymru* Ar gael:

<http://gov.wales/docs/drah/publications/150522community-managed-libraries-en.pdf>

<sup>16</sup> Awst 2015

berfformiad a fesurwyd yn erbyn y Fframwaith ar gyfer Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2011-2014 sy'n dangos fod wyth o'r naw safon wedi'u cyrraedd (tt.4-5).

### 3. 2015 Ymgynghoriad ac Adolygiad

#### Ymdriniaeth ac Amserlen

14. O dan delerau'r cytundeb a roddwyd ym mis Chwefror 2015, cynhaliodd Cymdeithion Sian Shakespear ymgynghoriad ac adolygiad o farn y prif randdeiliaid, yn seiliedig ar weledigaeth a chynigion Cyngor Gwynedd ar gyfer *Dyfodol y Gwasanaeth Llyfrgell Cyhoeddus*. Gan ddefnyddio'r ddogfen ymgynghorol fel sail, y nodau oedd

- rhannu gwybodaeth am yr adolygiad, y deilliannau tebygol a'r rhesymeg y tu ôl i unrhyw newidiadau arfaethedig yn y modd o ddarparu'r gwasanaeth
- mesur i ba raddau y mae'r weledigaeth ddrafft yn gyflawn
- dod o hyd i bryderon y rhanddeiliaid ynghylch unrhyw newidiadau posibl er mwyn cwblhau asesiad cydraddoldeb a galluogi Cyngor Gwynedd i ystyried unrhyw fesurau lliniaru
- casglu barn am bartneriaethau posibl neu fodelau darparu gwasanaeth eraill mewn rhai cymunedau
- cynnig awgrymiadau ynghylch y ffordd orau i ddarparu gwasanaeth mor gynhwysfawr â phosibl yng ngoleuni'r heriau ariannol a ddaw yn sgil y toriadau yn y grant blynyddol y mae Cyngor Gwynedd yn ei gael gan y Llywodraeth.

15. Cynhaliwyd yr Ymgynghoriad mewn dau gymal yn ystod gwanwyn a haf 2015:

**Cymal un:** trafodaethau â grwpiau targed yn ystod Mawrth - Ebrill cyn cyfnod yr enciliad a oedd yn arwain at yr Etholiad Cyffredinol a gynhaliwyd ar 7 Mai

**Cymal dau:** arolwg holiadur a sesiynau galw heibio a gynhaliwyd Mai - Gorffennaf yn dilyn yr Etholiad Cyffredinol.

Dyma'r dulliau a ddefnyddiwyd:

Holiaduron papur ac ar-lein (sampl hunan-ddethol)<sup>17</sup>

1. Sesiynau galw heibio cyhoeddus yn 16 o'r 17 llyfrgell<sup>18</sup>
2. Sesiynau grŵp trafod a gynhaliwyd gyda grwpiau a dargedwyd - Cyngor Pobl Hŷn; Grwpiau Rhieni; pobl ifanc yn eu harddegau/pobl ifanc (17 - 24 oed).
3. Sesiynau grŵp trafod gyda'r staff - 2 gyfarfod staff, un gyda staff y llyfrgell deithiol

<sup>17</sup> Copi yn Atodiad 2.

<sup>18</sup> Gan fod newidiadau ar y gweill ar gyfer y ddarpariaeth llyfrgell yn y Bala o ganlyniad i ailstrwythuro'r ysgolion yno, ni chynhaliwyd sesiwn ymgynghori benodol yn y Bala. O ystyried y gwahaniaeth posibl o ran yr effaith ar y lefelau gwasanaeth presennol, defnyddiwyd amlinelliadau gwahanol yn y prif lyfrgelloedd llawn-amser a'r rheiny sy'n darparu llai nag 20 awr ar hyn o bryd. Mae copïau o'r ddau amlinelliad ar gael yn Atodiadau 3 a 4.

4. Gweithdy gyda chynrychiolwyr Cynghorau Cymuned a phartneriaid gwasanaeth
5. Gohebiaeth a dderbyniwyd - llythyrau, cwestiynau ysgrifenedig a deisebau.

### **Ymgynghoriad: Y Broses a'r Deilliannau**

16. Roedd pob un o'r sesiynau galw heibio yn dilyn patrwm tebyg fel ag y dangoswyd yn yr amlinelliadau a roddir yn Atodiadau 4 a 5. Ym mhob llyfrgell, roedd pawb yn cael eu croesawu ac yna'n cael eglurhad am yr adolygiad a'r deilliannau tebygol i'r gwasanaeth yn gyffredinol ac i'w llyfrgell nhw yn benodol. Yn y naw llyfrgell lawn-amser, gofynnwyd i'r unigolion wedyn roi sylwadau a lleisio unrhyw bryderon am y ffordd y gall y Strategaeth newydd a *Her Gwynedd* effeithio ar wahanol elfennau o'r ddarpariaeth bresennol. Yn yr wyth llyfrgell ran-amser, gofynnwyd i'r unigolion hefyd nodi unrhyw bryderon ac yna dangoswyd iddynt restr o dri opsiwn ar gyfer darparu'r gwasanaeth yn y dyfodol ac fe'u gwahoddwyd i roi sylwadau. Nodwyd y sylwadau i gyd a gwahoddwyd y cyfranogwyr i roi eu hawgrymiadau eu hunain. Yn olaf, dangoswyd iddynt restr o flaenoriaethau'r gwasanaeth gan ofyn iddynt sgorio'r rhain ar raddfa o 1 - 6, gyda 1 = 'mwyaf pwysig' a 6 = 'lleiaf pwysig'.

17. Roedd elfennau'r Ymgynghoriad a oedd yn cynnwys plant yn cymryd rhan yn cael eu gweinyddu naill ai gan Staff Cyngor Gwynedd cymeradwyedig neu gyda/gan rieni er mwyn cydymffurfio â'r safonau moesegol cyfredol i arolygon sy'n cynnwys Plant ac Oedolion Hyglwyf. Dosbarthwyd 500 o holiaduron a dychwelwyd 100 gan blant.

18. Niferoedd yr holiaduron a ddychwelwyd wedi'u llenwi = 544 copi caled/papur; 125 holiadur ar-lein.

19. Niferoedd cyfranogwyr yn y sesiynau ymgynghori wyneb yn wyneb oedd:

- Grwpiau rhieni - 18
- Grŵp ffocws pobl ifanc (17-24 oed) - 10
- Cyngor Pobl Hŷn - 37
- Sesiynau galw heibio (16 llyfrgell) - 428
- Staff - 36
- Cynrychiolwyr Cynghorau Cymuned a phartneriaid gwasanaeth - 35

20. Mae'r canlyniadau a gafwyd yn ddarluniadol a dangosol; lluniwyd y broses i ganfod barn ar y materion a nodwyd, ond nid i fod yn gynrychioladol o holl boblogaeth Gwynedd. Byddai hynny'n golygu llawer mwy o ymdrech o ran amser ac adnoddau; byddai'n golygu cael ymatebion gan y rhai nad ydynt yn defnyddio llyfrgell yn gymesur â'u niferoedd yn y boblogaeth drwyddi draw, yn ogystal â sicrhau fod pob categori o'r defnyddwyr llyfrgell presennol yn cael eu cynrychioli yr un mor gymesur. Dengys yr ystadegau defnydd presennol fod 31% o boblogaeth Gwynedd yn aelodau o'r gwasanaeth llyfrgell, gydag 20% o'r rhain yn "fenthycwyr rheolaidd"<sup>19</sup>; nid oedd amser nac adnoddau yn caniatáu arolwg cynrychioladol o'r categorïau gwahanol hyn.

---

<sup>19</sup> Cyngor Gwynedd (2015) *Gwasanaeth Llyfrgelloedd Gwynedd: Ymgynghoriad Haf 2015*. [taflen]

## 4. Canlyniadau a Dadansoddiad Ansoddol

21. Nododd adolygiad cynharach (2012-2014) a wnaed gan Gyngor Gwynedd yr heriau a oedd yn wynebu'r gwasanaeth, ynghyd â rhestr o bum pwynt allweddol. Prif ganfyddiadau'r arolygiad hwn oedd

*byddai'n anaddas parhau â'r gwasanaeth yn ei ffurf bresennol; ac ... angen am gyfeiriad clir i'r Gwasanaeth wrth gynllunio ar gyfer y dyfodol ac ymateb i heriau datblygiadau digidol a chyfyngiadau cyllidebol.*

Canlyniad pellach y broses hon oedd drafftio gweledigaeth newydd y Cyngor ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell - *Llyfrgelloedd Gwynedd - Mwy na Llyfrau*.<sup>20</sup> 1.

22. Caiff canlyniadau'r ymgynghoriad hwn yn 2015 eu dadansoddi a'u trefnu mewn perthynas â thair nod gyffredinol gweledigaeth bresennol y Cyngor ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell fel ag yr amlinellwyd yn *Llyfrgelloedd Gwynedd - Mwy na Llyfrau*:

- *Hyrwyddo darllen a mynediad at ddeunydd print a digidol i ddefnydd addysgol, hamdden ac ieched a lles* [NOD 1]
- *Darparu a chyfeirio trigolion at adnoddau gwybodaeth a darllen o'r ansawdd gorau* [NOD 2]
- *Hybu'r defnydd o adnoddau'r gwasanaeth a llyfrgelloedd fel canolfannau cymunedol aml bwrpas* [NOD 3]

Caiff y nodau hyn eu trosi'n bedair thema graidd neu feysydd gwasanaeth:

- Datblygu Sgiliau Digidol [ThG1]
- Mynediad at Wybodaeth [ThG2]
- Hyrwyddo Iechyd a Lles [ThG3]
- Hyrwyddo Darllen [ThG4].

23. Defnyddir y themâu craidd, ynghyd â disgwiliadau cwsmeriaid am y gwasanaeth, a fynegwyd yn ystod yr ymgynghoriad, i strwythuro canlyniad yr ymgynghoriad isod. Yn anochel ceir rhywfaint o orgyffwrdd o fewn y themâu hyn; mae'r ffordd y grwpwyd barn y cyfranogwyr mewn themâu yn adlewyrchu penderfyniad yr awduron ynghylch pa rai oedd y mwyaf addas, o ystyried y cynnwys.

### 4.1 Datblygu Sgiliau Digidol

24. Fel ag y cydnabuwyd yn *Mwy na Llyfrau*, (t.6), mae gan lyfrgelloedd rôl allweddol i gefnogi cynhwysiant digidol ymhlith trigolion Gwynedd. Mae lefelau isel o ymgysylltiad digidol ar hyn o bryd yn amlwg fel y gwelir o ganfyddiadau'r ymgynghoriad - mynediad cyfyngedig, rhannol, neu ddim o

---

<sup>20</sup> Cyngor Gwynedd (2015) *Mwy na Llyfrau: Ymgynghoriad Cyhoeddus ar Ddyfodol Gwasanaeth Llyfrgell Cyngor Gwynedd, Gwanwyn*. Ar gael: <https://www.gwynedd.gov.uk/en/Council/Documents---Council/Have-your-say/Public-consultation-on-the-future-of-Gwynedd-Councils-Library-Service.pdf> pp 5-6.

gwbl i'r rhyngwrwyd/cyfrifiaduron yn gyffredinol y tu allan i'r hyn a ddarperir gan lyfrgelloedd yn yr achosion canlynol

- plant heb fynediad i gyfrifiadur o gwbl, neu i un heb gysylltiad rhyngwrwyd, a hynny yn erbyn disgwyliadau cynyddol fod gwaith cartref yn dibynnu'n llwyr neu'n rhannol ar fynediad i'r rhyngwrwyd ac yn cael ei wneud ar gyfrifiadur
- eto mynediad rhannol neu ddim o gwbl sydd gan bobl sy'n chwilio am waith neu'n hawlio budd-daliadau; mae'n rhaid i'r rhai sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith gofnodi eu hymdrechion i gael swydd ar-lein ac yn aml mae'n rhaid llenwi ceisiadau swydd ar-lein
- y rheiny sy'n gwneud ymchwil, megis pobl hŷn sydd am ymchwilio i hanes eu teulu a'r rheiny sy'n astudio ar incwm isel.

25. Cafwyd tystiolaeth gan yr ymgynghoriad fod llyfrgelloedd Gwynedd yn chwarae rhan bwysig o ran rhoi mynediad am ddim i gyfrifiaduron i fodloni anghenion yr uchod. Mae staff yr Adran Gwaith a Phensiynau (y Ganolfan Waith) yn cyfeirio hawlwrwr at lyfrgelloedd i ddefnyddio cyfrifiaduron, er enghraifft. Yn ystod sawl un o'r sesiynau ymgynghori yn y llyfrgelloedd llai, rhan-amser, sef Deiniolen, Penygroes a Bethesda, roedd y canfyddiad o fod yn 'gymuned ddifreintiedig' yn cyd-fynd yn gryf â diffyg ymgysylltiad digidol ac felly cynhwysiant.

26. Yn ôl ymchwil a wnaed gan Lywodraeth Cymru yn 2010, mewn rhannau helaeth o Wynedd, 60% neu lai o'r boblogaeth oedolion 18+ oed oedd yn cael eu dynodi "wedi'u cynnwys yn ddigidol" (data seiliedig ar fap).<sup>21</sup>

Enghreifftiau gan gyfranogwyr:

*"Mae darllen yn fy helpu i syrthio i gysgu yn y nos.*

*Dwi ar fudd-daliadau, felly `dyw prynu llyfrau ddim yn bosib.*

*Hefyd mae fy mab yn dibynnu ar y llyfrgell i chwilio am waith achos all o ddim fforddio cael band eang adra"*

27. Mynegodd rhieni a chyfranogwyr o'r grŵp ffocws pobl ifanc y farn y dylai plant ddechrau gyda llyfrau cyn mynd at e-lyfrau ac e-ddarllenyddion. Fel y sylwodd un rhiant :

*"Mae darllen ar ei lechen yn temtio fy mhlentyn i wneud pethau eraill heblaw darllen."*

28. Gyda gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus o dan fwy a mwy o bwysau, mae'n bwysig cydnabod rôl y llyfrgelloedd cyhoeddus fel canolfannau cymunedol rhwng cenedlaethau, gyda mynediad am ddim i gyfrifiaduron a'r rhyngwrwyd yn parhau i gael eu darparu mewn cymunedau lle mae ei angen.<sup>22</sup>

29. Gall ymddangos fod yr oes ddigidol yn gwneud adeiladau llyfrgell yn llai perthnasol i bobl ifanc ac oedolion oherwydd maent yn credu eu bod yn llawn o lyfrau papur. Caiff gwerthwyr e-lyfrau sy'n cynnig lawrlwytho llyfrau am ddim neu am bris gostyngol eu gweld fel cystadleuaeth uniongyrchol i'r

<sup>21</sup> Smith, J. and Jones, I. (2010) *An analysis of digital inclusion In Wales* Ar gael: <http://wiserd.ac.uk/files/7413/6567/1351/CC-ITC-3rdWGDigitalInclusion.pdf>

<sup>22</sup> LIC (2014) *Cynllun Cyflenwi Cynhwysiant Digidol - Diweddariad 2014: Dull gweithredu strategol* Ar gael: <http://gov.wales/docs/dsilg/publications/comm/140630-digital-inclusion-deliver-plan-2014-en.pdf> t.5




Gwasanaethau Llyfrgell Cyhoeddus, yn arbennig ymhlith y rhai sy'n defnyddio e-ddarllenyddion. Cafwyd rhywfaint o dystiolaeth yn ystod yr ymgyngoriad fod oedolion sydd â chrebwyll digidol ac ar incwm isel a hyd yma ddim yn gyfarwydd â thrafod llyfrau, yn prynu e-lyfrau am brisiau gostyngol i'w darllen ar eu teclynnau.

## 4.2. Mynediad at wybodaeth

30. Mae galluogi trigolion i gael mynediad at wybodaeth a'i defnyddio yn cael ei ystyried yn ganolog i ddyfodol y gwasanaeth llyfrgell (*Mwy na Llyfrau*, t.6). Mae diffinio a dehongli'r hyn a olygir gan yr ymadrodd 'y gallu i gyrchu a defnyddio gwybodaeth' yn hanfodol felly er mwyn diwallu'r angen sylfaenol hwn. Yn yr un modd, mae adnabod a goresgyn rhwystrau posibl yn bwysig iawn hefyd.

31. Mae'r ffactorau arwyddocaol fel a ganlyn:

- Iaith<sup>23</sup>
- Lleoliad (gofod ffisegol)<sup>24</sup> 
- Trafnidiaeth a theithio
- Gwirfoddolwyr a/neu lyfrgelloedd a reolir gan gymunedau

### Iaith

32. Yn ôl y cyfrifiad diweddaraf, roedd tua 65% o boblogaeth Gwynedd dros dair oed yn siarad Cymraeg, sy'n sylweddol uwch na 20.5%, sef cyfartaledd Cymru gyfan.<sup>25</sup> Yn gyffredinol, mae nifer y siaradwyr Cymraeg a'r rheiny a anwyd yng Nghymru yn uwch yn yr ardaloedd gwledig, er enghraifft Llanrug ar 87.8%. I'r gwrthwyneb, mae'r gallu i siarad Cymraeg ar ei uchaf yn nhref Caernarfon (87.4%) ac ar ei isaf yn Nhywyn ac Aberdyfi (35.5%) a Bangor (36.4%). Yn 2011, roedd sawl cymuned a ystyrir yn gadarnleoedd y Gymraeg wedi disgyn yn agos i'r meincnod o 70% (dyma'r lefel hyfyw lle y defnyddir yr iaith yn ddyddiol), megis Llanberis, Penisarwaun, Llanaelhaearn a Morfa Nefyn.

33. Dangosodd canlyniad Cyfrifiad 2011 ostyngiad sylweddol hefyd yng nghanran y rhai 60+ oed oedd yn gallu siarad Cymraeg, tystiolaeth o dueddiad tuag at bobl hŷn yn symud i mewn i'r sir. Rhwng 2001 a 2011 cafwyd cynnydd o +13.9% yn nifer y rhai 60 oed sy'n byw yng Ngwynedd.

Nid yw'r ffigyrau uchod yn cynnwys nifer y dysgwyr Cymraeg a all fod yn uwch mewn sawl achos.

34. Ymddengys fod llyfrgelloedd Gwynedd yn chwarae rhan allweddol o safbwynt codi ymwybyddiaeth a bod yn gyfarwydd â'r iaith Gymraeg, ac yn wir dysgu'r iaith.

*"Heb lyfrgell ni fyddai cyfle i'm plentyn ddewis llyfr Cymraeg a darllen hefo fi cyn iddi ddechrau'r ysgol ym mis Medi ac yna wedyn, ar ôl oriau ysgol ac yn ystod gwyliau'r haf."*

*"Rydym newydd symud i'r ardal ac yn dibynnu'n fawr ar y llyfrgell i ddatblygu'n Cymraeg".*

<sup>23</sup> Mae llythrennedd yn amlwg yn berthnasol yn y cyd-destun hwn; rhoddir sylw i faterion sy'n gysylltiedig â 'llythrennedd' yn gyffredinol yn Adran 7. *Hyrwyddo Darllen*.

<sup>24</sup> Amlinellir y materion ynghylch mynediad Digidol yn gynharach yn Adran 4. *Datblygu Sgiliau Digidol*

<sup>25</sup> Cyngor Gwynedd (2014) *Strategaeth Iaith Gwynedd 2014 – 2017* Y cyd-destun ystadegol tt. 4- 6. Ar gael: <https://www.gwynedd.gov.uk/en/Council/Documents---Council/Strategies-and-policies/Gwynedd-language-strategy.pdf>

35. Mae gan lyfrgelloedd rôl greiddiol mewn datblygu'r iaith Gymraeg:

- Mae gan bob llyfrgell ddewis da o ddeunydd iaith Gymraeg.
- Mae ystod ac argaeledd deunyddiau iaith Gymraeg yn bwysig i bob teulu ar incwm isel sydd â phlant oed ysgol ac iau, ond yn enwedig dysgwyr.
- Mae dysgwyr yn cael mynediad at sgiliau iaith gwerthfawr drwy ddefnyddio llyfrgelloedd wrth iddynt wrando ar y Gymraeg yn cael ei siarad a thrwy siarad ag eraill - dysgwyr a Chymry rhugl - yn Gymraeg.
- Mae gan staff llyfrgell rôl bwysig o ran datblygu medr mewn iaith, drwy gefnogi ac annog defnyddio'r iaith yn gyffredinol, ond hefyd yn benodol wrth argymhell deunyddiau addas i ddatblygu a mireinio sgiliau iaith ymhellach. Fel y dywedodd un cyfranogwr: "*Mae'r llyfrgellydd yn rhoi llawer o gymorth wrth ddewis pa lyfrau Cymraeg y gallaf eu darllen fel rhan o'm cwrs Cymraeg gyda Phrifysgol Aberystwyth.*"

36. Ym mhump o'r wyth llyfrgell rhan-amser Cymry Cymraeg neu ddysgwyr oedd y rhan fwyaf a ddaeth i'r sesiynau galw heibio a all adlewyrchu lleoliad gwledig rhai o'r cymunedau. Mewn nifer o gymunedau, caiff llyfrgelloedd llawn a rhan-amser eu hystyried yn 'hafan o Gymreictod', naill ai wedi'u hintegreiddio'n llawn yn iaith naturiol y gymuned fel ym Mhenygroes neu Fethesda, neu fel 'cadarnle' mewn cymuned lle mae'r Gymraeg yn llai amlwg, megis Tywyn. Mae amgylchedd drochi fel hyn yn helpu teuluoedd i annog plant i ddarllen a siarad Cymraeg; yn fwy cyffredinol, mae llyfrgelloedd sefydlog yn cynnig cyfleoedd am ryngweithio cymdeithasol rhwng y cenedlaethau sydd eto yn helpu i ddatblygu sgiliau iaith.<sup>26</sup>

*"Gallai fynd yn ddrud prynu llyfrau Cymraeg heb y llyfrgell."*

### **Lleoliad a phatrymau defnydd**

37. Mae ymhle a sut y gall unigolion gael mynediad at wybodaeth a'i defnyddio yn fater o'r pwys mwyaf. Roedd darparu a lleoli gwasanaethau yn y dyfodol yn elfen ganolog o'r Ymgynghoriad. Gwahoddwyd barn ar gynigion i fodloni'r gofynion statudol am ddarparu gwasanaeth llyfrgell drwy barhau i gynnal

- naw prif lyfrgell - Abermaw, Bala, Bangor, Blaenau Ffestiniog, Caernarfon, Dolgellau, Porthmadog, Pwllheli, Tywyn
- gwasanaeth llyfrgell deithiol
- llyfrgell deithiol a gwasanaeth gwybodaeth i blant a phobl ifanc - Lori Ni
- gwasanaeth llyfrgell cartref

38. Canlyneb i'r uchod oedd y byddai oriau agor y prif lyfrgelloedd yn cael eu hystyried a'u haddasu pe bai cyllid yn caniatáu. Gwahoddwyd sylwadau hefyd am ba mor ddymunol neu fel arall fyddai cael y cymunedau'n cymryd rhan fwy uniongyrchol mewn darparu'r gwasanaeth drwy weithredu fel gwirfoddolwyr neu drwy gymryd cyfrifoldeb dros ddarparu llyfrgell gymunedol yn yr wyth cymuned sydd ar hyn o bryd yn cynnig gwasanaethau llyfrgell rhan-amser.

---

<sup>26</sup> Caiff rôl llyfrgelloedd fel llefydd sy'n galluogi rhyngweithio cymdeithasol fel ffactor sy'n cyfrannu at iechyd a lles yr unigolyn ei werthuso yn Adran 6 *Hyrwyddo Iechyd a Lles*

39. Un mater ymarferol i'w nodi a ddaeth i'r amlwg yn ystod y broses Ymgynghori oedd ei bod yn anodd dod o hyd i rai o'r llyfrgelloedd sefydlog os nad yw pobl yn gyfarwydd â'r ardal. Mae diffyg arwyddion mewn trefi a chymunedau yn golygu fod canfod gwasanaethau yn anodd.

40. Roedd y cyfranogwyr a fyddai'n cael eu heffeithio gan y cynigion i gwtogi gwasanaethau yn y llyfrgelloedd sefydlog rhan-amser yn gwerthfawrogi hyblygrwydd a hwylustod y ddarpariaeth bresennol. Roedd cael cyfleuster lleol yn ei gwneud yn haws i bobl ymweld yn amlach, yn rhoi cyfle iddynt fynd allan o'r tŷ a cherdded ac yn golygu llai o effaith ar ôl-troed carbon Gwynedd. Dywedodd un cyfranogwr

*"Mae'r llyfrgell yma yn rhan o'n bywydau ni - gallwn bicio i mewn fel 'da ni isio".*

Yn yr un modd, mynegwyd y farn pe bai gwasanaethau'n cael eu cynnig yn y prif lyfrgelloedd yn unig, byddai ymweld â'r llyfrgelloedd hyn yn cymryd mwy o amser a

*"bydd llai o bicio i mewn".*

41. Yn arwyddocaol, gwelai'r cyfranogwyr y mesurau arfaethedig fel math o 'drefoli graddol' ar wasanaethau, gyda'r sylw'n symud i'r trefi ar draul yr ardaloedd gwledig llai llewyrchus. Roedd nifer o'r cymunedau gwledig hyn eisoes wedi colli gwasanaethau; ystyrid ei bod yn bwysig fod gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu cadw yn enwedig mewn ardaloedd lle'r oedd gwasanaethau'r sector preifat fel banciau a swyddfeydd post wedi cau. Mae 24% o ardaloedd yng Ngwynedd gyda chyfanswm poblogaeth o tua 36,000 yn ymddangos yn 10% uchaf yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru o ran mynediad at wasanaethau ac mae tua 50% o'r ardaloedd hyn o fewn dalgylchoedd llyfrgelloedd rhan-amser gyda dyfodol ansicr.<sup>27</sup> Ymhellach, mae'r ardaloedd canlynol sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y newidiadau arfaethedig i'r ddarpariaeth lyfrgell: Llanllyfni a Chlynnog, Deiniolen a Thalysarn o fewn y 40% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru ar bob mynegai: incwm, tai, cyflogaeth, mynediad i wasanaethau, addysg, iechyd, diogelwch cymunedol, yr amgylchedd ffisegol.

42. O safbwynt parhau i ddarparu yn y prif lyfrgelloedd, dyma'r blaenoriaethau o ran oriau agor:

- ar ôl gwaith, gyda'r nos ac ar y penwythnos
- diwrnodau budd-dal/pensiwn, marchnad a dydd Gwener (papurau newydd wythnosol)
- cyd-fynd ag amserlenni bysiau a threnau
- modelau amser cinio - (1) cau am gyfnodau hwy dros amser cinio er mwyn galluogi bod ar agor yn hwy gyda'r nos NEU (2) agor yn barhaus drwy ddefnyddio staff yn wahanol, megis trefn shifft.

### **Y gwasanaethau llyfrgell teithiol a chartref**

43. Mynegodd y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaethau llyfrgell teithiol ar hyn o bryd<sup>28</sup> y farn fod y gwasanaeth yn gyffredinol yn werthfawr, gyda sawl un yn gofyn am beidio â'i gwtogi'n llawn

<sup>27</sup> Llywodraeth Cymru (2015) *Mynegrif Amddifadedd Lluosog ar gyfer Cymru: WIMD 2014*. Diwygiwyd 12 Awst 2015. Ar gael: <https://stats.wales.gov.uk/Catalogue/Community-Safety-and-Social-Inclusion/Welsh-Index-of-Multiple-Deprivation/WIMD-2014>

<sup>28</sup> tua 12% o'r holiaduron

neu'n rhannol. Dywedodd 24% o'r ymatebwyr hyn eu bod yn defnyddio llyfrgell sefydlog hefyd. Ond, ochr yn ochr â hyn, dywedodd nifer nad oedd y stoc lyfrau'n cael ei hadnewyddu'n aml ac nid oedd y defnyddwyr yn gwybod fod modd gofyn am gadw neu wneud cais am lyfrau.

44. Ymhlith defnyddwyr y gwasanaethau llyfrgell yn gyffredinol, roedd hi'n amlwg mai ychydig a wyddent am gynnwys, amllder a chwmpas y gwasanaeth llyfrgell deithiol bresennol, ar wahân i syniad cyffredinol fod fan symudol yn ymweld â chymunedau gwledig. Yn yr un modd, roedd cred fod gwasanaethau o'r fath ar gyfer pobl hŷn yn bennaf neu bobl nad oedd yn gallu mynd o gwmpas yn hawdd.

*"Dim ond i bobl sy'n byw wrth ymyl mae'r llyfrgell deithiol yn ddefnyddiol."*

*"Ydi'r llyfrgell deithiol ar gael i bawb neu ddim ond y rhai sy'n fethedig?"*

45. Yn gyffredinol, nid oedd y rhai a galwodd i fewn i'r sesiynau galw heibio yn ymwybodol o'r Gwasanaeth Llyfrgell Cartref. Yr yr un modd, nid oedd sawl un sy'n casglu llyfrau o'u llyfrgell leol i aelodau hŷn o'r teulu yn ymwybodol o'r gwasanaeth cartref. Yn y dystiolaeth ysgrifenedig, credai rhai unigolion oedd yn gaeth i'w cartref, y byddai eu hunig gyfle i fenthyg llyfrau yn diflannu pe bai eu llyfrgell sefydlog leol yn cau. Yn nhyb gyrwyr y gwasanaeth teithiol, gallai staff y llyfrgell sefydlog chwarae rhan fwy gweithredol a chyfeirio unigolion at y gwasanaeth cartref pan oeddent yn dechrau cael trafferthion symudedd a chredent y gellid ehangu unrhyw system gyfeirio at wasanaethau cyhoeddus eraill fel y Gwasanaethau Iechyd Galwedigaethol.

46. Drwyddi draw, nid oedd ehangu'r gwasanaeth teithiol i gynnwys cymunedau sy'n cael eu gwasanaethu hyd yma gan lyfrgell sefydlog yn cael ei weld yn ddarpariaeth hyfyw neu ddymunol yn y dyfodol, oherwydd y ffactorau canlynol:

- amrywiaeth gyfyngedig o lyfrau sy'n cael eu cludo ac ar gynnig
- amllder ymweliadau - unwaith y mis ar hyn o bryd
- amser ymweliadau - yn ystod y diwrnod gwaith
- gwasanaeth llai dibynadwy - effaith y tywydd ac amodau'r ffyrdd
- fawr o le ar gael i eistedd a darllen/pori, yn enwedig gyda phlant,
- diffyg lle i gymdeithasu a llai o wobwr am yr ymdrech o fentro allan o'r tŷ.

### **Trafnidiaeth a theithio**

47. Bydd gosod y ddarpariaeth yn y dyfodol mewn llai o ganolfannau poblogaeth yn golygu fod unigolion o bosibl yn gorfod teithio mwy o bellter i gyrraedd cyfleusterau llyfrgell sefydlog. Gall anawsterau logistaidd fel teithio gyda babanod a phlant ifanc ar dtrafnidiaeth gyhoeddus, llai o dtrafnidiaeth gyhoeddus ar gael, yn arbennig gyda'r nos, ynghyd â rhwystrau eraill fel cost teithio a pharcio, yn cynnwys costau trafndiaeth gyhoeddus yn cynyddu, arwain at lai o drigolion yn cael mynediad at lyfrgelloedd sefydlog. Codwyd y rhain i gyd fel problemau yn y sesiynau galw heibio:

*"Dydi hi ddim yn hawdd teithio gyda babi ac un bach ar fws"*

*"Mae'n anodd neu'n amhosib i bobl hŷn deithio a cherdded at y bws ac yn ôl a chario llyfrau ar yr un amser."*

### **Gwirfoddolwyr, Llyfrgelloedd a reolir gan Gymunedau a Rhannu'r ddarpariaeth**

48. Yn ystod y sesiynau galw heibio, gwahoddwyd sylwadau ar fathau gwahanol o gyflenwi gwasanaeth i'r cymunedau hynny lle y cynigiwyd tynnu gwasanaeth llyfrgell rhan-amser sefydlog yn ei ffurf bresennol (Atodiad 3) ac ymateb negyddol a gafodd y rhain yn gyffredinol. Dylid nodi fod y trigolion yn ymateb yn bennaf i'r newyddion na all Cyngor Gwynedd o bosibl barhau i gynnal eu llyfrgell sefydlog leol yn ei ffurf bresennol. Dim ond ym Methesda yr archwiliwyd dewis gwahanol hyfyw mewn unrhyw fanylder, er y cafwyd rhai awgrymiadau petrus am atebion gwahanol yn Neiniolen, Nefyn a Llanberis.

49. Dangosodd cymunedau gwahanol sgiliau a chapasiti o ran cymryd rhan mewn cyflenwi gwasanaethau llyfrgell, naill ai fel gwirfoddolwyr yn gweithio gyda staff, neu mewn gwasanaethau yn cael eu rhedeg/eu harwain gan y gymuned, a/neu fentrau rhannu gofod, gwasanaeth neu bartneriaeth. Roedd y rhain yn dibynnu ar argaeledd:

- gwirfoddolwyr
- corff partner a fyddai'n gyfrifol am y fenter a/neu 'arweinwyr'
- adeiladau/lleoliadau amgen.

50. Roedd y problemau a nodwyd fel a ganlyn

**1. Diffyg gwirfoddolwyr (newydd) mewn rhai cymunedau 'hiryaros':**

*"Yr un bobl sy'n gwneud popeth yma"*

*"Da ni'n barod yn cael trafferth i gadw gwasanaethau i fynd yma gyda gwirfoddolwyr".*

*"Allwn ni ddim dygymod â cholli rhagor o gyfleusterau"*

er dywedodd rhai unigolion mewn rhai cymunedau eu bod yn barod i wneud hynny.

**2. Prinder 'arweinwyr cymunedol' naturiol** oherwydd cyfyngiadau amser lle mae nifer yn gweithio'n llawn-amser a hefyd diffyg profiad a hyder:

*"Mae pobl yn barod i 'helpu' ond ddim i arwain neu i ysgwyddo cyfrifoldeb."*

**3. Trafferth cadw diddordeb ac ymroddiad yn y tymor hir:**

*"Mae pethau'n dechrau yma gyda brwdfrydedd ond buan mae'n nhw'n chwythu plwc."*

*"Allwn ni ddim cadw hyn i fynd ar foreau coffi yn unig."*

**4. Gwleidyddiaeth a deinameg y gymuned.** Mae angen estyn allan a mynd ati i recriwtio gwirfoddolwyr newydd yn sensitif yn enwedig o ran siaradwyr Cymraeg - canfyddir fod Cymry Cymraeg sydd wedi byw yno'n hir yn arafach i gynnig eu hunain a gwirfoddoli na'r trigolion mwy diweddar Saesneg eu hiaith.

**5. Mae'r gallu i fedru'r Gymraeg** gan y gwirfoddolwyr yn hanfodol:

*“Mi fyddwn i’n gwirfoddoli ond dwi ddim yn gwbl ddwyieithog. Ond gallai gwneud hyn helpu dysgwyr”*

**6. Gwrthwynebiad ideolegol.** Cafodd yr egwyddor o helpu i redeg gwasanaeth y bernid ddylai gael ei ddarparu gan y Cyngor dderbyniad gwael yn yr wyth llyfrgell ran-amser. Tynnwyd sylw at faterion ‘tegwch’ a ‘chyfiawnder’ mewn perthynas â’r cymunedau llai a oedd fel pe baent yn gorfod dwyn baich y toriadau mewn gwasanaethau ac yn cael eu disgwyl i ysgwyddo cyfrifoldeb:

*“Rydym yn talu’r un trethi â’r rhai sy’n byw yn y trefi lle mae’r prif lyfrgelloedd. Mae’n ofnadwy fod y Cyngor yn ystyried cadw’r gwasanaeth yn y trefi a’r dinasoedd ond ddim yn y pentrefi gwledig”*

Gwelwyd tystiolaeth o farn gref a threfniadau i wrthwynebu cynigion y Cyngor yng Nghricieth, Penygroes<sup>29</sup> a Nefyn ac i raddau yn Neiniolen, drwy ddeisebau, protestiadau, llythyrau i’r wasg a’r gweinidogion.

51. Yn unol â’r symudiad cyffredinol tuag at gyflwyno ystod o wasanaethau’r Cyngor mewn partneriaeth, byddai gallu’r mentrau cymdeithasol ym Mhenygroes a Phenrhyndeudraeth i gyflenwi rhai gwasanaethau cymunedol yn cael ei leihau oni cheir cyllid o rywle arall i ddod yn lle’r rhent a delir gan y Gwasanaeth Llyfrgell.

52. Mae adeiladau’r llyfrgell ym Methesda, Deiniolen, Llanberis a Nefyn yn rhai pwrpasol, cymharol fodern ac yn cael eu gwerthfawrogi felly gan eu cymunedau. Yn yr un modd mae defnyddwyr llyfrgell Cricieth yn hoff iawn o’u hadeilad hanesyddol ac nid oedd adeilad gwahanol arall yn dod i’r amlwg. Ni wnaeth grŵp neu fudiad hyfyr yn un o’r cymunedau hyn gynnig yn syth y byddent yn ystyried cymryd y llyfrgell drosodd er y gellir ymchwilio i ddarparu mewn partneriaeth yn y cymunedau canlynol:

- Partneriaeth Ogwen ym Methesda
- y Swyddfa Bost neu’r Cyngor Cymuned yng Nghricieth
- Antur Nantlle ym Mhenygroes
- yr ysgol gynradd leol neu’r fenter gymdeithasol, Menter Fachwen, yn Neiniolen
- y Feddygfa yn Nefyn neu’r fenter gymdeithasol yng Nghongl Meinciau, Botwnnog
- y Ganolfan Gymuned/Cyngor Cymuned yn Llanberis,
- Ysgol Uwchradd Ardudwy yn Harlech,
- Cwmni Deudraeth ym Mhenrhyndeudraeth.

53. Ymddengys fod awgrym i gael dolen gymunedol i’r gwasanaeth llyfrgell ym Methesda yn werth ei ymchwilio gan fod gan y gymuned hon hanes diweddar o ymgymryd â phrosiectau cymunedol cymharol uchelgeisiol ac mae’n gweithio’n galed i ymladd grymoedd economaidd y dirywiad ôl-

---

<sup>29</sup> Sylwer – Llyfrgell Penygroes yw’r unig llyfrgell yng Ngwynedd lle mae’r defnydd yn cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn er gwaetha’r tueddiad cyffredinol sef gostynigad yn nifer y defnyddwyr ar draws yr awdurdod.

ddiwydiannol. Mae yma arweinwyr cymunedol a menter gymdeithasol yn ei lle sy'n golygu ei bod yn werth mynd ar ôl y syniad hwn.

54. Cafwyd trafodaethau yn y llyfrgelloedd llawn-amser hefyd am y posibilrwydd o gael gwirfoddolwyr i gefnogi neu wella'r ddarpariaeth yno. Yn gyffredinol roedd y cyfranogwyr yn anfoddog i awgrymu ffyrdd y gellid defnyddio gwirfoddolwyr i wneud y gwaith a wneir gan lyfrgellwyr ar hyn o bryd, o ystyried fod y rheiny'n uchel eu parch. Ystyrir fod llyfrgellwyr:

- *“yn meddu ar arbenigedd”,*
- *“yn groesawgar, caredig, amyneddgar”,*
- *“yn ehangu gorwelion darllen”,*
- *“yn agor byd llyfrau i bobl a phlant”,*
- *“yn mynd y filltir ychwanegol y tu hwnt i'r hyn a ddisgwylir ganddynt”.*

55. Roedd y cyfranogwyr yn amharod i gael eu gweld yn taseilio'r staff mewn unrhyw ffordd; fodd bynnag roedd rhai yn betrusgar fodlon i awgrymu y gallent wirfoddoli i:

- gludo defnyddwyr yn ôl ac ymlaen o lyfrgelloedd
- rhedeg bar coffi a gweithgareddau codi arian eraill<sup>30</sup> fel stondinau llyfrau
- trefnu digwyddiadau a gweithgareddau

Nifer fechan oedd yn fodlon ystyried gwirfoddoli naill ai i helpu llyfrgellwyr neu i ymestyn oriau agor.

56. Yn gyffredinol roedd staff y gwasanaeth llyfrgell yn pryderu am y newidiadau arfaethedig ac yn mynegi diffyg dealltwriaeth am y rhesymeg y tu ôl i'r cynigion oedd yn y ddogfen ymgynghori. Teimlwyd fod diffyg gwybodaeth a thrafod ac nad oedd ceisiadau am gymorth na syniadau ganddynt. Mae'r adolygiad yn amlwg wedi creu cryn dipyn o ansicrwydd ac mae angen gwneud penderfyniadau fel y gall y staff wneud eu penderfyniadau eu hunain. Cafwyd apêl am fwy o wybodaeth gyson.

### 4.3. Hyrwyddo Iechyd a Lles

56. Mae'r Gwasanaeth Llyfrgell yn chwarae rhan ganolog mewn cefnogi iechyd a lles unigolion drwy gynnig llyfrau ar Bresgripsiwn, mynediad i weithgareddau hybu iechyd y cyhoedd ar-lein a Gwasanaeth Llyfrgell i'r Cartref.<sup>31</sup>

57. Roedd y cyfranogwyr hefyd yn cydnabod ac yn gweld gwerth llyfrgelloedd fel manau cyhoeddus; canolfannau cymdeithasol a *“hafan i ddianc iddi”* gan fod ymweliadau yn aml yn *“cyflawni sawl pwrpas”*, yn cynnig cyfleoedd i rwydweithio a chymdeithasu'n anffurfiol

*“Mae'r adeilad yn hafan gynnes i ddianc iddi o'r tŷ ac yn un o'r ychydig lefydd lle mae popeth am ddim”*

<sup>30</sup> Gweler atodiad 8 am restr o awgrymiadau gwneud incwm.

<sup>31</sup> *Mwy na Llyfrau*, t.6

*“Mae’r llyfrgell yma yn fwy na llyfrau neu’r rhyngwrwyd – mae’n lle cyfarfod ac mae ganddi wybodaeth am y pentref ac i’r pentref.”*

58. Caiff y cyfle i ryngweithio’n gymdeithasol â defnyddwyr llyfrgell eraill a llyfrgellwyr ei ystyried yn bwysig i gyflwr meddwl ac ymdeimlad o les defnyddwyr llyfrgell o bob oed

*“Mae caredigrwydd y llyfrgellydd yn cael effaith dda arna i, yn gwneud i mi deimlo’n dda, yn fy nghadw’n iach ac mae hynny o fudd i bawb.”*

Mae hyn yr un mor wir am ddefnyddwyr y gwasanaeth teithiol â’u hymwneud â gyrrwr y lori.

59. Mae gan adeiladau llyfrgell swyddogaethau pwysig hefyd o safbwynt

1. **cydlyniant** cymdeithasol – oed, iaith neu gymhathu newydd-ddyfodiaid

*“Rwyf newydd symud yma - roedd y lle hwn yn fan cyfeirio a chefais groeso cynnes a’ m gwneud i deimlo’n rhan o’r gymuned”*

*“Does unman arall yn y dref lle mae plant a phobl hŷn yn cyfarfod. Mae’n cynnig cyfle pwysig i gymdeithasu â phobl sy’n gyfarwydd i chi – yr henoed a theluoedd a phlant ar ôl ysgol.”*

2. **lleihau ôl-troed carbon y sir**

*“Meddylwch am y plant a’r bobl sy’n gallu cerdded i’r llyfrgell ar hyn o bryd ond fydd yn gorfod gyrru i Fangor neu Gaernarfon a’r carbon deuocsid y byddan nhw’n rhyddhau i’r awyr” (Plentyn, 10 oed)*

3. **yr economi leol**, drwy roi rheswm arall i bobl fynd i’r dref a gwario:

*“Caeodd y banc yn y pentref flwyddyn yn ôl ac mae gwahaniaeth amlwg wedi bod ar y stryd ers hynny. Caeodd y Swyddfa Bost am dipyn ac roedd hi’n anhygoel yr effaith gafodd hyn ar faint oedd yn dod i’r pentref. Diolch byth mae hi wedi ail-agor rŵan. Does dim dwywaith na fydau colli’r gwasanaeth Llyfrgell sefydlog yn ei lleoliad presennol yn cael effaith negyddol ar economi’r ardal”*

4. **yr economi yn gyffredinol** drwy alluogi pobl i lenwi ffurflenni cais a chael gwaith:

*“Dwi’n nabad rhywun sydd newydd gael swydd newydd ar ôl llenwi’r ffurflen gais fan hyn”.*

60. Ar 20.7% o’r boblogaeth, mae gan Wynedd un o’r poblogaethau mwyaf o breswylwyr oed ôl-ymddeol yng Nghymru<sup>32</sup>. O ganlyniad mae gan nifer o lyfrgelloedd broffil oedran uwch. Yn nhrefi

---

<sup>32</sup> Dogfennau mewnol nas cyhoeddwyd gan ‘Aseiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb’ Adolygiad Llyfrgelloedd Gwynedd, Cyngor Gwynedd ‘Mwy na Llyfrau’.



arfordirol Harlech, Porthmadog, Cricieth ac Abermaw, mae cyfran fwyaf eu defnyddwyr llyfrgell yn 65 oed a hŷn - yn amrywio o 40% i 50%. Mae 35% i 37% o ddefnyddwyr llyfrgelloedd Nefyn, Tywyn a Phyllheli dros 65 oed. Oherwydd problemau a heriau heneiddio mewn cymunedau cymharol ynysig - gwledig ac arfordirol - gall adeiladau llyfrgell a gwasanaethau symudol chwarae rhan allweddol:

*“Mae’r llyfrgell `ma fel `awyr iach i fi’ - `dwi newydd ymddeol a dechrau defnyddio’r llyfrgell.”*

*“Fel pensiynwr 86 oed rwy’n dibynnu’n llwyr ar y llyfrgell deithiol sy’n dod bob mis ac mor barod i helpu.”*

61. Ar hyn o bryd credir mai pensiynwyr sengl sydd mewn un o bob pum aelwyd, ond erbyn 2025 disgwylir i hyn godi i un o bob pedair aelwyd<sup>33</sup>. O 2015 amcangyfrifir y bydd cynnydd yng Ngwynedd o 9% yn nifer y bobl dros 80 oed erbyn 2020 ac erbyn 2025 bydd cynnydd o 26% wedi bod yn y grŵp oedran hwn.

*“Rwy’n edrych ymlaen at fy ymweliadau wythnosol â’r llyfrgell am nifer o resymau... Mae fy ymweliadau yn amlbwrpas: rwy’n defnyddio’r cyfrifiaduron, yn siarad â phobl, yn gweld beth sy’n digwydd yn lleol ac wrth gwrs yn benthg llyfrau...”*

62. Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015, fel awdurdod cyhoeddus mae’n rhaid i Wynedd weithio i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ei thrigolion. I wneud hyn mae’n rhaid i’r Cyngor osod a chyhoeddi amcanion llesiant sy’n dangos sut y byddant yn gweithio i gyflawni’r canlynol

- Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deallir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.
- Cymdeithas sy’n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo’u cefndir neu eu hamgylchiadau (yn cynnwys eu cefndir cymdeithasol-economaidd a’u hamgylchiadau).
- Cymunedau atyniadol, hyfyw, diogel sydd â chysylltiadau da.
- Cymdeithas sy’n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a’r Gymraeg, ac sy’n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.<sup>34</sup> [2]

Mae tystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr ymgynghoriad yn dangos yn amlwg fod llyfrgelloedd Gwynedd yn chwarae rôl hollbwysig wrth gyflawni’r pedwar nod uchod.

*“Mae ymchwilio i’r coeden deuluol, na fyddwn i’n gallu fforddio ei wneud ar fy mhensiwn, yn cadw fy meddwl yn effro, sy’n beth da i helpu i atal dementia ac mae’n golygu gobeithio, y gallaf fyw yn annibynnol yn hirach.”*

63. Dylid nodi fod rhai adeiladau llyfrgell yn cael eu gwerthfawrogi gan y grwpiau sy’n eu defnyddio:

<sup>33</sup> Ibid.

<sup>34</sup> Llywodraeth Cymru (2015) *Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015: yr hanfodion*. 2il arg. Ar gael: <http://gov.wales/docs/dsilg/publications/150623-guide-to-the-fg-act-en.pdf> pp.5-6

*'Rwyf yn dechrau 'Amser Twf' yn y llyfrgell. Bydd cau'r llyfrgell yn drychinebus oherwydd bydd yn rhaid i fi ddod o hyd i adeilad arall.*

*'Ble fydd y cyrsiau cymunedol yn mynd os yw'r adeilad yn cau?'*

Yn ystod pob un o'r sesiynau ymgynghori galw heibio ac mewn sawl ymateb i'r holiadur, roedd y cyfranogwyr o'r farn y gellid gwneud mwy o ddefnydd o'r adeiladau hyn, yn arbennig o ran codi incwm.

#### 4.4. Hybu Darllen

*Gyda ffigyrau 'benthyciwr actif' llyfrgelloedd cyhoeddus tua 25% o'r boblogaeth yng Nghymru, mae yna lawer o blant a theuluoedd nad ydynt yn yr arfer gyda darllen neu lyfrgell.<sup>35</sup>*

64. Mae yna gryn dipyn o ymchwil sy'n nodi'r manteision a'r cyfraniad y mae darllen er mwyn pleser yn ei wneud i wella sgiliau/lefel llythrennedd, hyd yn oed yn yr oes ddigidol. Yn 2013 daeth canlyniadau astudiaeth ymchwil ar raddfa fawr a oedd yn edrych ar ymddygiad darllen oddeutu 6,000 o bobl ifanc o ddata Astudiaeth Cohort Prydain 1970<sup>36</sup>, a gynhaliwyd gan ymchwilwyr yn y Sefydliad Addysg, UCL, i'r casgliad hwn:

- *"Mae yna bryderon fod dirywiad yn nifer y bobl ifanc sy'n darllen er mwyn pleser. Gallai fod amrywiol resymau am hyn, yn cynnwys treulio mwy o amser mewn gweithgareddau a drefnwyd, mwy o waith cartref, ac wrth gwrs treulio mwy o amser ar-lein... Fodd bynnag, gall technolegau newydd, fel e-ddarllenyddion, gynnig mynediad hawdd at lyfrau a phapurau newydd ac mae'n bwysig fod polisiau'r llywodraeth yn cefnogi ac annog darllen mewn plant, yn enwedig plant yn eu harddegau."<sup>37</sup>*

65. Canfu ymchwil a gyhoeddwyd gan yr Ymddiriedolaeth Llythrennedd Cenedlaethol yn 2011,<sup>38</sup> yn seiliedig ar arolwg o 18,000 o blant, nad oedd bron i 4 miliwn o blant yn y DU yn berchen ar lyfr a bod y gyfran hon yn codi. Yn ogystal,

*Roedd plant oedd â'u llyfrau eu hunain yn fwy tebygol o fod yn darllen yn well na'r cyffredin ac yn gwneud yn well yn yr ysgol...[a] phlant tlotach a bechgyn yn llai tebygol o fod â llyfrau*

Dangosodd yr astudiaeth hon hefyd gydberthynas uniongyrchol rhwng mynediad at lyfrau a deunydd darllen arall, a lefelau cyrhaeddiad darllen a llythrennedd.<sup>39</sup>

---

<sup>35</sup> Blog llyfrgelloedd Alyson Welsh (2014) *Every child a library member: launched!* Ar gael:

<https://libalyson.wordpress.com/2014/03/19/every-child-a-library-member-launched/>

<sup>36</sup> Astudiaeth hydredol oedd hon yn dilyn bywydau dros 17,000 o bobl a anwyd yng Nghymru, Lloegr a'r Alban mewn un wythnos yn 1970

<sup>37</sup> UCL Institute of Education (2015) *Reading for pleasure puts children ahead in the classroom, study finds* 11 September 2013. Ar gael: <http://www.ioe.ac.uk/newsEvents/89938.html> [datganiad i'r wasg].

<sup>38</sup> BBC News Education (2015) *National Literacy Trust highlights book-free millions* Ar gael: <http://www.bbc.co.uk/news/education-16031370>

<sup>39</sup> BBC News Education (2015) *National Literacy Trust highlights book-free millions* Ar gael: <http://www.bbc.co.uk/news/education-16031370>

66. Mae pwysigrwydd a lle canolog llythrennedd a darllen mewn perthynas â'r gwasanaeth llyfrgell cyhoeddus yng Ngwynedd yn amlwg. Gwynedd oedd un o'r chwe awdurdod lleol cyntaf i gymryd rhan ym Mhrosiect ECALM - *Pob Plentyn yn Aelod o Lyfrgell*. Nod y prosiect hwn oedd cofrestru pob plentyn ysgol gynradd yng Nghymru yn awtomatig gyda'u gwasanaeth llyfrgell leol, yn dechrau gyda disgyblion Blwyddyn 4 (8-9 oed) ym mis Mawrth 2014.

*Drwy dargedu plant sydd fwy neu lai yn ddigon hen i fynd i lyfrgell ar eu pennau eu hunain neu gyda ffrindiau (os ydynt yn byw wrth ymyl llyfrgell), nod y prosiect yw torri'r cylchoedd tlodi drwy sbarduno pob plentyn, waeth beth fo'u cefndir neu os ydynt wedi arfer â mynd i lyfrgell, i fwynhau darllen a defnyddio'r llyfrgell.<sup>40</sup>*

Yn ychwanegol at y buddiannau a amlinellwyd uchod, dyma enghraifft ymarferol o fenter bartneriaeth a oedd yn cynnwys y gwasanaeth llyfrgell, ysgolion cynradd a thîm marchnata llyfrgelloedd Cymru, Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd, Llywodraeth Cymru, yn gweithio gyda'i gilydd i hyrwyddo aelodaeth weithredol.

67. Dangosodd canfyddiadau'r ymgynghoriad fod rôl llyfrgelloedd o safbwynt gwasanaethau i blant yn fater o'r pwys mwyaf a nodwyd gan yr oedolion ym mhob un o'r sesiynau trafod a chan y plant eu hunain. Ymhlith y materion a'r gwasanaethau oedd yn bwysig i'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg oedd

- ymweliadau llyfrgell i deuluoedd a rhieni â phlant ifanc:

*"Mae'r plentyn hyna'n ddarllenwr gwych achos roedd yn gallu dod yma a chael benthg cymaint o lyfrau ag roedd o eisiau".*

- ymweliadau gan blant ar eu pennau eu hunain ar ôl ysgol i wneud gwaith cartref, darllen a dim ond treulio amser - stwna - rhwng ysgol a mynd adref/rhieni'n eu casglu

68. Roedd pob un o'r rhieni a holwyd, yn cynnwys y rhai llai cefnog o bosibl, yn awyddus i'w plant gael cyfleoedd i ddysgu y tu allan i amgylchedd yr ysgol, a chredent fod gan y llyfrgell leol ran hanfodol yn hyn o beth.

*"Mae fy mab wrth ei fodd yn dod yma ac mae'r holl broses o chwilio, dewis a benthg llyfr yn dysgu gwerthoedd da - cael benthg, edrych ar ôl rhywbeth, rhannu"*

Roedd yna deimlad cryf iawn nad oeddent eisiau gweld cenedlaethau'r dyfodol yn cael ei hamddifadu:

*"Dwi eisiau i'r plant a'r bobl yn y gymuned barhau i elwa ar y cyfleusterau y gwnes i a'r cenedlaethau cynt elwa arnyn nhw."*

Crybwyllwyd hefyd ac atgyfnerthwyd pwysigrwydd plant yn cael mynediad ac yn gallu darllen llyfrau clawr caled a meddal i ffwrdd o sgriniau ac yn y blaen.

---

<sup>40</sup> Blog llyfrgelloedd Alyson Welch (2014) *Every child a library member: launched!* Ar gael: <https://libalysen.wordpress.com/2014/03/19/every-child-a-library-member-launched/>

69. Cafwyd rhywfaint o dystiolaeth anecdotaidd fod rhai ysgolion yn annog plant i ymweld â'r llyfrgell leol, o ymweliadau â llyfrgell i gynnal dosbarthiadau yn y llyfrgell amser ysgol.

*“Mae hyn yn ffordd o ddysgu - mae'r Pennaeth yn annog y plant i fynd i'r llyfrgell i ymchwilio ac i wneud eu gwaith cartref.”*

Serch hynny, nid oedd y patrwm yn gyffredin neu'n gyson ar unrhyw gyfrif. Dywedodd sawl rhiant y dylai dosbarthiadau ysgol wneud pwynt o ymweld â llyfrgelloedd er mwyn i'r plant ddysgu a chael profiad o lyfrgell. Clywsom hefyd gan ddisgyblion cynradd ac uwchradd a oedd o'r farn y dylai plant ymweld â llyfrgelloedd a chredai'r grŵp ffocws pobl ifanc y dylai plant ddechrau gyda llyfrau cyn symud ymlaen at ddarllen ar sgriniau. Yn wir roeddent yn rhoi pwyslais mawr ar blant mewn llyfrgelloedd.

70. Tynnwyd sylw at rai problemau gyda'r gwasanaeth Lori Ni. Roedd rhai rhieni'n rhwystredig mai dim ond yn yr ysgol yr oedd y llyfrau a ddarperir gan y gwasanaeth hwn ar gael ac nid i fynd adref. Cafwyd adroddiadau hefyd y byddai staff ysgol yn mynd â llyfrau Lori Ni oddi ar y disgyblion mewn dosbarthiadau i'w cadw tan yr ymweliad nesaf rhag ofn i'r llyfrau fynd ar goll.

71. Drwy'r adeg roedd llyfrgelloedd yn cael eu gweld fel llefydd 'diogel' ac mae lleoliad a chyfleustra'r llyfrell, yn enwedig o ran yr ysgol a cherdded yn ôl ac ymlaen yno yn ffactor bwysig.

72. I rieni plant ifanc a defnyddwyr sy'n oedolion ymddengys fod y profiad corfforol o bori drwy lyfrau yn agwedd o lyfrgelloedd sefydlog y maent yn ei gwerthfawrogi'n arbennig:

*“Mae cyswllt llyfrgell (man gollwng/casglu llyfrau) neu'r gwasanaeth teithiol yn tynnu oddi ar yr hud o bori a dod ar draws yr annisgwyl.”*

## **5. Canlyniadau a dadansoddiad meintiol**

72. Ceir manylion y dulliau a ddefnyddiwyd a'r cyfraddau ymateb yn Adran 3 uchod. Cyflwynir y canlyniadau meintiol ar wahân i'r dadansoddiad ansoddol thematig gan eu bod yn mynd i'r afael â phob un o themâu canolog yr ymgynghoriad drwy ofyn i'r cyfranogwyr restru, dosbarthu a sgorio blaenoriaethau'r gwasanaeth a'r elfennau hanfodol.

### **5.1 Blaenoriaethau i'r dyfodol a gwasanaethau hanfodol**

73. Gofynnwyd i bob un o'r grwpiau a holwyd ar gyfer yr ymgynghoriad sgorio cyfres o flaenoriaethau'r gwasanaeth yn y dyfodol drwy ddulliau gwahanol. Rhoddir y rhestr o flaenoriaethau gwasanaeth yn Atodiad 5.

74. Yn unol â'r canllawiau moesegol cyfredol, dim ond drwy'r holiadur y cafwyd barn plant. Dosbarthwyd 500 o holiaduron i'r grŵp hwn, dychwelyd 100 gan sampl o blant yn yr ystod oedran 6 - 11, sy'n rhoi cyfradd ymateb o 20%, dim un wedi'i ddifetha neu wedi'i gwblhau'r rhannol.<sup>41</sup>

75. Mae canlyniadau'r grwpiau defnyddwyr sy'n oedolion o ran blaenoriaethau'r gwasanaeth yn y dyfodol yn deillio o gyfuniad o ddata a gafwyd gan holiaduron copi caled ac ar-lein, ynghyd â'r canlyniadau a gafwyd gan ymarfer tebyg a wnaed yn ystod y sesiynau galw heibio.<sup>42</sup>

76. Yn ychwanegol at yr uchod, cynhaliwyd ymarfer tebyg ond heb fod yn union yr un fath â'r grwpiau ffocws canlynol a dargedwyd. Gofynnwyd iddynt restru a blaenoriaethu gwasanaethau 'hanfodol' mewn grwpiau bach

- Pobl ifanc (17-23 oed)
- Cyngor Pobl Hŷn
- Grwpiau Rhieni

### **Plant/Defnyddwyr Lori Ni: blaenoriaethau**

77. Mewn ymateb i'r cais i restru, sgorio a rhoi blaenoriaethau mewn trefn, mae dosbarthiad yr ymatebion fesul oed yn y sampl o 100 o blant 6 - 11 oed fel a ganlyn:

6-8 (n = 15)

9-11 (n= 80)

Dim ateb: (n=5)


78. Mae'r siartiau cylch canlynol yn dangos dosbarthiad blaenoriaethau'r gwasanaeth gan y cyfranogwyr a fynegodd ddewisiadau.

### **Ffigur 1: Plant/Defnyddwyr Lori Ni – Blaenoriaeth 1**


---

<sup>41</sup> Gweler hefyd Adran 3 parag 17.

<sup>42</sup> Sylwer – Yn 44% o'r holiaduron copi caled roedd yr ymatebion i'r cwestiwn sgorio o ran dewisiadau yn ddim neu wedi'u difetha.



**Ffigur 2: Plant/Defnyddwyr Lori Ni – Blaenoriaeth 2**



**ALLWEDD**


1. Gallu cael benthg llyfrau clwr papur
2. Digwyddiadau e.e. Her Ddarllen yr Haf
3. Defnyddio'r cyfrifiadur
4. Gallu cael benthg e-lyfrau
5. Gall cael benthg *kindle* neu *i-pad*
6. Llyfrgelloedd ar agor ar ôl ysgol

**Canlyniadau Blaenoriaethau 1 a 2:**

- 'Gallu cael benthg llyfrau' oedd y dewis cyntaf i flaenoriaeth 1, gyda 64% o'r ymatebwyr yn dewis yr opsiwn hwn.
- 'Digwyddiadau e.e. her ddarllen' oedd yr ail ddewis i flaenoriaeth 1 ar 12%
- 'Llyfrgelloedd ar agor ar ôl oriau ysgol' oedd y 3ydd dewis i flaenoriaeth 1 ar 10% OND 'llyfrgelloedd ar agor ar ôl oriau ysgol' oedd dewis uchaf blaenoriaeth 2 ar 28%
- 'benthca llyfrau papur ac e-lyfrau' yn rhannu'r ail safle ym mlaenoriaeth 2 ar 18% yr un
- Roedd 'Digwyddiadau e.e. her ddarllen' yn 3ydd agos ym mlaenoriaeth 2 ar 17%

79. Mae cyfuno blaenoriaethau 1 a 2 – h.y. y cyfranogwyr yn dewis hwn fel naill ai eu blaenoriaeth gyntaf neu ail yn rhoi'r canlyniadau canlynol a ddangosir yn Ffigur 3 isod:

**Ffigur 3: Cyfuno Blaenoriaethau 1 a 2 – plant/defnyddwyr Lori Ni**



ALLWEDD

1. Gallu cael benthyg llyfrau clawr papur
2. Digwyddiadau e.e. Her Ddarllen yr Haf
3. Defnyddio'r cyfrifiadur
4. Gallu cael benthyg e-lyfrau
5. Gall cael benthyg *kindle* neu *i-pad*
6. Llyfrgelloedd ar agor ar ôl ysgol


Cyfuno Blaenoriaethau 1 a 2:

1. 'Gallu cael benthyg llyfrau' = 41%
2. 'Llyfrgelloedd ar agor ar ôl oriau ysgol' = 19%
3. 'Digwyddiadau e.e. her ddarllen' = 15%
4. 'Gallu cael benthyg e-lyfrau' = 12%
5. 'Mynd ar gyfrifiaduron' = 7%
6. 'Gallu cael benthyg dyfeisiau darllen' = 5%

### **Defnyddwyr Gwasanaeth - Oedolion: blaenoriaethau**

80. Mae'r siartiau cylch canlynol yn dangos dosbarthiad y blaenoriaethau gwasanaeth yn ôl y cyfranogwyr a fynegodd ddewis. Mae Ffigur 4 yn dangos y cyfrannau canran i restrri blaenoriaeth 1 gan y grŵp hwn.

**Ffigur 4: Blaenoriaeth 1 – Defnyddwyr gwasanaethau oedolion**



**ALLWEDD**


- 1 = Amrywiaeth eang o lyfrau print a digidol
- 2 = Digwyddiadau a gweithgareddau
- 3 = Defnydd cyfrifiaduron am ddim
- 4 = Dyfeisiau darllen i'w benthyg
- 5 = Mynediad at ddeunydd cyfeirio digidol
- 6 = Ymestyn ac addasu oriau agor y prif lyfrgelloedd

**Canlyniadau Blaenoriaeth 1:**

- 1. 'Amrywiaeth eang o lyfrau print a digidol' = 56%.
- 2. 'Digwyddiadau a gweithgareddau' = 13%
- 3. 'Defnydd cyfrifiaduron am ddim' ac 'Ymestyn ac addasu oriau agor prif lyfrgelloedd' = 12%
- 5. 'Mynediad at ddeunydd cyfeirio digidol' a 'dyfeisiau darllen i'w benthyg' = 4% .

81. Cyfuno blaenoriaethau 1 a 2 - h.y. mae cyfranogwyr yn dewis hon fel naill ai fel blaenoriaeth gyntaf neu ail yn rhoi'r canlyniadau canlynol, fel ag y dangosir yn Ffigur 5 isod:

**Ffigur 5: Cyfuno Blaenoriaethau 1 a 2 – Defnyddwyr Gwasanaeth - Oedolion**



**ALLWEDD**

- 1 = Amrywiaeth eang o lyfrau print a digidol



- 2 = Digwyddiadau a gweithgareddau
- 3 = Defnydd cyfrifiaduron am ddim
- 4 = Dyfeisiau darllen i'w benthyg
- 5 = Mynediad at ddeunydd cyfeirio digidol
- 6 = Ymestyn ac addasu oriau agor y prif lyfrgelloedd


Cyfuno Blaenoriaethau 1 a 2:

- 1. 'Amrywiaeth eang o lyfrau' = 37%
- 2. 'Defnydd cyfrifiaduron am ddim' = 22%
- 3. 'Digwyddiadau a gweithgareddau' = 16%
- 4. 'Ymestyn ac addasu oriau agor y prif lyfrgelloedd' = 14%
- 5. 'Mynediad at ddeunydd cyfeirio digidol' a 'Dyfeisiau darllen i'w benthyg' = 5%.

### Grwpiau ffocws: Canlyniadau

82. Mae Ffigur 6 yn dangos naw prif elfen hanfodol y gwasanaeth llyfrgell fel ag y'u nodwyd gan y grŵp ffocws a gynhaliwyd gyda Phobl ifanc (17 – 23), maint sampl = 10 .

**Ffigur 6: Elfennau hanfodol y gwasanaeth: Grŵp ffocws Pobl Ifanc**



ALLWEDD

- 1 = Offer darllen digidol
- 2 = Defnydd cyfrifiadur am ddim
- 3 = Digwyddiadau a gweithgareddau
- 4 = Oriau agor hyblyg a hirach i'r prif lyfrgelloedd
- 5 = Lori Ni i blant a phobl ifanc
- 6 = Llyfrau digidol i'w benthyg
- 7 = Amrywiaeth eang o lyfrau print
- 8 = Gwasanaeth llyfrgell i gartrefi pobl hyglwyf
- 9 = Llyfrgell deithiol


Canlyniadau'r elfennau hanfodol:

- 1. 'Gwasanaeth llyfrgell i gartrefi pobl hyglwyf' = 20%

- 2. 'Lori Ni i blant a phobl ifanc' a 'Mynediad am ddim i gyfrifiaduron' = 17%
- 4. 'Digwyddiadau a gweithgareddau', 'Oriau agor hyblyg a hirach' a 'Llyfrau digidol' =10%
- 7. 'Amrywiaeth eang o lyfrau print' a 'dyfeisiau e-ddarllen' = 7%
- 9. 'Llyfrgell deithiol' =3%

83. Mae Ffigur 7 yn dangos elfennau hanfodol y gwasanaeth llyfrgell fel ag y'u nodwyd gan y grŵp ffocws a gynhaliwyd gydag Aelodau'r Cyngor Pobl Hŷn – maint sampl – 37 mewn grwpiau o naw. Ni chafodd y categorïau 'dyfeisiau e-ddarllen', 'llyfrau digidol', 'digwyddiadau a gweithgareddau' eu rhestru gan y grŵp hwn fel rhai hanfodol. Ni ddylid dehongli hyn fel prawf nad yw'r grŵp hwn yn gwerthfawrogi'r gwasanaethau hyn o gwbl; yn hytrach ni chânt eu hystyried yn 'hanfodol' ganddynt o ddewis.

**Ffigur 7: Elfennau hanfodol y gwasanaeth: Cyngor Pobl Hŷn**



**ALLWEDD**


- 1 = Offer darllen digidol
- 2 = Defnydd cyfrifiadur am ddim
- 3 = Digwyddiadau a gweithgareddau
- 4 = Oriau agor hyblyg a hirach i'r prif lyfrgelloedd
- 5 = Lori Ni i blant a phobl ifanc
- 6 = Llyfrau digidol i'w benthyg
- 7 = Amrywiaeth eang o lyfrau print
- 8 = Gwasanaeth llyfrgell i gartrefi pobl hyglwyf
- 9 = Llyfrgell deithiol

Canlyniadau'r elfennau hanfodol:

- 1. 'Gwasanaeth llyfrgell cartref i bobl hyglwyf' a 'Llyfrgell deithiol' = 27%
- 3. 'Defnydd cyfrifiadur am ddim' = 20%
- 4. 'Amrywiaeth eang o lyfrau print' = 13%
- 5. 'Lori Ni i blant a phobl ifanc' ac 'Oriau agor hyblyg a hirach' = 7%

84. Mae Ffigur 8 yn dangos elfennau hanfodol y gwasanaeth llyfrgell fel ag y'u nodwyd gan y grŵp ffocws a gynhaliwyd gyda Grwpiau Rhieni<sup>43</sup>.

**Ffigur 8: Elfennau hanfodol y gwasanaeth- Grwpiau Rhieni**



**ALLWEDD**

- 1 = Offer darllen digidol
- 2 = Defnydd cyfrifiadur am ddim
- 3 = Digwyddiadau a gweithgareddau
- 4 = Oriau agor hyblyg a hirach i'r prif lyfrgelloedd
- 5 = Lori Ni i blant a phobl ifanc
- 6 = Llyfrau digidol i'w benthyg
- 7 = Amrywiaeth eang o lyfrau print
- 8 = Gwasanaeth llyfrgell i gartrefi pobl hygllwyf
- 9 = Llyfrgell deithiol

**Canlyniadau'r elfennau hanfodol:**

- 1. 'Amrywiaeth eang o lyfrau print' = 17%
- 2. 'Gwasanaeth llyfrgell cartref i oedolion hygllwyf' a 'Lori Ni i blant a phobl ifanc' = 15%
- 4. 'Llyfrgell deithiol' = 14%
- 5. 'Defnydd cyfrifiadur am ddim' = 11%
- 6. 'Digwyddiadau a gweithgareddau' = 9%
- 7. 'Oriau agor hyblyg a hirach' = 8%
- 8. 'Llyfrau digidol = 6%
- 9. 'dyfeisiau e-ddarllen = 3%

**Plant/Defnyddwyr Lori Ni: arferion/dewisiadau darllen**

<sup>43</sup> Sylwer – roedd dau oedolyn hygllwyf a rhai plant yn bresennol.

85. Yn olaf, gofynnwyd i'r cyfranogwyr yn y grwpiau plant restru eu harferion a'u dewisiadau darllen presennol. Dyma'r canlyniadau

- 51% yn darllen llyfrau clawr caled/clawr papur yn unig
- 35% yn darllen llyfrau clawr caled/papur ac e lyfrau
- 12% yn darllen drwy ddefnyddio e ddyfeisiau fel llechi, ffoniau, *Kindle* ayb.

Gall y canlyniadau u uchod ymddangos yn dipyn o syndod i'r grŵp oedran hwn. Fodd bynnag, fel ag y nodwyd yn gynt, dim ond sampl dangosol, darluniadol yw hwn. Gall y ffaith eu bod yn well ganddynt, fe ymddangosir, lyfrau clawr caled/papur fod yn rhannol yn adlewyrchu nifer o ffactorau, ar eu pennau eu hunain neu mewn cyfuniad. Gallai mynediad at galedwedd ac e-ddeunyddiau fod yn un ffactor, ond gall hefyd fod yn awydd i blesio a rhoi'r ateb yn y mae'r cyfranogwyr yn meddwl y mae'r holwr yn dymuno'n gweld/clywed – tueddiad cyffredin mewn arolygon a chyfweliadau yn gyffredinol

## 6. Casgliadau

- a. Yn wyneb sefyllfa ariannol gynyddol anodd, mae'n rhaid i Gyngor Gwynedd gydbwyso'r hyn y mae angen iddo'i wneud i gyflawni ei rwymedigaethau o dan Ddeddf Llyfrgelloedd ac Amgueddfeydd 1964<sup>44</sup>, bodloni anghenion a disgwyliadau'r defnyddwyr â'r galwadau trwm eraill ar ei gyllideb. Fel un is-set o boblogaeth Gwynedd, roedd gan ddefnyddwyr y Gwasanaeth Llyfrgell a gymerodd ran yn Ymgynghoriad 2015 farn gref ac yn gyffredinol roeddent yn gwrthwynebu newid gan nad oes ganddynt lawer o ddealltwriaeth o'r toriadau yn y gyllideb sy'n wynebu'r Cyngor, na chydymdeimlad chwaith.
- b. Nid yw'r weledigaeth a'r strategaeth ddrafft '*Mwy na Llyfrau*' yn cydnabod yn llawn bod gan adeiladau llyfrgell swyddogaethau pwysig y tu hwnt i lyfrau a darparu gwybodaeth. Maent yn fannau cyhoeddus a chanolfannau cymdeithasol mewn nifer o gymunedau, mewn perthynas â:
  - iechyd meddwl – er enghraifft – drwy leddfu ac atal dementia
  - atal ymddygiad gwrthgymdeithasol
  - addysg – hwyluso a helpu caffael sgiliau llythrennedd a chymdeithasol
  - lleihau ôl-troed carbon y sir
  - cyfrannu at yr economi leol
  - cynhwysiad cymdeithasol ar sail oed, iaith neu drwy gymhathu newydd-ddyfodiaid.Ymhellach mae llawer o'r rhain yn cyfrannu at nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- c. Nid yw mwyach yn ariannol gynaliadwy i Wasanaeth Llyfrgell Gwynedd barhau i gadw amryw o adeiladau at ddibenion llyfrgell yn unig, gyda stoc yn eistedd ar silffoedd heb fod ar gael, a dim mynediad at gyfrifiaduron am lawer o'r amser, oherwydd mai dim ond yn rhan-amser y mae'r adeiladau ar agor. Hwn yw'r gwirionedd er gwaethaf ymbil taer gan ddefnyddwyr ar i'r Cyngor gadw adeiladau llyfrgell hyd yn oed os mai am ychydig oriau'r wythnos y maent ar agor.

---

<sup>44</sup> Llyfrfa Ei Mawrhydi (1964) *Deddf Llyfrgelloedd ac Amgueddfeydd Cyhoeddus 1964*. Ar gael: <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1964/75>

ch. Mae angen i'r ddarpariaeth llyfrgell newydd ddatblygu a newid yn raddol fel bod defnyddwyr yn ymgyfarwyddo â'r newidiadau ac yn cael cyfle i newid eu hymddygiad a'u patrymau defnydd eu hunain.

d. Rhaid i newidiadau ac addasiadau gael eu cynnwys drwyddi draw ym mhob man darparu gwasanaeth ac ym mhob cymuned er mwyn bodloni anghenion defnyddwyr a chyflawni gofynion y gwasanaeth i fod yn gynaliadwy ac yn addas ar gyfer y dyfodol.

dd. Mae angen i Gyngor Gwynedd sicrhau fod ei Wasanaeth Llyfrgell yn bodloni'r safonau presennol ar gyfer Llyfrgelloedd Cyhoeddus fel ag y'u cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru<sup>45</sup> er mwyn cyflawni ei rwymedigaethau statudol. Ond, er mwyn gwneud y toriadau sylweddol yn y gyllideb sy'n ofynnol o dan *Her Gwynedd*, i wneud y gwasanaeth yn addas i'r 21ain ganrif a diwallu anghenion defnyddwyr, mae Cyngor Gwynedd angen model sy'n denu defnyddwyr i:

- ymweld â phrif lyfrgell
- ymweld â llyfrgell a reolir yn gymunedol o dan arweiniad yr awdurdod<sup>46</sup>
- ymweld â llyfrgell symudol
- cael mynediad i'r Gwasanaeth Llyfrgell ar-lein

e. Bydd angen i'r ddarpariaeth newydd sicrhau fod y ffactorau canlynol yn eu lle cyn llawned â phosibl ym mhob man darparu gwasanaeth:

- amseroedd agor/ymweld cyfleus,
- safon gwasanaeth uchel,
- amrywiaeth ddeniadol o eitemau a gwasanaethau,
- cyfleoedd i gymdeithasu'n anffurfiol,
- mynediad hawdd,
- cysylltiadau trafndiaeth cyfleus.

Byddai'n ddymunol hefyd rhoi cyfleoedd i'r defnyddwyr bori drwy gasgliadau sy'n cael eu diweddarau'n gyson neu gael eu cyflwyno i lyfrau ac awduron newydd.

f. Mae gan gymunedau gwahanol gymwyseddau, galluoedd a dymuniadau gwahanol o ran cymryd rhan ac ysgwyddo cyfrifoldeb am lyfrgelloedd ac ni fydd un model yn addas i bob sefyllfa. Bydd angen cyfathrebu'n ofalus iawn o safbwynt ymgysylltu â gwirfoddolwyr a gwneud hynny'n raddol.

ff. Gallai gwirfoddolwyr gymryd rhan i ehangu a chyfoethogi'r profiad llyfrgell mewn:

- llyfrgelloedd sefydlog
- dosbarthu ystafell gefn
- digwyddiadau a sesiynau hyfforddi

---

<sup>45</sup> Llywodraeth Cymru (2014) *Llyfrgelloedd yn gwneud gwahaniaeth: pumed fframwaith y Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2014-2017*. Ar gael:

<http://gov.wales/docs/drah/publications/140425wpls5en.pdf>

<sup>46</sup> *Canllawiau ynghylch Llyfrgelloedd a Reolir gan Gymunedau a Darpariaeth Statudol Gwasanethau Llyfrgelloedd Cyhoeddus yng Nghymru*. Ar gael: <http://gov.wales/docs/drah/publications/150522community-managed-libraries-en.pdf>

- ar lyfrgelloedd teithiol/ymweliadau cartref
- trafnidiaeth
- codi arian

i **gefnogi** staff cyflogedig proffesiynol os yw'r staff a'r gwirfoddolwyr yn cael hyfforddiant. Fodd bynnag, mae'r lefelau staffio isel presennol yn effeithio ar amser staff i reoli gwirfoddolwyr a gall defnyddwyr fod yn wrthwynebus i unrhyw gynllun gwirfoddoli. Mae angen sgiliau arbennig, y gallu i gyfathrebu a phrofiad.

- g. Er bod y cyfle i bori drwy lyfrau a'u trafod yn eu dwylo yn cael ei werthfawrogi gan nifer o ddefnyddwyr, gallai datrysiadau digidol/ar-lein gyfrannu o'u cyflwyno'n sensitif, megis defnyddwyr yn cael eu gwahodd drwy alwad ffôn neu e-bost i ymweld ag adeilad llyfrgell neu ddolen i weld llyfrau a ddewiswyd iddynt, yn seiliedig ar eu defnydd blaenorol.
- h. Ar hyn o bryd mae adeiladau Llyfrgell Gwynedd yn darparu mynediad hanfodol ac am ddim i gyfrifiaduron i sectorau o'r boblogaeth mewn nifer o gymunedau, rhai ohonynt â chyfraddau cynhwysiant digidol isel. Am y rheswm a eglurwyd ym mhwynt c, mae'n bosibl na fydd Cyngor Gwynedd yn gallu cefnogi rhai o'r adeiladau hyn yn y dyfodol.
- i. Mae adeiladau llyfrgell a'u staff yn chwarae rhan bwysig o safbwynt yr iaith Gymraeg mewn amryw o gymunedau drwy'r sir ac mae ganddynt rôl sylweddol mewn rhai ohonynt.
- j. Drwyddi draw mae nifer defnyddwyr Gwasanaeth Llyfrgell Gwynedd yn dirywio oherwydd:
  - proffil oedran hŷn y defnyddwyr
  - tynfa'r oes ddigidol sy'n gwneud adeiladau llyfrgell yn llai perthnasol i bobl iau.
Ond, mae tueddiadau defnyddwyr yn llyfrgell Penygroes yn awgrymu fod modd, gydag ymdrech bendant a marchnata parhaus, cynyddu niferoedd defnyddwyr hyd yn oed ymhlith yr ifanc.
- k. Bydd angen i'r model o ddarparu gwasanaeth ystyried cynnydd parhaus yn defnyddwyr y gwasanaeth llyfrgell cartref ond ochr yn ochr â hyn, peidio â difrio'r agwedd 'gwasanaeth' lle mae staff yn treulio amser gyda phobl yn eu cartrefi, h.y. nid rhoi sylw i niferoedd yn unig.
- l. Mae angen i Wasanaeth Llyfrgell Gwynedd, mewn cydweithrediad ag ysgolion a'r gwasanaeth addysg, barhau i ddatblygu ac addasu er mwyn darparu deunydd darllen hanfodol i blant, yn yr ysgol a'r tu allan, i gefnogi eu haddysg a helpu sgiliau llythrennedd a chynyddu nifer y defnyddwyr yn y dyfodol.

## Argymhellion

### Y Strategaeth/Y Weledigaeth

a. Newid nod craidd 3 o: 'Hybu'r defnydd o adnoddau'r gwasanaeth a llyfrgelloedd fel canolfannau cymunedol amlbwrpas' i 'Cefnogi a hybu'r defnydd o'r gwasanaeth a'i adeiladau fel mannau cymunedol anffurfiol a ffurfiol amlbwrpas a gwasanaethau y tu hwnt i lyfrau'.

b. Newid maes gwasanaeth allweddol/thema graidd sy'n adlewyrchu'r uchod i

*Hybu iechyd a lles unigolion a chymunedau.*

c. Ystyried cynnwys gweithredoedd o dan yr uchod sy'n adlewyrchu rôl bwysig y gwasanaeth a llyfrgelloedd o ran cydlyniant cymunedol, iechyd meddwl, cynhwysiant cymdeithasol, yr economi leol a'r iaith Gymraeg.

## **Y ddarpariaeth**

d. Er mwyn cyflwyno gwasanaeth mwy cost-effeithlon ac effeithiol, mae angen cynnig ystod ehangach o ddarpariaeth gwasanaeth llyfrgell na'r hyn a gynigir ar hyn o bryd (+/-20 awr gwasanaeth llyfrgell sefydlog neu symudol), naill ai fel ateb unigol neu mewn cyfuniad ag un arall, fel ag yr amlinellir yn Argymhellion e-q isod.

e. Creu amrywiaeth o ddarpariaeth gwasanaeth i wella a pharu argaeledd y gwasanaeth/oriau agor â'r patrymau defnydd drwy roi sylw at anghenion defnyddwyr. Angen rhoi sylw arbennig i gydweddu mynediad corfforol/oriau agor ag amserlenni trafndiaeth gyhoeddus a phatrymau gwaith lleol.

f. Ystyried cynnig gwasanaeth llyfrgell a reolir gan gymunedau yn yr 8 llyfrgell sydd ar agor am lai na 20 awr yr wythnos yn ogystal â'r 9 llyfrgell lawn-amser. Er mwyn sicrhau fod y rhain yn gymwys i gael eu hystyried fel rhan o'r ddarpariaeth statudol, sefydlu llyfrgelloedd Model C - llyfrgelloedd cymunedol dan arweiniad yr awdurdod - fel ar yr argymhellir yn adroddiad *Ymddiriedolaethau Annibynnol a Llyfrgelloedd Cymunedol yng Nghymru* (2014) (t.30)<sup>47</sup> a gadarnheir gan *Ganllawiau Llywodraeth Cymru ynghylch Llyfrgelloedd a Reolir gan Gymunedau a Darpariaeth Statudol Gwasanaethau Llyfrgell Cyhoeddus yng Nghymru* (t. 17).<sup>48</sup> Dylai gwasanaethau o'r fath fodloni'r 18 Hawl Craidd a amlinellir ym mhumed fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru<sup>49</sup>.

g. Symud tuag at system fwy canolog ar gyfer storio a dosbarthu CDs, DVDs, deunydd print ac electronig [model "Llyfrgell Brydeinig – gwasanaeth Boston Spa"] i gefnogi'r ystod gyfan o ddarpariaeth llyfrgell er mwyn osgoi cael stoc yn eistedd ar silffoedd mewn llyfrgelloedd wedi cau. Y system a'r broses i gael eu goruchwylio gan staff cyflogedig ond ei chyflwyno'n weithredol gan wirfoddolwyr a hyfforddwyd drwy'r ystod o adeiladau a'r gwasanaeth teithiol neu drwy gyfleusterau eraill fel canolfannau hamdden ac ysgolion.

---

<sup>47</sup> Roberts, D.H.E. (2014) *Ymddiriedolaethau Annibynnol a Llyfrgelloedd Cymunedol yng Nghymru: Ymchwil i natur y ddarpariaeth gyfredol a'r hyn a gynllunir, Rhagfyr 2014, comisiynwyd gan Lywodraeth Cymru*. Ar gael: <http://gov.wales/docs/drah/publications/150211-independent-trusts-community-libraries-en.pdf>

<sup>48</sup> Llywodraeth Cymru (2015) *Canllawiau ynghylch Llyfrgelloedd a Reolir gan Gymunedau a Darpariaeth Statudol Gwasanaethau Llyfrgell Cyhoeddus yng Nghymru*. Ar gael: <http://gov.wales/docs/drah/publications/150522community-managed-libraries-en.pdf>

<sup>49</sup> Llywodraeth Cymru (2014) *Llyfrgelloedd yn gwneud gwahaniaeth: pumed fframwaith y Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2014-2017*. Ar gael: <http://gov.wales/docs/drah/publications/140425wpls5en.pdf>

**h.** Cyflwyno rhaglen o weithgareddau a gwasanaethau yn y 9 llyfrgell fwyaf i hyrwyddo cynhwysiant digidol. Gallai'r rhain gael eu cyflwyno gan staff llyfrgelloedd cyhoeddus gyda chymorth grwpiau defnyddwyr o'r cymunedau i gyd i dreialu a chynghori ar unrhyw weithgareddau a gwasanaethau newydd. Byddai'r 9 llyfrgell yn y tymor hir yn arwain ar yr e-adnoddau ac yn cyflwyno hyfforddiant wyneb yn wyneb wrth i'r gwasanaethau newydd gyrraedd cymunedau. Gallai gwirfoddolwyr gefnogi'r datblygiadau hyn drwy ymgymryd â thasgau bob dydd fel dosbarthu/derbyn llyfrau.

**i.** Codi lefelau llythrennedd ymhlith plant a phobl ifanc, gwella mynediad at e-adnoddau drwy roi benthyg darlennyddion e-lyfrau yn ogystal ag e-ddeunyddiau (llyfrau, cylchgronau a llyfrau sain) fel ag y rhoddir yn barod o dan delerau cynllun "ECALM" (*Every Child a Library Member*)<sup>50</sup>.

**j.** Cefnogi Argymhelliad a. uchod ac mewn cysylltiad ag f, archwilio partneriaethau posibl gyda grwpiau/mudiadau cymunedol perthnasol a llunio dulliau a gweithgareddau i alluogi llyfrgelloedd i gyflawni eu potensial fel manau cymunedol ffurfiol ac anffurfiol amlbwrpas a hyrwyddo iechyd a lles y tu hwnt i gyflenwi a benthyca adnoddau'n unig.

**k.** Sicrhau corff sydd â hanes blaenorol a phrofiad o'r sector gwirfoddol, megis Mantell Gwynedd, i helpu i recriwtio gwirfoddolwyr addas i helpu i gyflawni pob model o ddarpariaeth llyfrgell a phwyntiau gwasanaeth fel y bo'n briodol.

**l.** Creu rhaglen a gynlluniwyd i recriwtio a hyfforddi gwirfoddolwyr a fydd yn cynnwys hyfforddiant cyffredinol mewn cyflwyno gwasanaeth a hyfforddiant mwy arbenigol mewn cefnogi a chyflenwi technoleg, ynghyd â gweithgareddau ategol megis cludo defnyddwyr i'r llyfrgell agosaf, codi arian a mynd gyda gyrwyr llyfrgelloedd teithiol i gartrefi. Dylid ystyried hefyd cyflwyno rhaglen hyfforddiant i'r staff cyflogedig er mwyn eu galluogi i reoli a chyflawni modelau gwasanaeth newydd fel ag yr argymhellwyd uchod a rheoli staff gwirfoddol yn effeithiol ac effeithlon.

**m.** Gwella'r cyfeirio at/arwyddo holl ystod y gwasanaethau llyfrgell yn cynnwys yr adeiladau, gwasanaethau teithiol, benthyca rhwng llyfrgelloedd ac ymweliadau cartref – ar y we ac yn ffisegol.

**n.** Adnewyddu marchnata a chyfathrebu gwasanaethau Cyngor Gwynedd yn gyffredinol yn cynnwys llyfrgelloedd, er mwyn hyrwyddo cynnig gwasanaeth integredig lleol. Ceisio cynnal ymgyrchoedd marchnata penodol dros gyfnod o 3 – 5 mlynedd er mwyn gwneud ymdrech barhaus i wrthdroi'r dirywiad yn nifer y defnyddwyr, gyda'r nod hirdymor o gynyddu defnydd.

**o.** Archwilio cyfleoedd posibl am bartneriaethau newydd neu ddatblygu'r trefniadau presennol â:

- Phartneriaeth Ogwen ym Methesda
- y Swyddfa Bost neu'r Cyngor Cymuned yng Nghricieth
- Antur Nantlle ym Mhenygroes
- yr ysgol gynradd leol neu'r fenter gymdeithasol, Menter Fachwen, yn Neiniolen
- y Feddygfa yn Nefyn neu'r fenter gymdeithasol yng Nghongl Meinciau, Botwnnog
- y Ganolfan Gymuned/Cyngor Cymuned yn Llanberis,
- Ysgol Uwchradd Ardudwy yn Harlech,
- Cwmni Deudraeth ym Mhenrhyndeudraeth.

---

<sup>50</sup> Treialwyd y cynllun hwn gan Wynedd; i gael manylion gweler <http://www.cilip.org.uk/cilip-cymru-wales/news/every-child-member>



**p.** Darparu digon o fynediad am ddim i gyfrifiaduron mewn adeiladau cyhoeddus lleol eraill/pwyntiau gwasanaethau cymunedol ar adegau ac amodau cyfleus, er enghraifft canolfannau hamdden, ysgolion ac yn y blaen os nad yw mynediad i adeiladau llyfrgell yn parhau mewn cymunedau penodol.

**q.** Parhau i gyflogi staff Cymraeg eu hiaith a mynd ati i recriwtio gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg i wneud unrhyw ddyletswyddau blaen tŷ. Cadw dewis eang o lyfrau Cymraeg er mwyn cynnal rôl bwysig llyfrgelloedd o safbwynt yr iaith Gymraeg.

## **ATODIADAU**

ATODIAD 1	Llywodraeth Cymru (2014) Llyfrgelloedd yn gwneud gwahaniaeth Pumed fframwaith ansawdd Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2014 – 2017
ATODIAD 2a	Holiadur Ymgynghoriad ar y Gwasanaeth Llyfrgell (oedolion)
ATODIAD 2B	Holiadur Ymgynghoriad ar y Gwasanaeth Llyfrgell (plant)
ATODIAD 3	Amlinelliad Trafod Sesiynau Galw-heibio Llyfrgelloedd Rhan amser
ATODIAD 4	Amlinelliad Trafod Sesiynau Galw-heibio'r Prif Lyfrgelloedd
ATODIAD 5	Blaenoriaethau Gwasanaeth Llyfrgell Gwynedd
ATODIAD 6	Tystiolaeth a gohebiaeth yr ymgynghoriad
ATODIAD 7	Sylwadau ac adborth llyfrgelloedd rhan-amser
ATODIAD 8	Sylwadau ac adborth prif lyfrgelloedd
ATODIAD 9	Awgrymiadau creu incwm

# Llyfrgelloedd yn gwneud gwahaniaeth



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

Pumed fframwaith ansawdd Safonau  
Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2014-2017



CyMAL: Amgueddfeydd Archifau a Llyfrgelloedd Cymru

Llywodraeth Cymru

Rhodfa Padarn, Llanbadarn Fawr

Aberystwyth, Ceredigion

SY23 3UR

[cymal@wales.gsi.gov.uk](mailto:cymal@wales.gsi.gov.uk)

0300 062 2112

[www.wales.gov.uk/cymal](http://www.wales.gov.uk/cymal)

ISBN 978-1-4734-1121-0 (online)

ISBN 978-1-4734-1122-7 (printed)

Paratowyd gan LISU mewn ymgynhoriad â Llywodraeth Cymru

Argraffwyd ar bapur a ailgylchwyd (75%)

Delweddau © Llywodraeth Cymru– Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli

WG20725

© Hawlfraint y Goron 2014

## Cynnwys

<b>Rhagair</b>	<b>5</b>
<b>1. Cyflwyniad</b>	<b>7</b>
1.1 Buddion a menteision defnyddio llyfrgelloedd cyhoeddus	7
1.2 Beth mae hyn yn ei olygu i bobl Cymru	7
1.3 Cyflawni'r ddyletswydd statudol	8
1.4 Y pumed fframwaith ansawdd	9
<b>2. Cwsmeriaid a chymunedau</b>	<b>13</b>
2.1 Hawliau craidd	13
2.2 Dangosyddion ansawdd	13
<b>3. Mynediad i bawb</b>	<b>17</b>
3.1 Hawliau craidd	17
3.2 Dangosyddion ansawdd	17
<b>4. Dysgu am oes</b>	<b>19</b>
4.1 Hawliau craidd	19
4.2 Dangosyddion ansawdd	19
<b>5. Arweinyddiaeth a datblygu</b>	<b>21</b>
5.1 Hawliau craidd	21
5.2 Dangosyddion ansawdd	21
<b>6. Adrodd, monitro ac asesu</b>	<b>25</b>
6.1 Gofynion adrodd	25
6.2 Gweithdrefnau monitro ac asesu	25
<b>Atodiad</b>	<b>28</b>



Llyfrgell



Library

## Rhagair



Yn sgil fy ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus a'r bobl rwyf wedi cwrdd â hwy mewn digwyddiadau ynddynt, rwy'n gwybod bod llyfrgelloedd cyhoeddus yn wasanaeth pwysig sy'n cael ei werthfawrogi ac sy'n ganolbwynt i'r gymuned. Mae'n darparu man croesawgar i ddysgu a hamddena, i gwrdd â phobl ac i gymryd rhan mewn digwyddiadau. Mae'r llyfrgell fodern ar gael 24/7 drwy wasanaethau ar-lein fel e-lyfrau, e-gylchgronau ac adnoddau digidol eraill. Yn ardaloedd difreintiedig Cymru, mae llyfrgelloedd yn cynnig mynediad hanfodol ac am ddim i wasanaethau digidol gan gynnwys gwbyodaeth am fudd-daliadau a swyddi.

Mae'r arolwg economaidd am y tair blynedd nesaf yn her i ni oll. Rwy'n gwerthfawrogi fod gan awdurdodau lleol benderfyniadau anodd i'w gwneud ynghylch y gwasanaethau y maent yn eu darparu. Ysywaeth, mae llyfrgelloedd cyhoeddus yn wasanaeth statudol yn ôl *Deddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964*. Ers dros ddegawd mae Llywodraeth Cymru wedi gweithredu sawl fframwaith asesu sydd wedi cynorthwyo i sicrhau safon gwasanaeth mwy cyson ledled Cymru. Rwyf am i bawb yng Nghymru barhau i elwa o wasanaethau ac adnoddau llyfrgelloedd cyhoeddus effeithiol a pherthnasol.

Yn Ebrill 2014 bydd y fframwaith asesu nesaf yn dechrau. Mae wedi'i lunio mewn ymgynghoriad â'r sector llyfrgelloedd ac awdurdodau lleol ac nid yn unig y mae'n adlewyrchu'r dyfodol economaidd anodd sydd o'n blaenau, ond mae hefyd yn gosod rhywfaint o dargedau dyheadol. Mae'r fframwaith yn cynnwys asesu effaith a chanlyniad am y tro cyntaf. Bydd hyn yn cynorthwyo i arddangos yr ystod eang o fuddion sy'n gallu deillio o ddefnyddio'r gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus, megis gwella sgiliau llythrennedd, sgiliau digidol ac iechyd pobl.

Felly mae'n bleser gennyf gyhoeddi pumed fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru a chydabod y bartneriaeth sy'n parhau rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol. Gallwn gydweithio i sicrhau fod gwasanaethau llyfrgelloedd yng Nghymru yn parhau i fod yn ganolog i'n hymdrechion i wella bywyd pobl Cymru.

John Griffiths AC  
Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon  
Ebrill 2014



# 1. Cyflwyniad

*“Mae llyfrgelloedd cyhoeddus, llyfrgelloedd addysgol a llyfrgelloedd yn y gweithle wrth wraidd eu cymunedau. Maent yn bodoli er mwyn ysbrydoli a helpu pobl i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i’w bywydau. Mae llyfrgelloedd yn cyfrannu at les cymdeithasol, addysgol, diwylliannol ac economaidd pobl Cymru.”<sup>1</sup>*

## 1.1. Buddion a manteision defnyddio llyfrgelloedd cyhoeddus

Mae ymgysylltiad unigolion, a’r gymuned ehangach, â gwasanaeth llyfrgell yn darparu ar gyfer buddion llawer o feysydd canlyniadau Llywodraeth Cymru, megis llythrennedd, cynhwysiant digidol, cymunedau cydlynol, tlodi, ac iechyd a lles. Mae’r modd y mae llyfrgell yn rhyngweithio â’i rhanddeiliaid – sef defnyddwyr (a darpar ddefnyddwyr) y gwasanaeth yn bennaf – yn allweddol i ddarparu gwasanaeth o ansawdd. Mae canfyddiadau defnyddwyr am y gwasanaethau sydd ar gael yn deillio o’u profiadau. Bydd llyfrgelloedd sy’n ymgysylltu’n briodol â’u cwsmeriaid yn cynnig y budd mwyaf posibl i unigolion a’r gymuned. Yn ogystal â darparu hyfforddiant a chymorth dysgu i unigolion, mae llyfrgelloedd yn cyfrannu at gymdeithas mewn ffyrdd eraill hefyd, megis darparu mynediad at gyfrifiaduron ac e-lywodraeth i aelodau sydd wedi’u heithrio’n ddigidol o’r gymuned.

Efallai mai’r llyfrgell gyhoeddus yw’r unig le yn y gymuned lle gall defnyddwyr dreulio amser mewn amgylchedd diogel a niwtral. Mae cefnogi pobl i chwilio am waith yn cyfrannu at yr economi yn lleol ac yn genedlaethol. Trwy ddarparu cyfleusterau a gwasanaethau arbenigol i’r bobl hynny yn y gymuned sydd efallai ag anghenion arbennig, mae llyfrgelloedd yn cyfrannu at iechyd a lles. Ni chyflawnir buddion o’r fath oni bai fod y llyfrgell yn cynnig mynediad cyfartal i bawb. Bellach mae’n haws cael gafael ar lawer o wybodaeth ar-lein, a pheth o’r wybodaeth honno ar gael ar-lein yn unig; mae llyfrgelloedd mewn sefyllfa unigryw

i hwyluso mynediad at adnoddau a allai fod yn rhy ddrud i unigolion (e.e. cost caledwedd sylfaenol, mynediad i’r Rhynggrwyd neu danysgrifio i adnoddau).

Mae gan llyfrgelloedd rôl allweddol wrth ddarparu gwybodaeth a’i hyrwyddo i bobl o bob oed a chefnidir, yn ogystal ag wrth ddatblygu eu sgiliau. O gamau cyntaf plant yn gwrandao ar storïau a dysgu darllen, i ddarparu manau tawel ar gyfer astudio a chefnogi pobl hŷn i ddefnyddio technolegau newydd, mae llyfrgelloedd yn cyfrannu at gyflawni targedau llythrennedd, llythrennedd gwybodaeth a chynhwysiant digidol.

Mae llyfrgelloedd da yn chwarae rhan bwysig wrth lunio barn pobl am eu hawdurdod lleol. Er mwyn darparu gwasanaethau cynaliadwy o ansawdd i’r cyhoedd, mae’n rhaid i llyfrgelloedd gael arweiniad gweithredol a rhaglen ddatblygu er mwyn eu galluogi i ymateb yn amserol i newid yn anghenion gwybodaeth a diwylliannol eu cymunedau lleol. Mae’n rhaid i staff feddu ar y sgiliau, y wybodaeth a’r hyder i ddarparu gwasanaethau a diwallu anghenion y cwsmer, a hynny wedi’i arddangos drwy gymwysterau proffesiynol priodol. Mae gan llyfrgelloedd y cyfle i gyfrannu at ystod o agendâu ehangach llywodraeth leol a chenedlaethol, ond bydd hyn ond yn digwydd os yw’r llyfrgell yn rhagweithiol wrth hyrwyddo ei rôl, yn seiliedig ar weledigaeth gref sy’n gysylltiedig â’r agendâu hynny.

## 1.2. Beth mae hyn yn ei olygu i bobl Cymru

Mae pumed fframwaith safonau llyfrgelloedd cyhoeddus Cymru yn cynnwys 18 hawl graidd a 16 dangosydd ansawdd i fonitro pa mor dda y mae’r gwasanaethau llyfrgell yn cyflawni’r buddion hyn i bobl Cymru. Nid yw’r mapio rhwng buddion a dangosyddion yn syml, gan nad oes modd cael mesur uniongyrchol o ganlyniadau ac effeithiau ar lefel y gwasanaeth cyfan, ond yn hytrach rhaid eu casglu o ddangosyddion ehangach. Mae’r tabl isod yn

<sup>1</sup> CyMAL (2011) *Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli: Fframwaith strategol ar gyfer datblygu llyfrgelloedd Cymru 2012-2016*, t 7 Ar gael yn <http://wales.gov.uk/topics/cultureandsport/museumsarchiveslibraries/cymal/libraries/librariesinspire/?lang=cy>



dangos y dangosyddion yn y fframwaith hwn sy'n bennaf gysylltiedig â'r prif fuddion a geir yn sgil defnyddio llyfrgelloedd cyhoeddus. Bydd llyfrgelloedd sy'n perfformio'n dda ar y dangosyddion hyn yn ymgysylltu'n briodol â'u cwsmeriaid i wneud gwahaniaeth i'w bywydau.

Canlyniadau ac effeithiau	Hawliau craidd	Dangosyddion ansawdd
Rwy'n gallu cynyddu fy ngwybodaeth/sgiliau ar ôl defnyddio'r llyfrgell	1, 2, 3	1, 3, 4
Rwy'n gallu cymryd rhan mewn digwyddiadau darllen a digwyddiadau diwylliannol eraill sydd wedi'u trefnu gan y gwasanaeth llyfrgell	3	8, 9
Rwy'n teimlo'n rhan o gymuned sy'n defnyddio'r gwasanaeth llyfrgell	3, 15	1, 5, 6
Rwy'n gallu manteisio ar y cyfleoedd a gynigir yn y byd digidol drwy ddefnyddio'r gwasanaeth llyfrgell	1, 10, 11	8, 12, 13
Mae fy iechyd a lles yn cryfhau drwy ddefnyddio'r llyfrgell	3, 7	1
Rwy'n gallu cymryd rhan yn llawnach mewn materion lleol drwy'r cyfleusterau yn y llyfrgell	3, 11	3, 12

Mae hawliau craidd a dangosyddion ansawdd eraill yn ymwneud â rheoli gwasanaethau yn effeithiol, sy'n sail i gyflawni'r canlyniadau a'r effeithiau yn effeithiol.

Mae canllaw byr i'r cyhoedd ac aelodau awdurdodau lleol ar gael gan CyMAL.<sup>2</sup>

### 1.3. Cyflawni'r ddyletswydd statudol

Mae *Deddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964*<sup>3</sup> yn ei gwneud yn ddyletswydd ar y Gweinidogion perthnasol yng Nghymru (sef y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon ar hyn o bryd) *"i arolygu a hyrwyddo gwella'r gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus a ddarperir gan awdurdodau lleol... ac i sicrhau bod awdurdodau lleol yn cyflawni'r swyddogaethau yn briodol mewn perthynas â llyfrgelloedd a roddwyd iddynt fel awdurdodau llyfrgelloedd gan y Ddeddf hon"*. O dan yr un Ddeddf, mae'n ofynnol i awdurdodau llyfrgelloedd *"ddarparu gwasanaeth llyfrgell cynhwysfawr ac effeithlon i bob person sy'n dymuno gwneud defnydd ohono"*.

Ers 2002, mae Gweinidogion Cymru wedi cyflawni'r ddyletswydd hon drwy Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru (SLICC, neu'r Safonau). Roedd y fframwaith cyntaf yn rhedeg o 2002 hyd at 2005, a fframweithiau dilynol yn cwmpasu'r cyfnodau 2005-08, 2008-11 a 2011-14. Roedd pob fframwaith unigol wedi esblygu i adlewyrchu anghenion a disgwyliadau newidiol defnyddwyr llyfrgelloedd cyhoeddus. Yn ogystal â chyflawni dyletswyddau statudol, mae fframwaith SLICC yn chwarae rôl werthfawr wrth gefnogi datblygiad gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus. Mae consensws cyffredinol ymysg rhanddeiliaid sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru fod y fframweithiau mesur perfformiad hyn, a gyflwynwyd ac a weinyddir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y sector, wedi helpu gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus i wella mewn nifer o ffyrdd ac mewn meysydd allweddol. Er enghraifft, o ganlyniad i'r Safonau, cafwyd gwelliannau sylweddol mewn meysydd gwasanaeth megis cyflenwi ceisiadau a darparu cyfleusterau a gwasanaethau TGCh,

<sup>2</sup> Gweler <http://www.wales.gov.uk/cymal> i gael manylion

<sup>3</sup> Ar gael yn <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1964/75/contents>

gan arwain at ganlyniadau gwell i gwsmeriaid llyfrgelloedd.

Mae gan awdurdodau lleol hefyd ddyletswydd statudol (o dan adran 7 y Ddeddf) i ddarparu gwasanaeth llyfrgell ac i annog oedolion a phlant i wneud defnydd llawn o'r gwasanaeth llyfrgell hwnnw. Bydd y dangosyddion perfformiad a restrir yma yn helpu Llywodraeth Cymru i asesu a yw awdurdodau lleol yng Nghymru yn cydymffurfio â'u dyletswyddau o dan Ddeddf 1964 ai peidio, ac i asesu pa mor gynhwysfawr ac effeithlon yw dull darparu gwasanaethau llyfrgelloedd yng Nghymru.

#### 1.4. Y pumed fframwaith ansawdd

Dyma amcanion y pumed fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru:

- galluogi'r Gweinidog dros Ddiwylliant a Chwaraeon i gyflawni gofynion statudol Deddf 1964 o ran arolygu bod awdurdodau lleol yn darparu gwasanaeth llyfrgell 'cynhwysfawr ac effeithlon';
- darparu asesiad cadarn o berfformiad gwasanaethau llyfrgelloedd;
- bod â chysylltiadau clir ag agenda Llywodraeth Cymru, er mwyn sicrhau hygrededd ar draws llywodraeth leol yng Nghymru;
- bod yn berthnasol ac yn ddefnyddiol i holl wasanaethau llyfrgell yr awdurdodau lleol yng Nghymru;

- bod yn dryloyw, yn hawdd ei ddeall ac yn cael ei dderbyn gan yr holl randdeiliaid;
- ymgorffori mesurau canlyniadau er mwyn dangos buddion defnyddio llyfrgelloedd;
- gweithredu fel sbardun ar gyfer gwella gwasanaethau llyfrgell a chymunedau lleol;
- lleihau baich casglu data ar awdurdodau llyfrgell.

Mae'r fframwaith hwn wedi'i gyflwyno yn ystod cyfnod o gyfyngiadau ar gyllidebau, ac mae'n rhoi cyfleoedd i lyfrgelloedd ddarparu gwasanaethau mewn ffyrdd arloesol yn ogystal â rhoi'r hyblygrwydd iddynt wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael iddynt. Datblygwyd y fframwaith drwy ddefnyddio amrywiaeth o fodelau ansawdd perfformiad yn sail i greu fframwaith unigryw i Gymru, gan ymgorffori mesurau mewnbwn ac allbwn, yn ogystal ag elfennau ansoddol ac effaith/canlyniad. Bydd yn dod i rym ar 1af Ebrill 2014, a bydd llyfrgelloedd yn llunio eu hadroddiad cyntaf yn erbyn ei ofynion yn ystod haf 2015. Mae'r ddogfen hon yn disgrifio'r fframwaith newydd yn fanwl. Gwerthfawrogir y bydd rhai rhannau o'r fframwaith o bosibl yn fwy perthnasol neu'n llai perthnasol mewn awdurdodau penodol a gwerthfawrogir y bydd angen i wasanaethau llyfrgelloedd ystyried blaenoriaethau lleol.

Mae gwasanaethau llyfrgelloedd yn cyfrannu at ystod o ganlyniadau Llywodraeth Cymru





Datblygwyd rhai dangosyddion o fframweithiau blaenorol; mae eraill yn newydd, gan adlewyrchu pwyslais cynyddol ar ganlyniadau ac effaith y gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus ar bobl Cymru. Adroddir am y rhan fwyaf ohonynt bob blwyddyn; efallai nad adroddir am eraill ond unwaith yn y cyfnod o dair blynedd, er enghraifft, pan fo angen data o arolwg defnyddwyr. Ar gyfer rhai dangosyddion, gosodir targedau ffurfiol, er nad yw targedau o'r fath yn briodol ym mhob achos. Bydd disgwyl i lyfrgelloedd gymharu eu perfformiad yn yr holl ddangosyddion â blynyddoedd blaenorol, a chyrraedd y targedau pan fo'r rhain wedi'u gosod. Bydd meincnodi awdurdodau yn bosibl pan fydd yr holl ganlyniadau ar gael.

Gall daearyddiaeth, dosbarthiad y boblogaeth a ffactorau eraill o fewn awdurdodau unigol achosi amrywiadau mawr yn y dulliau sydd eu hangen i gynllunio a darparu gwasanaethau llyfrgell. Oherwydd hyn, cynigir dewisiadau eraill i awdurdodau llyfrgelloedd Cymru fesur eu gwasanaethau yn eu herbyn o ran rhai o'r dangosyddion a ddisgrifiwyd, a dylent ddewis yr un sydd mwyaf priodol i adlewyrchu eu hamgylchiadau.

Ni fanylir ynghylch diffiniadau o'r termau amrywiol a ddefnyddir a'r dulliau casglu data yn y ddogfen hon; mae'r rhain, serch hynny, wedi'u cynnwys gyda'r templed adrodd a roddwyd i'r gwasanaethau llyfrgell, ac maent ar gael o ofyn amdanynt.<sup>4</sup> Ym mhob achos, rhoddir canllawiau manwl i awdurdodau llyfrgell ynghylch casglu data a chyfrifo er mwyn sicrhau cysondeb a modd cymharu. Defnyddir data sy'n bodoli'n barod lle bynnag y bo hynny'n ymarferol. Pan fo'n briodol, mabwysiadwyd diffiniadau a dulliau sy'n safonol yn rhyngwladol.

Mae rhan olaf y ddogfen hon yn manylu ar y gofynion adrodd, sy'n cynnwys elfen o hunanwerthuso ac adrodd disgrifiadol yn ogystal â'r prif ystadegau gwasanaeth a'r dangosyddion perfformiad, ac mae'n disgrifio'r broses monitro ac asesu. Ystyrir yr asesiad o safbwynt cyfannol. Caiff perfformiad llyfrgelloedd ei bwysu a'i fesur ar sail holl agweddau'r fframwaith, gan gynnwys cydymffurfio â'r hawliau craidd, safle ar y dangosyddion ansawdd, nifer y targedau perfformiad a gyflawnwyd, a'r naratif sy'n darparu tystiolaeth o effaith y gwasanaeth ar unigolion a'r gymuned.



<sup>4</sup> Gweler <http://www.wales.gov.uk/cymal> i gael manylion



# Llyfrgell Plant Children's Library

Welcoming children  
friendly to read

## 2. Cwsmeriaid a chymunedau

Cynlluniwyd yr hawliau a'r dangosyddion yn yr agwedd hon ar y gwasanaeth i sicrhau bod y gwasanaeth llyfrgell yn ymgysylltu â'i gwsmeriaid a'i ddarpar ddefnyddwyr, ac yn cynnig cyfleoedd ar gyfer datblygiad personol a chymunedol.

### 2.1. Hawliau craidd

#### HCSLICC 1

Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn sicrhau bod staff cyfeillgar, gwybodus a chymwys wrth law i helpu.

#### HCSLICC 2

Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn cynnal amrywiaeth o weithgareddau i gefnogi dysgu, mwynhad a galluogi defnyddwyr i gael y budd mwyaf o'r adnoddau sydd ar gael.

#### HCSLICC 3

Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu mynediad at ystod o wasanaethau ac adnoddau i gefnogi dysgu gydol oes, lles a datblygiad personol, a chyfranogiad cymunedol.

### 2.2. Dangosyddion ansawdd

#### DASLICC 1 Gwneud gwahaniaeth

Mae'r detholiad hwn o ddangosyddion yn asesu effaith defnyddio llyfrgelloedd ar fywydau pobl mewn amrywiaeth o ffyrdd. Er bod rhai yn berthnasol i feysydd eraill yn y fframwaith hwn, maent wedi'u grwpio yma gyda'i gilydd gan eu bod yn allweddol i brofiad cyffredinol y cwsmer.

Bydd awdurdodau yn adrodd am y canlynol, o leiaf unwaith yn y cyfnod tair blynedd:

- a) canran yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd;

- b) canran y plant sy'n meddwl bod defnyddio'r llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau;
- c) canran yr oedolion sydd wedi cael gwybodaeth ddefnyddiol ynghylch iechyd a lles yn y llyfrgell;
- d) canran yr oedolion sy'n teimlo bod y llyfrgell yn lle diogel a chroesawgar i ymweld â hi;
- e) canran yr oedolion a chanran y plant sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau.

Caiff data ei gasglu o holiaduron i ddefnyddwyr sy'n oedolion ac yn blant, a dylid cynnal yr arolygon yn unol ag arferion ystadegol da, o leiaf unwaith yn ystod cyfnod tair blynedd y fframwaith hwn. Rhoddir arweiniad i awdurdodau ynghylch cynnal yr arolwg a geiriad y cwestiynau i sicrhau bod modd cymharu. Gall awdurdodau gynnal arolygon blynyddol os dymunant ac adrodd yn unol â hynny.

#### DASLICC 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid

Mae bodlonrwydd cwsmeriaid yn elfen allweddol o berfformiad llyfrgell. Fel yn achos y dangosyddion sy'n ymwneud ag effaith llyfrgell (DA 1), mae rhai o'r rhain yn berthnasol i feysydd eraill y fframwaith hwn, ond maent wedi'u grwpio yma gyda'i gilydd gan eu bod yn allweddol i brofiad cyffredinol y cwsmer.

Bydd awdurdodau'n adrodd:

- a) canran yr oedolion sy'n credu bod y dewis o lyfrau sydd ar gael yn y llyfrgell a ddefnyddiant yn 'dda iawn' neu'n 'dda';
- b) canran yr oedolion sy'n credu bod safon y gofal cwsmeriaid yn 'dda iawn' neu'n 'dda';
- c) canran yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell yn 'dda iawn' neu'n 'dda' yn gyffredinol;

- d) sgôr gyffredinol allan o ddeg ar gyfartaledd a roddwyd gan ddefnyddwyr 16 oed neu iau i'r llyfrgell maent yn eu defnyddio.

Caiff data ei gasglu o holiaduron i ddefnyddwyr sy'n oedolion ac yn blant, a dylid cynnal yr arolygon yn unol ag arferion ystadegol da, o leiaf unwaith yn ystod cyfnod tair blynedd y fframwaith hwn. Gwerthfawrogir nad yw pob awdurdod am ddefnyddio casgliad offer arolwg CIPFA PLUS (y mae'r dangosyddion uchod wedi'u codi ohono), a dosbarthir arweiniad i sicrhau bod awdurdodau sy'n dewis defnyddio eu harolygon eu hunain yn cael canlyniadau y gellir eu cymharu ag eraill. Gall awdurdodau gynnal arolygon blynyddol os dymunant ac adrodd yn unol â hynny.

### **DASLICC 3 Cymorth ar gyfer datblygiad unigol**

Dylai llyfrgelloedd wneud yn siŵr fod y gwasanaethau canlynol yn cael eu cynnig yn yr holl fannau gwasanaeth sefydlog sydd ar agor am 10 awr yr wythnos neu fwy:

- a) cymorth sylfaenol i ddefnyddio'r seilwaith TGCh a gynigir (gan gynnwys y rhwydwaith diwifr) a chymorth i gael gafael ar y rhychwant o adnoddau gwybodaeth electronig sydd ar gael;
- b) hyfforddiant i wella llythrennedd, rhifedd a sgiliau digidol. Gellid datblygu rhaglenni hyfforddi a'u cyflwyno gyda phartneriaid priodol y tu allan i'r gwasanaeth llyfrgell;
- c) sesiynau llythrennedd gwybodaeth i ddefnyddwyr (h.y. cymorth i ddatblygu neu wella gallu i ganfod a chael mynediad at adnoddau priodol yn effeithlon ac yn effeithiol; gwerthuso gwybodaeth yn feirniadol; a chymhwysu gwybodaeth yn briodol i amcanion pellach, megis addysg, cyflogaeth, iechyd a lles);
- d) cymorth i ddefnyddwyr gael gafael ar adnoddau e-lywodraeth lleol a chenedlaethol;

- e) rhaglenni/gweithgareddau datblygu darllenwyr ar gyfer oedolion a phlant.

Dylai fformat y cymorth a gynigir, a pha mor aml y cynhelir unrhyw sesiynau penodol a drefnir, fod yn briodol o ystyried maint y man gwasanaeth ac anghenion y gymuned leol.

### **DASLICC 4 Hyfforddiant i ddefnyddwyr**

Mae'r dangosydd hwn yn asesu i ba raddau y mae sesiynau a gynigir yn cyd-fynd ag angen yn lleol ac mae'n cynnwys: sesiynau datblygu darllenwyr; sesiynau sgiliau llythrennedd, rhifedd, gwybodaeth a digidol; sesiynau TGCh, a.y.y.b.; gan gynnwys sesiynau a drefnir ar y cyd ag asiantaethau partner. Gall hyfforddiant i ddefnyddwyr fod â chynulleidfa gyffredinol, neu gall fod wedi'i dargedu at is-grwpiau penodol yn y boblogaeth e.e. plant, gofalwyr, pobl ddi-waith, ac ati. Gall fod angen cofrestru ymlaen llaw i'r sesiynau, neu gallent fod yn agored i bawb ar sail galw heibio.

Bydd awdurdodau'n adrodd:

- a) cyfanswm y nifer yn mynychu sesiynau hyfforddi defnyddwyr sydd wedi'u cynnal ac/neu eu trefnu ymlaen llaw gan y gwasanaeth llyfrgell yn ei fannau gwasanaeth ei hun neu mewn lleoliadau eraill o fewn yr awdurdod yn ystod y flwyddyn, wedi'i rannu â'r boblogaeth breswyl, a'i luosi â 1,000;
- b) canran y rhai sydd wedi mynychu'r sesiynau hyn a ddywedodd fod mynychu wedi'u helpu i gyflawni eu hamcanion;
- c) nifer y cwsmeriaid sydd wedi cael cymorth drwy gael hyfforddiant anffurfiol yn ystod y flwyddyn, wedi'i rannu â'r boblogaeth breswyl, a'i luosi â 1,000.

Dylai rhan (b) y dangosydd hwn darddu o ffurflen adborth syml a roddir i bawb oedd yn bresennol. Gall rhan (c) y dangosydd ddod o samplu. Rhoddir arweiniad i awdurdodau i sicrhau cysondeb wrth adrodd.







## 3. Mynediad i bawb

Mae hawliau a dangosyddion yr agwedd hon ar wasanaethau wedi'u cynllunio i sicrhau bod gwasanaethau llyfrgell yn cael eu darparu o adeiladau a chyfleusterau sy'n groesawgar, yn gynhwysol ac yn addas at y diben.

### 3.1. Hawliau craidd

#### HCSLICC 4

Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru ar agor i holl aelodau eu cymunedau.

#### HCSLICC 5

Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn rhad ac am ddim i ymuno â hwy.

#### HCSLICC 6

Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu lle diogel, deniadol a hygyrch sydd ag oriau agor addas.

#### HCSLICC 7

Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu gwasanaethau, cyfleusterau ac adnoddau gwybodaeth priodol i unigolion a grwpiau sydd ag anghenion arbennig. Gall anghenion arbennig fod wedi'u hachosi gan nam iechyd a nam corfforol, anfantais economaidd (e.e. diweithdra hirdymor), gwahaniaeth diwylliannol (e.e. iaith, newydd-ddyfodiad), cefndir addysgol, neu amgylchiadau eraill sy'n galw am wasanaethau llyfrgell arbennig.

### 3.2. Dangosyddion ansawdd

#### DASLICC 5 Lleoliad mannau gwasanaeth

Bydd awdurdodau yn sicrhau eu bod yn bodloni'r meini prawf canlynol o ran lleoliad mannau gwasanaeth ac arosfannau llyfrgelloedd teithiol, yn ôl dwysedd eu poblogaeth:

Ni wneir unrhyw amod ynghylch lleiafswm oriau agor llyfrgelloedd sefydlog (fesul safle), fodd bynnag, gofynnir i awdurdodau ystyried pa mor ymarferol a hyfyw yw mannau gwasanaeth sydd ar agor am lai na 10 awr yr wythnos. Yn yr un modd, ni wneir unrhyw amod ynghylch pa mor hir y mae llyfrgell deithiol mewn arhosfan neu ba mor aml y mae'n mynd yno, ond disgwylir y bydd llyfrgelloedd teithiol yn ymweld â phob arhosfan a drefnwyd o leiaf 12 gwaith y flwyddyn.

#### DASLICC 6 Defnydd o'r Llyfrgell

Gofynnir am dri mesuriad o'r defnydd a wneir ar lyfrgell, sy'n cynnwys defnyddio'r adnoddau ffisegol ac electronig a ddarperir. Gyda'i gilydd, maent yn asesu llwyddiant y llyfrgell o ran denu defnyddwyr i'w wasanaethau.

Bydd awdurdodau'n adrodd:

- cyfanswm nifer yr ymweliadau i lyfrgelloedd yn ystod y flwyddyn, wedi'i rannu â'r boblogaeth breswyl, a'i luosi â 1,000;
- cyfanswm nifer yr ymweliadau allanol i wefan llyfrgelloedd yn ystod y flwyddyn wedi'i rannu â nifer y boblogaeth breswyl, a'i luosi â 1,000;
- cyfanswm nifer y benthycwyr gweithredol yn ystod y flwyddyn, wedi'i rannu â nifer y boblogaeth breswyl, a'i luosi â 1,000.

Y data i'w ddefnyddio yw'r rhai yr adroddwyd amdanynt i CIPFA yn eu ffurflen llyfrgelloedd cyhoeddus hwy. Mae hwn yn ddangosydd perfformiad yn y *Dangosyddion Strategol Cenedlaethol, Hamdden a Diwylliant, ar gyfer Cymru* (LCL/001), ac mae'r canllawiau

Dwysedd y boblogaeth	% yr aelwydydd	Pellter o'r llyfrgell
20 neu ragor o bobl i bob hectar:	O leiaf 95%	o fewn 2 milltir i fan gwasanaeth sefydlog
Rhwng 1.1 a 19.9 person i bob hectar:	O leiaf 75%	o fewn 2.5 milltir (neu 10 munud o amser teithio ar drafndiaeth gyhoeddus) i fan gwasanaeth sefydlog, neu o fewn ¼ milltir i arhosfan llyfrgell deithiol
1.0 person neu lai i bob hectar:	O leiaf 70%	o fewn 3 milltir (neu 15 munud o amser teithio ar drafndiaeth gyhoeddus) i fan gwasanaeth sefydlog, neu o fewn ¼ milltir i arhosfan llyfrgell deithiol

ynghylch casglu a chyfrifo data i'r dangosydd perfformiad hwn yn sylweddol debyg yn y ddau fframwaith.

### **DASLICC 7 Presenoldeb defnyddwyr yn nigwyddiadau'r llyfrgell yn ôl pob 1,000 yn y boblogaeth**

Diben y dangosydd hwn yw amcangyfrif pa mor atyniadol yw digwyddiadau llyfrgell i boblogaeth y llyfrgell y cynigir y digwyddiadau iddynt, ac i ba raddau y mae digwyddiadau o'r fath yn bodloni'r angen lleol.

Bydd awdurdodau'n adrodd:

- cyfanswm y nifer sy'n mynychu digwyddiadau a gweithgareddau wedi'u trefnu gan y llyfrgell yn ei fannau gwasanaeth ei hun neu mewn lleoliadau

eraill yn yr awdurdod yn ystod y flwyddyn, wedi'i rannu â nifer y boblogaeth breswyl, a'i luosi â 1,000.

Mae digwyddiadau yn cynnwys yr holl ddigwyddiadau sydd â bwriad llenyddol, diwylliannol neu addysgol, e.e. ymweliadau gan awduron, grwpiau darllen, trafodaethau llenyddol, gweithdai llythrennedd digidol a gwybodaeth, gweithdai hel achau, llythrennedd iechyd, llythrennedd ariannol, chwilio am swydd ac ati. Mae digwyddiadau yn benodol ar gyfer plant wedi'u cynnwys, megis adrodd stori, barddoniaeth, cerddoriaeth. Gall awdurdodau ddewis adrodd ar wahân ynghylch digwyddiadau sydd wedi'u targedu'n benodol at rannau penodol o'r boblogaeth; e.e. darllenwyr sydd â nam ar eu golwg; grwpiau sydd wedi'u heithrio'n gymdeithasol.



## 4. Dysgu am oes

Cynlluniwyd yr hawliau a'r dangosyddion yn y maes gwasanaeth hwn i sicrhau bod y gwasanaeth llyfrgell yn darparu ystod o adnoddau a gwasanaethau i ddiwallu anghenion pobl.

### 4.1. Hawliau craidd

#### HCSLICC 8

Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn benthycu llyfrau am ddim.

#### HCSLICC 9

Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn cynnig mynediad am ddim i wybodaeth.

#### HCSLICC 10

Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu defnydd am ddim o'r Rhynggrwyd a chyfrifiaduron, gan gynnwys diwifr.

#### HCSLICC 11

Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn cynnig defnydd am ddim o adnoddau gwybodaeth ar-lein 24 awr y dydd.

#### HCSLICC 12

Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu mynediad at adnoddau o ansawdd uchel mewn amrywiaeth o fformatau, gan gynnwys rhai yn yr iaith Gymraeg, ac yn adlewyrchu ffurfiau newidiol cyhoeddi.

#### HCSLICC 13

Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn rhannu eu catalogau, er mwyn i ddefnyddwyr fedru gwneud un chwiliad drwy holl adnoddau llyfrgelloedd Cymru.

### 4.2. Dangosyddion ansawdd

#### DASLICC 8 Deunydd darllen cyfoes

a) Dylai awdurdodau llyfrgell sicrhau:

**naill ai o** leiaf 243 eitem am bob 1,000 o bobl yn y boblogaeth breswyl

**neu** leiafswm gwariant o £2,180 am bob 1,000 o bobl yn y boblogaeth breswyl bob blwyddyn.

Mae llyfrau ac e-lyfrau, cyfnodolion, deunydd clyweledol ac adnoddau electronig oll wedi'u cynnwys.

b) Dylai derbyniadau deunyddiau i'w benthycu yn ystod y flwyddyn (gan gynnwys deunyddiau electronig ar gyfer eu benthycu) gyfateb i o leiaf 11% o'r stoc fenthycu ar ddechrau'r flwyddyn.

#### DASLICC 9 Deunydd darllen priodol

Mae'r dangosydd hwn wedi'i gynllunio i sicrhau cydbwysedd priodol mewn adnoddau ar draws gwahanol rannau'r gymuned.

a) Dylai canran y gyllideb deunyddiau sy'n cael ei wario ar adnoddau i blant adlewyrchu canran y plant yn y boblogaeth breswyl, o fewn  $\pm 2$  bwynt canran.

b) O ran gwario ar brynu deunydd Cymraeg eu hiaith, dylid gwario:

**naill ai o** leiaf 4% o'r gyllideb deunyddiau

**neu** o leiaf £750 am bob 1,000 o bobl yn y boblogaeth breswyl sy'n siarad Cymraeg.

#### DASLICC 10 Mynediad ar-lein

a) Dylai pob llyfrgell sefydlog a theithiol ddarparu o leiaf un ddyfais sy'n rhoi mynediad i'r cyhoedd i'r Rhynggrwyd ac i gynnwys digidol ar y rhwydwaith. Dylai awdurdodau sicrhau cyfanswm cyfanredol ledled yr awdurdod o ddim llai na 9 dyfais o'r fath am bob 10,000 o'r boblogaeth breswyl. Mae cyfrifiaduron, gliniaduron, llechi a dyfeisiau symudol eraill oll wedi'u cynnwys.

b) Dylai'r holl fannau gwasanaeth sefydlog ddarparu mynediad diwifr i ddefnyddwyr ddod â'u gliniaduron neu eu dyfeisiau symudol eu hunain yno.

#### DASLICC 11 Defnyddio TGCh – % yr amser sydd ar gael i'w ddefnyddio gan y cyhoedd

Bydd awdurdodau'n adrodd:

- a) canran yr amser a neilltuwyd ar gyfer defnyddio offer TGCh sy'n cynnig mynediad i'r cyhoedd (h.y. cyfrifiaduron a dyfeisiau eraill a ddarperir gan y llyfrgell) sydd wedi'i ddefnyddio mewn gwirionedd gan y defnyddwyr.
- b) canran yr amser y mae gwasanaethau diwifr ar gael i'w ddefnyddio gan y cyhoedd.

Dylai'r rhain gael eu cydgrynhoi ar draws yr holl lyfrgelloedd yn yr awdurdod, gan gynnwys rhai teithiol.

### **DASLICC 12 Cyflenwi ceisiadau**

Mae'r dangosydd hwn yn mesur effeithlonrwydd y gwasanaeth llyfrgelloedd

cyhoeddus i ymateb i geisiadau am ddeunydd nad yw ar gael ar unwaith.

Bydd awdurdodau'n adrodd:

- a) canran y ceisiadau am ddeunyddiau yr hysbysir y defnyddiwr eu bod ar gael o fewn 7 diwrnod calendr i wneud y cais;
- b) canran y ceisiadau am ddeunyddiau yr hysbysir y defnyddiwr eu bod ar gael o fewn 15 diwrnod calendr i wneud y cais.

Caiff ceisiadau am ddeunydd cyn eu cyhoeddi eu cyfrif o'r dyddiad cyhoeddi. Rhaid cynnwys deunydd nad yw'n eiddo i'r llyfrgell ond y mae'n rhaid ei gael trwy ei brynu neu trwy fenthyciad rhwng llyfrgelloedd.



## 5. Arweinyddiaeth a datblygu

Mae'r hawliau a'r dangosyddion yn yr agwedd hon ar wasanaethau wedi'u cynllunio i sicrhau bod y gwasanaeth llyfrgell yn cael ei reoli'n broffesiynol gydag adnoddau digonol.

### 5.1. Hawliau craidd

#### HCSLICC 14

Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn hyrwyddo llyfrgelloedd er mwyn denu rhagor o bobl i elwa o'u gwasanaethau.

#### HCSLICC 15

Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn ymgynghori â defnyddwyr yn rheolaidd i gasglu eu barn ar y gwasanaeth a chasglu gwybodaeth am eu hanghenion newidiol.

#### HCSLICC 16

Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn gweithio mewn partneriaeth i agor mynediad at adnoddau holl lyfrgelloedd Cymru.

#### HCSLICC 17

Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu mynediad at strategaeth, polisïau, amcanion a gweledigaeth y gwasanaeth llyfrgell, mewn print ac ar-lein, mewn amrywiaeth o ieithoedd fel y bo'n briodol i'r gymuned.

#### HCSLICC 18

Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu proses gwyno sy'n glir, yn amserol ac yn dryloyw ar gyfer adegau pan fo rhywbeth yn mynd o'i le.

### 5.2. Dangosyddion ansawdd

#### DASLICC 13 Lefelau staffio a chymwysterau

- a) Rhaid i awdurdodau llyfrgell sicrhau lefel staffio ar gyfer y gwasanaeth o 3.6 (cyfwerth ag amser llawn) am bob 10,000 o'r boblogaeth breswyl. Mae staff nad ydynt yn gweithio yn uniongyrchol i ddarparu gwasanaethau llyfrgell (e.e. glanhawyr) wedi'u heithrio.
- b) Ni ddylai cyfanswm nifer y staff (cyfwerth ag amser llawn) sydd â chymwysterau cydnabyddedig mewn llyfrgellyddiaeth,

gwyddor gwybodaeth neu reoli gwybodaeth fesul 10,000 o'r boblogaeth breswyl syrthio yn is na 0.65. Gellir cynnwys staff sydd â chymwysterau mewn meysydd cytras, megis TGCh, rheoli hamdden neu dreftadaeth neu addysg a dysgu, yn y cyfrifiadau os oes ganddynt swyddi sy'n gofyn am y cymwysterau hynny, a phan fo'r cymwysterau sydd ganddynt yn berthnasol i'w rolau a'u swyddogaethau presennol yn y gwasanaeth llyfrgell.

- c) Rhaid i reolwr gweithredol dynodedig y gwasanaeth llyfrgell

**naill ai** fod â chymwysterau cydnabyddedig mewn llyfrgellyddiaeth, gwyddor gwybodaeth neu reoli gwybodaeth

**neu** fod wedi gwneud hyfforddiant perthnasol mewn rheolaeth llyfrgell o fewn y tair blynedd diwethaf.

Bydd awdurdodau hefyd yn adrodd:

- i. ymhle y mae safle'r swydd hon yn strwythur rheoli'r awdurdod lleol;
  - ii. y swydd sydd gan y llyfrgellydd proffesiynol uchaf ei safle (os yw'n wahanol); ac
  - iii. ymhle y mae'r swydd honno yn strwythur rheoli'r awdurdod lleol.
- d) Dylai o leiaf 1% o gyfanswm oriau gwaith staff gael ei dreulio mewn hyfforddiant a datblygiad personol/proffesiynol yn ystod y flwyddyn. Dylid annog holl staff y llyfrgell i ymgymryd â hyfforddiant a datblygiad perthnasol.
  - e) Gall awdurdodau llyfrgell gynnig cyfle i aelodau'r gymuned wirfoddoli i gefnogi gwasanaethau llyfrgell ychwanegol. Gall cyfleoedd o'r fath, er enghraifft, wella sgiliau bywyd a chyflogadwyedd unigolion, gan gyfrannu at fynd i'r afael â chanlyniadau tlodi.

Pan fo'r gymuned yn rhan o ddarparu'r gwasanaeth llyfrgell mewn cangen, rydym yn disgwyl bod staff ar gyflog yn gweithio ochr yn ochr â'r gwirfoddolwyr yn y llyfrgell.

Mae'n rhaid i awdurdodau llyfrgell sy'n defnyddio staff gwirfoddol i ddarparu gwasanaethau ychwanegol sicrhau'r canlynol:

- bod cydlynedd gwirfoddolwyr penodol o blith staff proffesiynol parhaol y gwasanaeth llyfrgell yn cydlynu'r rhannau hynny o'r gwasanaeth sy'n cynnwys gweithwyr gwirfoddol;
- bod pob gwirfoddolwr yn derbyn disgrifiad ysgrifenedig o'i rôl;
- y bodlonir gofynion cyfreithiol ar gyfer pob gwirfoddolwr mewn perthynas â'u rôl;
- bod hyfforddiant cynefino a hyfforddiant cyson yn cael ei roi i'r holl wirfoddolwyr;
- bod gwirfoddolwyr yn cael eu goruchwyllo'n briodol; ac
- eu bod wedi cyflawni, neu wrthi'n gweithio tuag at, achrediad Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr.<sup>5</sup>

Bydd awdurdodau'n adrodd:

- i. cyfanswm nifer y gwirfoddolwyr

- ii. cyfanswm nifer oriau gwirfoddolwyr yn ystod y flwyddyn

- iii. a oes ganddynt statws achrediad sy'n gysylltiedig â'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol/NOS neu a ydynt yn gweithio tuag at yr achrediad hwn.

#### DASLICC 14 Gwariant gweithredol

Yn yr hinsawdd economaidd bresennol ni chredir ei bod yn briodol gosod targed ar gyfer gwariant llyfrgell, ond parheir i graffu'n fanwl ar y gwariant ar y gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus.

Bydd awdurdodau'n adrodd:

- a) cyfanswm y gwariant refeniw am bob 1,000 o'r boblogaeth breswyl;
- b) canrannau'r cyfanswm hwn a wariwyd ar staff, deunyddiau ac adnoddau gwybodaeth, cynnal a chadw, atgyweirio ac adnewyddu offer ac adeiladau, a chostau gweithredol eraill;
- c) cyfanswm gwariant cyfalaf am bob 1,000 o'r boblogaeth breswyl.

#### DASLICC 15 Cost am bob ymweliad

Mae'r dangosydd hwn yn ddefnyddiol wrth gyfiawnhau gwario arian cyhoeddus, gan roi



procsi ar gyfer gwerth am arian, ond mae'n rhaid ei ddehongli ar y cyd â dangosyddion demograffig a dangosyddion ansawdd yn ymwneud â defnydd. Mae'n mesur cost y gwasanaeth llyfrgell mewn cysylltiad â nifer yr ymweliadau â llyfrgelloedd, gan gynnwys ymweliadau rhithwir.

Bydd awdurdodau'n adrodd:

- Cyfanswm y gwariant refeniw wedi'i rannu â swm nifer yr ymweliadau corfforol â safleoedd llyfrgell (gan gynnwys rhai teithiol) yn ogystal â nifer yr ymweliadau â gwefan y llyfrgell yn ystod y flwyddyn.

Dylai awdurdodau sy'n llenwi ffurflen llyfrgelloedd cyhoeddus CIPFA ddefnyddio'r un data yma.

### **DASLICC 16 Oriau agor**

a) Dylai llyfrgelloedd cyhoeddus Cymru sicrhau cyfanswm oriau agor ledled yr holl fannau gwasanaeth a weinyddir gan yr awdurdod (sydd wedi'u ddiffinnio fel manau sy'n darparu mynediad at ddeunyddiau, staff ac ystod o wasanaethau llyfrgell) nad yw'n llai na 120 awr y flwyddyn am bob 1,000 o drigolion.

b) Mae rhan hon y dangosydd yn ymwneud â pha mor ddigonol yw rhaglen cynnal a chadw'r gwasanaeth llyfrgell a'i strategaeth staffio.

Bydd awdurdodau'n adrodd:

- i. cyfanswm nifer yr oriau yr oedd manau gwasanaeth sefydlog wedi'u cau heb gynllunio gwneud hynny neu mewn argyfwng oherwydd diffyg yn yr adeilad neu staff ddim ar gael, a chyfrifo'r cyfanswm fel canran o gyfanswm yr oriau a gynlluniwyd i fod ar agor ar gyfer yr holl fannau gwasanaeth sefydlog yn ystod y flwyddyn;
- ii. nifer arosfannau'r llyfrgell deithiol ac/neu wasanaethau cludo i'r cartref a gollwyd o ganlyniad i ddiffyg yn y cerbyd neu oherwydd nad oedd staff ar gael, fel canran o gyfanswm nifer arosfannau'r llyfrgell deithiol ac/neu wasanaethau cludo i'r cartref a gynlluniwyd yn ystod y flwyddyn.

Nid yw peidio ag agor ar adeg oriau a drefnwyd o ganlyniad i dywydd gwael, neu unrhyw achos arall y tu hwnt i reolaeth y llyfrgell, yn cael eu cynnwys.







## 6. Adrodd, monitro ac asesu

Mae'r gofynion statudol ynghylch darparu gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru i'w cael yn *Neddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964*. Bydd y dangosyddion perfformiad a restrir yma yn helpu Llywodraeth Cymru wrth asesu a yw awdurdodau lleol yng Nghymru yn cydymffurfio â'u dyletswyddau o dan Ddeddf 1964 ai peidio, ac wrth asesu effeithlonrwydd dull darparu gwasanaethau llyfrgell yng Nghymru.

### 6.1. Gofynion adrodd

Bob blwyddyn, bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol adrodd am eu perfformiad yn erbyn gwahanol elfennau'r fframwaith. Bydd y ffurflen yn cynnwys sgôr cydymffurfio yn erbyn yr hawliau craidd – gan nodi a yw'r rhain wedi'u cyflawni'n llawn, eu cyflawni'n rhannol, neu heb eu cyflawni, ynghyd â disgrifiad/eglwriad priodol lle bo hynny'n berthnasol. O ran pob hawl nad yw wedi'i fodloni'n llawn, dylai'r ffurflen adrodd hefyd gynnwys cymhariaeth â'r flwyddyn flaenorol, a chynllun ar gyfer gwella yn y flwyddyn ganlynol.

Bydd ffurflenni awdurdodau unigol hefyd yn cynnwys data sy'n dangos perfformiad yn erbyn dangosyddion ansawdd y fframwaith hwn, ynghyd â chymhariaeth â'r flwyddyn flaenorol. Pan fo perfformiad wedi dirywio, dylai'r ateb gynnwys strategaeth yr awdurdod i atal y dirywiad. Pan nad yw targedau wedi cael eu cyrraedd, dylai'r ateb gynnwys naratif yn amlinellu cynigion ac amserlen i gyflawni'r targedau hyn. Bydd y data yn cael ei ddwyn ynghyd i roi trosolwg o wasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru yn ei chyfanrwydd, er mwyn cynorthwyo wrth adnabod arfer da, a nodi meysydd lle gall fod angen gweithredu i sicrhau gwelliannau.

Nid yw'n hawdd mesur effaith gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus, sef y gwahaniaeth y mae'r gwasanaethau hynny yn ei wneud i fywydau pobl. Am y rheswm hwn, bydd elfen ansoddol yn cael ei gynnwys yn yr adrodd. Dylai ffurflen adrodd pob awdurdod gynnwys o leiaf un, ond dim mwy na phedair, astudiaeth

achos penodol yn disgrifio'r effaith y mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi ei gael ar unigolyn, neu ar grŵp o unigolion, yn ystod y flwyddyn. Disgwylir i hyn ddisgrifio'r defnydd a wneir o'r gwasanaeth, a'r gwahaniaeth a gafodd y defnydd hwnnw ar yr unigolion neu'r grŵp. Rhoddir canllawiau ar fformat yr astudiaethau achos a'r deunydd priodol i'w gynnwys. Bydd astudiaethau achos o'r fath yn datblygu'n ffynhonnell dystiolaeth werthfawr ar effaith a gwerth, gan hyrwyddo lledaenu arfer da ledled Cymru.

Ail elfen ansoddol yr adrodd fydd naratif sy'n dangos sut mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at agendâu awdurdodau lleol a nodau strategol a blaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru. Diben y llinyn adrodd hwn yw annog llyfrgelloedd i fod yn ymwybodol o'r ysgogwyr cymdeithasol ehangach (e.e. iechyd a lles; cynhwysiant digidol, gan gynnwys llythrennedd gwybodaeth; llythrennedd, gan gynnwys darllen a'r cysylltiad â llythrennedd digidol; ymgysylltu â'r gymuned a buddiannau'r gymuned, gan gynnwys teuluoedd, plant a phobl ifanc, pobl hŷn, diwygio lles; iaith a diwylliant Cymru). Dylai gwasanaethau fedru gallu dangos eu bod yn cyfrannu at yr ysgogwyr hyn, a dangos yn glir pa mor berthnasol a gwerthfawr ydynt i wneuthurwyr polisi ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol.

Bydd yn ofynnol hefyd i awdurdodau gadarnhau bod adborth ar ffurf barn ar berfformiadau pob gwasanaeth llyfrgell am y flwyddyn wedi cael ei ystyried yn ddigonol gan yr aelod sy'n gyfrifol am wasanaethau llyfrgell a chan y gweithdrefnau perthnasol yn ymwneud â rheoli, craffu a monitro perfformiad. Rhoddir templed adrodd i awdurdodau i sicrhau bod adroddiadau yn gyson ledled Cymru a bod modd eu cymharu.

### 6.2. Gweithdrefnau monitro ac asesu

Bydd y broses monitro ac asesu yn cael ei harwain gan CyMAL: Amgueddfeydd Archifau a Llyfrgelloedd Cymru is-adran o Lywodraeth Cymru, a bydd yn dilyn y patrwm

a sefydlwyd mewn fframweithiau blaenorol. Dylid cyflwyno'r ffurflenni blynyddol erbyn y dyddiad cau bob blwyddyn, a bydd adolygydd annibynnol a grŵp cyfeirio cydweithwyr yn eu harchwilio i sicrhau eu bod yn gyflawn. Bydd yr adolygydd annibynnol wedyn yn llunio adroddiad adborth ysgrifenedig ffurfiol yn sôn am bob agwedd ar y fframwaith, gan gynnwys yr holl ddangosyddion ansawdd a'r elfennau naratif, a chyflwynir yr adroddiad hwn i bob awdurdod yn yr hydref, mewn pryd i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a godwyd fel rhan o'u proses ffurfiol i gynllunio gwasanaethau. Anfonir yr adborth hwn yn ffurfiol at brif weithredwyr awdurdodau llyfrgell a hefyd at arweinwyr cynghorau, swyddogion craffu neu reolwyr perfformiad yn ogystal ag at reolwyr gwasanaethau llyfrgell. Bydd yr adroddiadau blynyddol yn cael eu gwneud yn gyhoeddus, drwy dudalennau gwe CyMAL.

Bydd yr adolygydd annibynnol yn paratoi trosolwg cryno bob blwyddyn, ac yn cynnwys dadansoddiad o berfformiadau yn gyffredinol yn erbyn yr hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd, ynghyd â thueddiadau arwyddocaol o fewn y perfformiadau hynny. Cyfrifir y perfformiadau uchaf, isaf a chanolrif yng Nghymru ar gyfer pob dangosydd. Caiff y dadansoddiad cyffredinol ei yrru i bob awdurdod lleol. Ar ddiwedd cyfnod y fframwaith cyhoeddir adroddiad cryno drwy wefan CyMAL.

Cyflwynir canfyddiadau'r prosesau hyn i sylw'r Gweinidog perthnasol yn flynyddol, gan amlygu cyflawniadau a thueddiadau yn ogystal

â meysydd sy'n achosi problemau, megis perfformiadau sy'n dirywio, achosion o beidio â chydymffurfio neu fethu dro ar ôl tro, ynghyd â diagnosis o'r achosion lle bo hynny'n bosibl. Tynnir sylw'r Gweinidog hefyd at welliannau pendant mewn perfformiadau a thueddiadau tuag at wella.

Mae'r hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd a nodir yn y fframwaith cytundeb hwn yn ymwneud ag agweddau ar y gwasanaeth llyfrgell y mae Llywodraeth Cymru yn ystyried sy'n angenrheidiol – ond nad ydynt o reidrwydd yn ddigonol – ar gyfer darparu gwasanaeth llyfrgell cynhwysfawr ac effeithlon o dan amodau Adran 10 *Deddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus 1964*.

Mewn achos o fethu â darparu gwasanaeth llyfrgell cynhwysfawr ac effeithlon, gall Llywodraeth Cymru gychwyn ymchwiliad, rhoi cyfarwyddyd a throsglwyddo swyddogaethau'r awdurdod llyfrgelloedd i'r Llywodraeth ei hun neu i awdurdod/sefydliad arall. Gellid troi at sancsiynau mewn achosion, er enghraifft, pan nad yw nifer sylweddol yr hawliau craidd a'r targedau perfformiad wedi'u cyflawni, pan fo methiant cyson i gyrraedd perfformiad cyfartalog awdurdodau tebyg yng Nghymru a dim tystiolaeth o welliant dros gyfnod o amser, neu pan fo perfformiad ledled y gwasanaeth yn ei gyfanrwydd yn gostwng yn gyson flwyddyn ar ôl blwyddyn.

Hyd yma, ni fu raid gweithredu unrhyw un o'r sancsiynau hyn oherwydd trafodaeth adeiladol rhwng y cyrff perthnasol.



# Atodiad: Rhestr o hawliau craidd a dangosyddion

## Cwsmeriaid a chymunedau 13

### Hawliau craidd 13

Sicrhau bod staff cyfeillgar, gwybodus a chymwys wrth law i helpu.

Cynnal amrywiaeth o weithgareddau i gefnogi dysgu, mwynhad a galluogi defnyddwyr i gael y budd mwyaf o'r adnoddau sydd ar gael.

Darparu mynediad i ystod o wasanaethau ac adnoddau i gefnogi dysgu gydol oes, lles a datblygiad personol, a chyfranogiad cymunedol.

### Dangosyddion ansawdd 13

Gwneud gwahaniaeth 13

Bodlonrwydd cwsmeriaid 13

Cymorth ar gyfer datblygiad unigol 14

Hyfforddiant i ddefnyddwyr 14

## Mynediad i bawb 17

### Hawliau craidd 17

Llyfrgelloedd ar agor i holl aelodau eu cymunedau.

Yn rhad ac am ddim i ymuno â hwy.

Darparu lle diogel, deniadol a hygyrch sydd ag oriau agor addas.

Darparu adnoddau gwybodaeth i unigolion a grwpiau sydd ag anghenion arbennig.

### Dangosyddion ansawdd 17

Lleoliad manau gwasanaeth 17

Defnydd o'r llyfrgell 17

Presenoldeb defnyddwyr yn nigwyddiadau'r llyfrgell am bob 1,000 yn y boblogaeth 18

## Dysgu am oes 19

### Hawliau craidd 19

Benthyca llyfrau am ddim.

Cynnig mynediad am ddim i wybodaeth.

Darparu defnydd am ddim o'r Rhynggrwyd a chyfrifiaduron, gan gynnwys diwifr.

Cynnig defnydd am ddim o adnoddau gwybodaeth ar-lein 24 awr y dydd.

Darparu mynediad at adnoddau o ansawdd uchel mewn amrywiaeth o fformatau, gan gynnwys rhai yn yr iaith Gymraeg, ac yn adlewyrchu ffurfiau newidiol cyhoeddi.

Rhannu eu catalogau, er mwyn medru gwneud un chwiliad drwy holl adnoddau llyfrgelloedd Cymru.

### Dangosyddion ansawdd 19

Deunydd darllen cyfoes 19

Deunydd darllen priodol 19

Mynediad ar-lein 19

Defnyddio TGCh - % yr amser sydd ar gael i'w ddefnyddio gan y cyhoedd 19

Cyflenwi ceisiadau 20

## Arweinyddiaeth a datblygu 21

### Hawliau craidd 21

Hyrwyddo llyfrgelloedd er mwyn denu rhagor o bobl i elwa o'u gwasanaethau.

Ymgynghori â defnyddwyr yn rheolaidd i gasglu eu barn ar y gwasanaeth a chasglu gwybodaeth am eu hanghenion newidiol.

Gweithio mewn partneriaeth i agor mynediad at adnoddau holl lyfrgelloedd Cymru.

Darparu mynediad at strategaeth, polisiau, amcanion a gweledigaeth y gwasanaeth llyfrgell, mewn print ac ar-lein, mewn amrywiaeth o ieithoedd fel y bo'n briodol i'r gymuned.

Darparu proses gwyno glir, amserol a thryloyw ar gyfer adegau pan fo rhywbeth yn mynd o'i le.

### Dangosyddion ansawdd 21

Lefelau staffio a chymwysterau 21

Gwariant gweithredol 22

Cost am bob ymweliad 22

Oriau agor 23

## Diolch am eich diddordeb yn yr Ymgynghoriad ar y Gwasanaeth Llyfrgell

Croeso i chi gwblhau'r holiadur ar-lein: [www.gwynedd.gov.uk/ArolwgLlyfrgelloedd](http://www.gwynedd.gov.uk/ArolwgLlyfrgelloedd) neu ar bapur cyn 3 Gorffennaf.

Fel pob cyngor yng Nghymru, mae Cyngor Gwynedd yn wynebu toriadau sylweddol yn y cyllid y mae'n ei gael gan y Llywodraeth. Golyga hyn y bydd llawer llai o arian ar gael i dalu am y gwasanaethau hyn. Ar yr un pryd, mae'r pwysau ar wasanaethau'r Cyngor yn cynyddu'n aruthrol. O rhan y Gwasanaeth Llyfrgell, yn ddibynnol ar y cyllid sydd ar gael, mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn anelu i ateb gofynion statudol drwy barhau i gynnal:

- 9 prif adeilad llyfrgell yn Abermaw, Bangor, Blaenau Ffestiniog, Caernarfon, Dolgellau, Porthmadog, Pwllheli, Tywyn, Y Bala,
- Llyfrgelloedd Teithiol i gymunedau gwledig,
- Gwasanaeth i'r Cartref i Unigolion a Grwpiau Bregus
- Gwasanaeth Llyfrgell a Gwybodaeth deithiol i blant a phobl ifanc.

## Thank you for your interest in the Consultation on the Library Service

You are welcome to complete the questionnaire on-line: [www.gwynedd.gov.uk/LibrariesSurvey](http://www.gwynedd.gov.uk/LibrariesSurvey) or on paper by 3 July.

Like every council in Wales, Gwynedd Council is facing severe cuts in the budget it receives from the Government. This means there will be far less money to pay for these services.

At the same time the Council's services are facing increasing pressures. In terms of the Library Service, depending on the size of the budget available, the Council currently aims to fulfill statutory requirements by continuing to maintain:

- 9 main library buildings at Barmouth, Bangor, Blaenau Ffestiniog, Caernarfon, Dolgellau, Porthmadog, Pwllheli, Tywyn, Y Bala,
- Mobile Libraries to rural communities
- A Home Service to vulnerable individuals and groups
- A mobile Library and Information Service for children and young people

1. Pa un o'r datganiadau canlynol sy'n disgrifio'r effaith bydd y newidiadau arfaethedig yn cael arnoch chi? **Ticiwch un blwch os gwelwch yn dda**

**Ni fydd** y newidiadau yn cael effaith arnaf

Bydd y newidiadau yn cael **rhywfaint o effaith** arnaf

Bydd y newidiadau yn cael **effaith sylweddol** arnaf

Nid wyf yn gwybod

Os disgwylwch i'r newidiadau gael effaith beth fydd y rhain?

1. Which statement below describes the effect the proposed changes will have on you? **Please tick one box**

These changes **won't** have any effect on me

These changes will have **some effect** on me

These changes will have a **major effect** on me

I don't know

If you expect these changes to have an effect what will these be?

2. O ystyried yr her mae Cyngor Gwynedd yn ei wynebu pa awgrymiadau hoffech eu rhoi ar gyfer: ...eich Gwasanaeth Llyfrgell **yn lleol?** **Byddwch mor benodol a manwl â phosibl.**

2. Considering the challenge Gwynedd Council is facing what suggestions would you like to make regarding: ...your Library Service **locally?** **Be as specific and detailed as possible.**

....y Gwasanaeth Llyfrgell **Gwynedd gyfan?** **Byddwch mor benodol a manwl â phosibl.**

.... your library service **throughout Gwynedd?** **Be as specific and detailed as possible.**

3. Os oes agwedd pwysig ar goll o weledigaeth y Cyngor: 'Llyfrgelloedd Gwynedd – Mwy na Llyfrau' sydd yn y daflen, nodwch beth ydyw isod.

3. If there is an important aspect missing from the Council's vision: 'Gwynedd's Libraries – More than Books' in the information leaflet, please note what it is below.

4. O ystyried bydd rhaid i Gyngor Gwynedd gwneud penderfyniadau anodd, nodwch ar raddfa o 1 - 6 pa mor bwysig y bydd i'r Gwasanaeth Llyfrgell gynnig y canlynol yn y dyfodol?

Rhowch 1 ar y pwysicaf a 6 ar y lleiaf pwysig

Ystod eang o lyfrau print a digidol

Digwyddiadau a gweithgareddau e.e. amseroedd stori, grwpiau darllen iechyd a lles, sesiynau technoleg gwybodaeth

Mynediad rhad ac am ddim i gyfrifiaduron

Mynediad at ddeunydd cyfeirio digidol /ar lein e.e. Encyclopedia Britannica

Teclynnau darllen digidol i'w benthyg

Oriau agor hirach a mwy hyblyg yn y prif lyfrgelloedd

5. Os bydd rhaid i'r Gyngor weithredu toriadau ariannol pellach yn y dyfodol pa newidiadau ychwanegol i ddarpariaeth y Gwasanaeth Llyfrgell a ddylid eu hystyried?

4. Considering that Gwynedd Council will have to make difficult decisions, please note on a scale of 1 - 6 how important will it be for the Library Service to offer the following in the future?

Please put 1 for the most important and 6 for the least

A broad range of print and digital books

Events and activities e.g. story times, health and well-being reading groups, Information Technology sessions

Free access to computers

Access to digital reference material on-line e.g. Encyclopedia Britannica

E reading devices for loan

Extend and adapt the opening hours of the main libraries

5. If the council has to make further financial cuts in the future what additional changes to the Library Service provision should be considered?

6. Pa lyfrgell(oedd) neu wasanaeth teithiol ydych chi'n ei yn ddefnyddio? Nodwch 'DIM' os nad ydych yn ddefnyddiwr.

6. Which library(ies) or mobile service do you use? Please note 'NONE' if you're not a service user.

7. Mae Cyngor Gwynedd yn cynnal arolygon cyhoeddus rheolaidd sy'n rhoi cyfle i chi gael dweud eich dweud. Os hoffech i ni eich hysbysu o'r cyfleoedd hyn, gadewch eich manylion cyswllt isod. (Enw, rhif ffôn, cyfeiriad a chyfeiriad e-bost os yn bosib)

7. Gwynedd Council undertakes regular public opinion surveys which provide an opportunity for you to have your say. If you would like us to inform you of these opportunities please leave your contact details below. (Name, phone number, address and e-mail address if possible)

Bydd eich barn a'ch ymatebion yn cael eu trin yn gwbl ddiennw. Mae Cyngor Gwynedd yn cydymffurfio a Deddf Diogelu Data (1998) Oes oes gennych gwestiynau ynglŷn â'r holiadur yma, cysylltwch gyda Siân Shakespear ar 01248 351378 neu info@sianshakespear.co.uk

Your opinion and responses will be treated in total confidence. Gwynedd Council complies with the Data Protection Act (1998) If you have any questions about this questionnaire, contact Siân Shakespear on 01248 351378 or info@sianshakespear.co.uk

### Gwybodaeth amdanoch chi

Byddwn yn ddiolchgar pe baech yn gallu darparu'r wybodaeth isod. Byddwn yn casglu'r wybodaeth i bwrpas monitro'n unig, a bydd pob ymateb yn gwbl gyfrinachol. Cewch ddewis peidio ag ateb unrhyw gwestiwn neu gwestiynau os nad ydych yn dymuno gwneud hynny.

1. Cod Post \_\_\_\_\_

2. A ydych yn: Ddyn  Ddynes   
Meddwl am fy hunan mewn ffordd arall

3. Pa grŵp oedran ydych chi'n perthyn iddo?  
17 neu iau  18 – 29  30 – 39  40 – 49   
50 – 59  60 – 69  70 neu hŷn

4. A ydych yn ystyried bod gennych anabledd (yn ôl diffiniad Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995?)

- Rwyf yn gweld fy hunan fel person anabl
- Nid wyf yn gweld fy hunan fel person anabl

Mae Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 yn disgrifio rhywun anabl fel unrhyw un "gyda nam corfforol neu feddyliol sydd ag effaith andwyol sylweddol a thymor-hir ar ei gallu i wneud gweithgareddau beunyddiol normal."

**Diolch am gwblhau'r holiadur hwn. Dychwelwch i'ch Llyfrgell leol**

### Information about you

We would be grateful if you could provide the information below. We collect information for monitoring purposes only, and all responses are completely confidential. You can choose not to answer any question or questions if you do not want to.

1. Post Code \_\_\_\_\_

2. Are you: Male  Female   
Consider of yourself in another way

3. What age group do you belong to?  
17 or younger  18 – 29  30 – 39  40 – 49   
50 – 59  60 – 69  70 or older

4. Do you consider yourself to have a disability (as defined by the Disability Discrimination Act 1995?)

- I see myself as a disabled person
- I do not see myself as a disabled person

Disability Discrimination Act 1995 describes a disabled person as anyone "with a physical or mental impairment that has a substantially adverse and long-term effect on being able to do normal daily activities."

**Thank you for completing this questionnaire. Return to your local library**

## Holiadur Plant Gwynedd

### Gwasanaeth Llyfrgell Gwynedd

Mae gan Gwasanaeth Llyfrgell Gwynedd **17** llyfrgell a **4** fan Llyfrgell ar hyn o bryd OND mae arian yn brin ac mae angen torri ar faint o arian mae Gwynedd yn ei wario. **Rydym eisiau gwybod beth sy'n bwysig i chi o ran eich Gwasanaeth Llyfrgell er mwyn gwneud penderfyniadau.**



### Rhowch gylch o gwmpas yr ateb sy'n gywir i chi

Ydych chi'n defnyddio llyfrgell?  Ydw  Nac ydw

Pa lyfrgell neu Lori Ni rydych yn ei ddefnyddio?

Ydych chi'n darllen llyfrau:

Ar bapur

Ar kindle/ipad/smartphone

Dim

Rhowch rhif o 1 - 6 i ddangos pa mor bwysig yw'r pethau yma i chi. **1- mwyaf pwysig; 6 lleiaf pwysig**

Gallu benthg llyfrau papur

Cael digwyddiadau e.e. y Sialens Ddarllen Haf

Mynd ar gyfrifiadur

Gallu benthg e-lyfrau

Gallu benthg kindles neu i-pads

Bod y llyfrgelloedd ar agor ar ôl ysgol

Beth arall sy'n bwysig i chi neu hoffech awgrymu o ran eich Llyfrgell?

*Mewn geiriau neu lun*

Pa oed ydych chi?

6-8 blwydd  9-11 blwydd



# Children's Questionnaire

## Gwynedd Library Service

At the moment Gwynedd Library Service has **17** libraries and **4** Library lorries BUT money is very short and it has to cut the amount of money it spends. **We want to know what is important to you about your Library Service for us to make decisions.**



### Put a circle around the correct answer for you

Do you use a library?

Yes      No

Which library or Lori Ni do you use?

Do you read books:

On paper

On kindle/ipad/smartphone

None

Put a number from 1 - 6 to show how important these things are to you. **1 - most important; 6 least important**

Being able to borrow paper books

Events e.g. the Summer Reading Challenge

Use the computer

Being able to borrow e-books

Being able to borrow kindles or i-pads

That libraries are open after school

What else is important to you or you would like to suggest about your Library?

In words or a picture

What age are you?

6-8 years

9-11 years

# Questionnaire

**ATODIAD 3 / APPENDIX 3 AMLINELLIAD TRAFOD SESIYNAU GALW-HEIBIO  
LLYFRGELLOEDD RHAN AMSER/ DISCUSSION OUTLINE FOR  
DROP-IN SESSIONS PART TIME LIBRARIES**

- Map mawr o Wynedd gyda'r prif lyfrgelloedd a'r rhai rhan amser arno
- Tudalen fflip/fersiwn A3 - 'Pam Newid'

**Pam bod angen i Gyngor Gwynedd ad-drefnu'r Gwasanaeth Llyfrgell?**

Mae'n rhaid i Wasanaeth Llyfrgell Gwynedd:

- Wneud arbedion ariannol sylweddol fel pob gwasanaeth arall o fewn y Cyngor - o leiaf 25% o'i chyllideb erbyn 2017/18,
  - Baratoi at y dyfodol digidol,
  - Ddarparu gwasanaeth safonol i bob rhan o'r gymdeithas ond gyda llai o arian,
  - Gyrraedd disgwyliadau Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru.
- Tudalen fflip – Eich gwasanaeth llyfrgell chi – newidiadau posibl

**Y ddarpariaeth**

Yn ddibynnol ar y cyllid sydd ar gael, mae'r Cyngor yn anelu i ateb y gofynion statudol drwy barhau i gynnal

- 9 prif lyfrgell yn Abermaw, Bangor, Blaenau Ffestiniog, Caernarfon, Dolgellau, Porthmadog, Pwllheli, Tywyn, Y Bala;
- Llyfrgelloedd Teithiol
- Gwasanaeth Teithiol i'r Cartref
- Llyfrgell Deithiol i Blant a Phobl Ifanc

**Mae'n debyg na fydd y Cyngor yn gallu parhau i gynnal yr adeilad hwn fel rhan o Wasanaeth Llyfrgell Gwynedd.**

Dyma rhai opsiynau ar gyfer y dyfodol:

**Opsiwn A: Llyfrgell Gymunedol yn yr adeilad presennol**

Y Gwasanaeth Llyfrgell yn parhau i gyflogi staff, cynnal lefel stoc safonol a mynediad cyhoeddus i'r we. Byddai'r gymuned yn gyfrifol am:

- yr adeilad a'r holl gostau cynnal;
- gynnal gweithgareddau eraill o'r adeilad;
- agor a chau'r llyfrgell;
- ehangu'r oriau agor drwy ddefnyddio gwirfoddolwyr.

### **Opsiwn B: Dolen Gymunedol**

Bydd stoc y llyfrau ac eitemau benthyg ar gyfer plant ac oedolion yn cael ei chyfnewid yn fisol gan y Gwasanaeth Llyfrgell mewn adeilad arall yn y gymuned. Bydd cyfrifiadur ar gael er mwyn i unigolion osod ceisiadau dros y wê. Byddai'r stoc yn cael ei goruchwylio gan wirfoddolwyr a/neu swyddogion y sefydliad lle mae'r ddolen.

### **Opsiwn C: Pwynt Casglu Cymunedol**

Man lle gall y cyhoedd ymuno â'r gwasanaeth llyfrgell, casglu a dychwelyd eitemau ac archebu eitemau drwy gyfrifiadur. Bydd y pwynt o fewn adeilad cymunedol gyda chytundeb lefel gwasanaeth.

- Siart fflip gwag 1: Beth yw eich pryderon?
- Siart fflip gwag 2: Pa sylwadau sydd gennych am yr opsiynau?
- Siart fflip gwag 3: Pa awgrymiadau sydd gennych?

### **Blaenoriaethau'r dyfodol / future priorities**

Cymrych un opsiwn o bob pentwr a'u rancio yn ol pa mor pwysig fydd pob un yn y dyfodol i chi :

1 – mwyaf pwysig; 6 – lleiaf pwysig

- Teclynnau darllen digidol
- Mynediad i gyfrifiaduron
- Digwyddiadau a gweithgareddau
- Oriau agor prif lyfrgelloedd estynedig/mwy hyblyg
- Mynediad at ddeunydd cyfeirio ar-lein
- Ystod eang o lyfrau print a digidol

\*\*\*\*\*

- Large map of Gwynedd with main and part-time libraries
- Flipchart version of para from leaflet – 'Why change'

### **Why does Gwynedd Council need to reorganise the Library Service?**

Gwynedd Library Service has to:

- make substantial savings in line with other Council services - at least 25% of its budget by 2017/18,
- prepare for the digital future,
- provide a service of a high standard to every part of society with less money,
- meet the Welsh Public Libraries Standards.

All points above fully explained.

- Flipchart version of:

### **The Provision**

Depending on the funding available, the Council aims to meet statutory requirements by continuing to maintain...

- 9 main libraries at Barmouth, Bangor, Blaenau Ffestiniog, Caernarfon, Dolgellau, Porthmadog, Pwllheli, Tywyn, Y Bala.
  - a Mobile Library
  - a Home Library Service
  - a Mobile Library and Information service for young people.
- Flipchart – Your Library Service – the likely/possible change

**There's a likelihood that the Council will not be able to continue to maintain this building as part of the library service.**

Options for the future are:

#### **Option A: Community Library in the current building**

The Library Service continues to employ staff and the current stock of items and public access to computers/the web. The community to be responsible for:

- the building and all the maintenance costs,
- organising activities in the building;
- opening and closing the building;
- extending the opening hours with the help of volunteers.

#### **Option B: Community Link**

A stock of books and items for children and adults to borrow to be exchanged monthly by the Library Service in another building in the community. A computer will be available for adults to order over the web. The stock to be managed by volunteers/or staff of the organisation hosting the link.

#### **Option C: Community Collection Point**

A place/space where people can join the service, collect and return items and order items via a computer. This would be in a public/community building with a service level agreement.

- Empty flipchart 1: What are your concerns?
- Empty flipchart 2: What comments do you have about the options?
- Empty flipchart 3: What suggestions do you have?
- Your priorities regarding your Library Service in the future.

How important is it for the library service to provide the following in the future?

1 – most important; 6 – least important

- A broad range of print and digital books
- Events and activities e.g. story times, health and well-being reading groups, Information Technology sessions
- Free access to computers
- Access to digital reference material on-line e.g. Encyclopedia Britannica
- E reading devices for loan
- Extend and adapt the opening hours of the main libraries

- Map mawr o Wynedd gyda'r prif lyfrgelloedd a'r rhai rhan amser arno
- Tudalen fflip/fersiwn A3 - 'Pam Newid'

**Pam bod angen i Gyngor Gwynedd ad-drefnu'r Gwasanaeth Llyfrgell?**

Mae'n rhaid i Wasanaeth Llyfrgell Gwynedd:

- Wneud arbedion ariannol sylweddol fel pob gwasanaeth arall o fewn y Cyngor - o leiaf 25% o'i chyllideb erbyn 2017/18,
  - Baratoi at y dyfodol digidol,
  - Ddarparu gwasanaeth safonol i bob rhan o'r gymdeithas ond gyda llai o arian,
  - Gyrraedd disgwyliadau Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru.
- Tudalen fflip – Eich gwasanaeth llyfrgell chi – newidiadau posibl

**Y ddarpariaeth**

Yn ddibynnod ar y cyllid sydd ar gael, mae'r Cyngor yn anelu i ateb y gofynion statudol drwy barhau i gynnal

- 9 prif lyfrgell yn Abermaw, Bangor, Blaenau Ffestiniog, Caernarfon, Dolgellau, Porthmadog, Pwllheli, Tywyn, Y Bala;
- Llyfrgelloedd Teithiol
- Gwasanaeth Teithiol i'r Cartref
- Llyfrgell Deithiol i Blant a Phobl Ifanc

Cwestiynau trafod

- Os bydd rhaid torri gwerth diwrnod o oriau mae'r llyfrgell ar agor pryd fuasai'n oddefol?
- Os bydd rhaid torri faint mae'r gwasanaeth yn buddsoddi yn y stoc beth buasai'n oddefol i'r gwasanaeth wario llai arno? Pa effaith gall hwn ei gael?
- Os bydd y Gwasanaeth yn gosod peiriant hunan-sganio pa effaith gall hwn ei gael?
- Unrhyw awgrymiadau?

\*\*\*\*\*

- Large map of Gwynedd with main and part-time libraries
- Flipchart version of paragraph from leaflet – ‘Why change’

### **Why does Gwynedd Council need to reorganise the Library Service?**

Gwynedd Library Service has to:

- make substantial savings in line with other Council services - at least 25% of its budget by 2017/18,
  - prepare for the digital future,
  - provide a service of a high standard to every part of society with less money,
  - I meet the Welsh Public Libraries Standards.
- Flipchart version of :

### **The Provision**

Depending on the funding available, the Council aims to meet statutory requirements by continuing to maintain...

- 9 main libraries at Barmouth, Bangor, Blaenau Ffestiniog, Caernarfon, Dolgellau, Porthmadog, Pwllheli, Tywyn, Y Bala.
- a Mobile Library
- a Home Library Service
- a Mobile Library and Information service for young people.

Empty flip-charts with questions for discussion:

- If a day’s worth of opening hours has to be cut when would be tolerable?
- If the Service has to cut how much it invests in stock items what would be tolerable? What effect could this have?
- If the service installs a self-scanning machine what effect could this have?
- Any suggestions?

## **ATODIAD 5/APPENDIX 5 - BLAENORAETHAU GWASANAETH LLYFRGELL GWYNEDD/ GWYNEDD LIBRARY SERVICE PRIORITIES**

### **Datblygu sgiliau digidol**

Mae gan lyfrgelloedd rôl allweddol i gefnogi pobl i ddatblygu sgiliau digidol; a'u cefnogi i gael mynediad i wybodaeth a gwasanaethau ar-lein, gan gynnwys y gwasanaeth llyfrgell rithiol lle mae'n bosib dewis llyfr drwy'r we. Bydd y gwasanaeth digidol fydd ar gael i ddefnyddwyr llyfrgelloedd Gwynedd yn cynnwys:

- Mynediad drwy'r we 24/7 i'r gwasanaeth llyfrgell ar gyfer rheoli cyfrif, cadw ac adnewyddu eitemau, a chwilio'r catalog ar-lein
- Bydd modd i'r cyhoedd ymuno a chysylltu â'r gwasanaeth ar-lein / drwy e-bost / facebook / twitter
- Darparu mynediad i'r we am ddim
- Datblygu'r defnydd o, a mynediad at, dechnolegau symudol (tabledi, gliniaduron);
- Darparu gweithgareddau ac ymgyrchoedd i ddatblygu sgiliau a chynhwysiad digidol ymysg unigolion (ee cyrsiau Dechrau Darganfod; sesiynau TG sylfaenol)

### **Mynediad at wybodaeth**

Mae gan lyfrgelloedd rôl yn cefnogi pobl i gael mynediad at wybodaeth a gwasanaethau ar-lein yn y meysydd sy'n hanfodol i fywyd- fel gyrfaedd, swyddi, iechyd, gwybodaeth ariannol a budd-daliadau. Nod y gwasanaeth yw:

- Cynorthwyo pobl i gael mynediad at wybodaeth a gwasanaethau ar-lein
- Cynghori pobl ar ganfod gwybodaeth;
- Gweithredu fel 'Porth Gwybodaeth' i ddod a gwybodaeth gyhoeddus a gwybodaeth llywodraeth i gyrraedd trigolion lleol;

### **Hyrwyddo Iechyd a Lles**

Mae gan lyfrgelloedd rôl yn cefnogi pobl i fyw yn iach ac i hyrwyddo lles unigolion. Nod y gwasanaeth yw darparu: :

- Llyfrau ar Bresgripsiwn Oedolion a Theuluoedd
- Gwasanaeth Llyfrgell i'r Cartref i bobl fregus
- Mynediad ar-lein a gynorthwyr a gweithgareddau hybu iechyd y cyhoedd
- Cynllun Macmillan Gwybodaeth a Chyngor Iechyd a Lles (yn cynnwys Cancr a Salwch Tymor Hir)

### **Hyrwyddo Darllen**

Mae gan lyfrgelloedd ddyletswydd i sicrhau mynediad am ddim i ddeunydd darllen ac i hyrwyddo darllen plant, pobl ifanc ac oedolion. Nod y gwasanaeth yw -

- Cynnig llyfrau (print a digidol) am ddim ac adnoddau darllen
- Cynnig gofod cymunedol i drafod llyfrau a darllen



- Darparu mynediad i lyfrau a chylchgronau ar-lein
- Darparu gwasanaethau i gynulleidfaoedd targed megis plant a'u teuluoedd; y dall a'r rhannol ddall.

### **Developing Digital Skills**

Libraries have a role in supporting people to develop digital skills; to support them in accessing online information and services, including the virtual library service. Libraries have a role in promoting digital inclusion for Gwynedd's residents. The digital offering will include:

- 24/7 access to library services to manage an account, retain and renew items remotely, and to search through an online catalogue;
- the ability for users to join online and make contact online / by e-mail / facebook / twitter
- Provide free internet access
- Develop the use of, and access to mobile technology (tablets, laptops);
- Provide activities and campaigns to develop digital skills and inclusion among residents (eg. (Taster courses; basic IT sessions)

### **Access to Information**

Libraries have a role in supporting people to gain access to online information and services in the fields that are essential to life, such as careers, jobs, health, financial and benefits information.

Assisting people in using information is central to the offering, through:

- Assisting people to gain access to online information and services
- Advising people on finding information;
- Acting as an 'Information Portal' bringing public and government information within the reach of local residents;

### **Promoting Health and Well-being**

Libraries have a central role in supporting people to live healthily and to promote the well-being of individuals. This offering will include:

- Books on Prescription for Adults and Families
- Home Library Service for vulnerable people
- Supported online access and public health promotion activities
- Macmillan Information Scheme and Health and Well-being Advice (including Cancer and Long-term Illness)

### **Promoting Reading**

Libraries have a duty to ensure free access to reading material and to promote reading among children, young people and adults. This offering will include:-

- Offering free books (printed and digital) and reading material
- Offering a community space to discuss and read books
- Providing access to online books and magazines
- Providing services to target audiences such as children and their families, blind and partially sighted people.

## Atodiad 6 / Appendix 6 Tystiolaeth a gohebiaeth yr ymgynghoriad / Consultation evidence and correspondence

### Holiaduron

Wedi'u cwblhau - 544 copi caled/papur; 125 ar-lein

### Sesiynau trafod wyneb yn wyneb

- Grwpiau rhieni – 18
- Pobl ifanc (17-24 mlwydd oed) – 10
- Cyngor Pobl Hŷn – 37
- Sesiynau galw-heibio (16 llyfrgell) – 428
- Staff - 36
- Gweithdy gyda chynrychiolwyr y Cyngor Cymuned a phartneriaid y gwasanaeth - 35

### Deisebau

Tri: Deiniolen, Penygroes a Nefyn.

Deiniolen - **406** llofnod. Geiriad y ddeiseb yw:

Rydym ni yn gofyn am i Gyngor Gwynedd beidio a chau Llyfrgell Deiniolen. Mae'r Llyfrgell yn adnodd cymunedol heb ei ail – mae pobl yn gallu benthyg llyfrau a dvds, defnyddio cyfrifiaduron, gallu cynnal cyfarfodydd yno a mae'n cael ei werthfawrogi yn fawr ian. Mae cadw llyfrgell yn Deiniolen yn bwysig ofandwy felly erfyniwn ar Gyngor Gwynedd i'w chadw ar agor.

Penygroes - **518** llofnod gyda rhyw 50% wedi'u arwyddo gan ddisgyblion ysgol. Geiriad y ddeiseb yw:

Dwi'n galw ar Gyngor Gwynedd i gadw Llyfrgell {Penygroes ar agor. Mae'n adnodd cymunedol hanfodol Mae yn y lle cywir, gydag oriau addas ac aelod o staff ardderchog. Peidiwch newid gwasanaeth sy'n gweithio.

Nefyn - **383** llofnod a **158** enw a chyfeiriadau ebost. Geiriad y ddeiseb yw:

Yn sgil y toriadau diweddar mae'n fwriad gan Gyngor Gwynedd i gau wyth o lyfrgelloedd yng Ngwyndd er mwyn arbed arian. Mae llyfrgell Nefyn yn un o'r llyfrgelloedd rheini! Bydd colli'r llyfrgell yn golled enfawr i drigolion Nefyn a Llŷn gan iddo fod yn lle hynod gyfeillgar sy'n croesawu'r hen a'r ifanc fel ei gilydd. Mae'r llyfrgell yn noddfa i nifer o blant ysgol ac yn cynnig

cyfarparallweddol, megis llyfrau ffeithiol a chyfrifiaduron sy'n galluogi iddynt gwblhau gwaith cartref. Mae Ysgol Nefyn yn gwneud defnydd o'r gwasanaeth hefyd gan ddod a dosbarthiadau cyfan i'r llyfrgell yn wythnosol i gyfnewid llyfrau.

Nid adeilad na llyfrgell yn unig mo Llyfrgell Nefyn ond man cyfarfod cymunedol prin sy'n llawn haeddu ei gynnal a'i drysori!

### **Lythyrau ar bapur**

Bethesda – dienw

Penygroes – Angharad Tomos, Judith Emery a teulu

Nefyn – Toby Kenyon, Phil Horsley, Hilary Taylor, WI Nefyn a posterï gan dri o blant

Cricieth – aelodau'r Dosbarth Hanes Teulu

Deiniolen - Arolygydd yr Ysgol Sul , Pwyllgor Eisteddfod Deiniolen, Merched y Wawr, Seindorf Arian Deiniolen, Cyngor Cymuned Deiniolen, Eglwys Crist, Llanddinorwig, Deiniolen, Gwyl Deiniolen a'r Cylch, Dilwen Williams, Canon Idris Thomas a 25 disgybl ysgol cynradd.

### **Gohebiaeth ebost**

Cricieth - Eilir Ann Daniels, Syd Caplan, Cyngor Cymuned Dolbenmaen, Janet Kaiser, Robert Dafydd Cadwalader (Cyngor Tref Cricieth), Cyng Eirwyn Williams

Penygroes – Robat Jones (Antur Nantlle), Ben Gregory (Nantlle 2020)

Bala a Dolgellau – Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Porthmadog – Yr athro Patricia Layzell Ward

Deiniolen – Cyng Eirwyn Williams

Penrhyndeudraeth – Cyngor Tref Penrhyndeudraeth

Harlech – Rose Berry

Bethesda – Susan Hopkins

Nefyn – Toby Kenyon a Robin Lewis

## Questionnaires

Completed- 544 hard copy/paper; 125 on-line.

## Face to face consultation sessions

- Parent groups – 18
- Young people (17-24 years) – 10
- Older People's Council – 37
- Drop-in sessions (16 libraries) – 428
- Staff - 36
- Workshop with Community Council representatives and service partners - 35

## Petitions

Three: Deiniolen, Penygroes and Nefyn.

Deiniolen's petition received **406 signatures**. The wording is:

We request that Gwynedd Council do not close Deiniolen Library. This library is an essential community asset – people can borrow books and dvds, use the computers and hold meetings there and it is very much appreciated. It is therefore essential that Deiniolen Library remains in the village – and we therefore urge Gwynedd Council to keep it open.

Penygroes's petition received **518** signatures with approx 50% signed by school pupils. The wording was:

I call on Gwynedd Council to keep Penygroes Library open. It's an essential community facility. It's in the correct location, has suitable hours and a marvellous member of staff. Don't shut a service which is working.

Nefyn's petition received **383** signatures and **158** names and email addresses. The wording was:

Following the recent cuts Cyngor Gwynedd proposes to close eight libraries one of which is Nefyn Library! The closure of the library would be a great loss for the people of Nefyn and Llŷn as it's such a lovely place which welcomes the old and young alike. The library is a haven for many school children and offers the necessary equipment, like factual books and computers for them to complete their homework. Nefyn School also makes regular use of its

service by bringing whole classes to the library and exchanging books. Nefyn Library is much more than a building: it's an all-important meeting place for the community which deserves to be both maintained and treasured!

### **Letters/paper**

Bethesda - anonymous

Penygroes – Angharad Tomos, Judith Emery and family

Nefyn – Toby Kenyon, Phil Horsley, Hilary Taylor, Nefyn WI and posters by three children

Cricieth – members of the Family History class

Deiniolen - Sunday School Superintendent, Pwyllgor Eisteddfod Deiniolen Committee, Merched y Wawr, Seindorf Arian Deiniolen Silver Band, Cyngor Cymuned Deiniolen Community Council, Eglwys Crist, Llanddinorwig Christ Church, Gwyl Deiniolen a'r Cylch, Dilwen Williams, Canon Idris Thomas and 25 primary school pupils.

### **Email correspondence**

Cricieth - Eilir Ann Daniels, Syd Caplan, Cyngor Cymuned Dolbenmaen, Janet Kaiser, Robert Dafydd Cadwalader (Cyngor Tref Cricieth), Cyng Eirwyn Williams

Penygroes – Robat Jones (Antur Nantlle), Ben Gregory (Nantlle 2020)

Bala a Dolgellau – Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Porthmadog - Prof Patricia Layzell Ward

Deiniolen – Cyng Eirwyn Williams

Penrhyndeudraeth – Cyngor Tref Penrhyndeudraeth

Harlech – Rose Berry

Bethesda – Susan Hopkins

Nefyn – Toby Kenyon and Robin Lewis

# APPENDIX 7 SYLWADAU AC ADBORTH LLYFRGELLOEDD

## RHAN-AMSER/ COMMENTS AND FEEDBACK FROM PART-TIME LIBRARIES

### LLYFRGELL BETHESDA LIBRARY

#### Adborth a sylwadau - Feedback and comments

#### Y llyfrgell presennol a'r llyfrgellydd / The current library and the librarian

##### Lleoliad a'r adeilad / The building's location

- Canolig / Central
- Mae'r adeilad yn ddiogel ac yn addas ar gyfer plant / The building is safe and suitable for children
- Mae'n hafan cynnes i ddengid o'ch tŷ / It's a warm haven to escape to from the house
- Mae'n ganolfan cymdeithasol / It's a social hub; visiting is a social event
- Mae o yn un o'r ychydig canolfannau lle mae pob dim yn rhad ac am ddim / It's one of the few community centres where everything is free
- Mae'n adeilad hygyrch i bobl ag anableddau ag felly mae'n 'gwasanaethu pob adran' o gymdeithas / It's an accessible building for people with disabilities and so 'serves all sections' of society
- Mae ymweliadau'n amlbwrpas - gellid defnyddio'r cyfrifiadur, siarad â phobl, dod i wybod beth sy'n mynd ymlaen yn ddiweddar a benthyc llyfrau / Visits are multi-functional – use computer, talk with people, keep up-to-date with what's going on locally and borrow books.
- Access to valuable library resources in the local community is important.

##### Y llyfrgellydd / The Librarian

- Mae'r llyfrgellydd yn dda gyda phlant ac yn ddylanwad cadarnhaol / The librarian is good with children and is a positive influence
- Mae arbenigedd y llyfrgellydd yn helpu'r gymuned i ddysgu sgiliau / The librarian's expertise helps the community to acquire skills
- Ddim eisiau colli arbenigedd staff – darparu croeso a gwasanaeth da i unigolion / Do not want to lose staff expertise - provide a welcome and a good service for individuals
- Caiff caredigrwydd y llyfrgellydd effaith dda ar bobl, gan helpu eu hiechyd a llesiant / Kindness displayed by the librarian has a good effect on people, helping their health and wellbeing.
- Keep the service of finding books that may be held in another library. Contact with library staff is always pleasant and adds to the experience.

##### Llyfrgell fel cartref i lyfrau / A library as a home for books

- Mae'n darparu profiad o bori trwy a themlo llyfrau / It provides a browsing 'tactile' experience.

##### Teimladau / Feelings

- Rhwystredig: newydd cael babi a dechrau defnyddio'r llyfrgell, eisiau defnyddio'r lle yn wythnosol / Frustrated: just had a baby and started to use the library, want to use it weekly.

- ‘Rydw i’n defnyddio’r llyfrgell lot’ / ‘I use the library a lot’
- Mae’r llyfrgell fatha ‘fresh air i mi’ – dwi newydd ymddeol a newydd ddechrau defnyddio’r llyfrgell yma / This library is like ‘fresh air to me’ – I’ve just retired and started to use this library.
- Mae ymweld â’r llyfrgell yn helpu i rywun deimlo’n rhan o’r gymuned / Visiting the library helps you to feel like a part of the community.
- Mae’n teimlo fel nad oes opsiwn i gadw’r llyfrgell ar agor / Feels like there’s no option to keep the library open
- BLIN! / ANGRY!
- I’m concerned this will mean the end of Bethesda library

#### Defnydd gan blant / Use by children

- ✓✓✓✓ Mae plant yn dod yma i wneud eu gwaith cartref - Mae’n hwylus i ddisgyblion 3 ysgol Bethesda / Children come here to do their homework – It’s convenient for pupils from the 3 schools in Bethesda
- “Dydy Johnny (dosbarth derbyn) ddim eisiau’r adeilad gau” / “Johnny (reception class) doesn’t want the building to close”
- Mae’r sesiynau crefft a dweud stori yn neis iawn / The craft and story-telling sessions are really nice
- Twristiaeth - mae ymwelwyr yn defnyddio’r gwasanaeth / Tourism – visitors use the service

#### TG/IT

- Gall fod heb fynediad at gyfrifiadur analluogi adran o’r gymuned rhag fod yn dalwyr treth y cyngor - gall y rhyngwyd mewn llyfrgell ei ddefnyddio i chwilio am waith ac i wneud ceisiadau sy’n galluogi cyflogaeth / Being without access to a computer could disable a section of the community from becoming council tax payers – internet at library can be used for job searching and applications enabling employment.
- Galluogi pobl i ymchwilio i’w hanes teuluol am ddim yn hytrach na thalu allan o arian/pensiwn prin / Helps people to research their family history for free instead of paying for this out of their pension.

#### Pobl hŷn / Older people

- Cadw meddyliau pobl yn actif ac felly’n helpu i atal dementia fel bod pobl yn medru byw’n annibynol am gyfnod hirach / Keeps minds active and so helps prevent dementia so that people can live independently longer
- Cyfrannu at les a hapusrwydd pobl hŷn / Contributes towards the well-being and happiness of older people.

#### Pryderon am y newid / Concerns regarding the changes

##### Teithio a thrafnidiaeth / travel and transport

- Mae teithio i Fangor yn rhy ddrud i rhai / The cost of travelling to Bangor is prohibitive for some people
- Dydy hi ddim yn rhwydd teithio i Fangor hefo babi/plant ar fws / It’s not easy to travel to Bangor with a baby/children on a bus. ✓
- An hour’s journey on public transport to reach nearest library if Bethesda closes.
- Gall y posibilrwydd bod y llyfrgell am gau yrru pobl i Fangor p’run bynnag / The possibility that the library may close could send people to Bangor anyway
- Mae cyfleuster lleol yn golygu llai o deithio ac mae’n gwneud hi’n haws i bobl ymweld â’r llyfrgell yn fwy aml → os yw’r llyfrgell yn cael ei ddefnyddio’n llai aml, yna bydd colled cudd i’r wasanaeth yn gyfangwbl. / A local facility means less travel and makes it easier for people to visit more frequently → if library is used less frequently then there’s a hidden loss for the overall service.

- Concerned about not having a library within easy walking distance.
- Perhaps have a basic bus service available a few times a week that people from certain areas could use to go to the library?

#### Y llyfrgell mewn perthynas â gwasanaethau eraill / The library in relation to other services

- Mae'r adeilad/gwasanaeth hwn yn gweithredu fel mesur ataliol a all leihau problemau a phwysau ar wasanaethau eraill yn yr hir-dymor e.e. iechyd meddwl ac ymddygiad gwrthgymdeithasol / This building/service acts as a preventative measure which could reduce problems and pressure on other services in the long run e.g. mental health and anti-social behaviour
- Gall atal y teimlad o unigrwydd sy'n cael effaith niweidiol ar bobl, yn enwedig pobl hŷn / Can prevent a sense of isolation which has a detrimental effect on people, especially older people.

#### Technoleg / Technology

- Os nad oes gan blant gyfrifiadur neu mae wedi torri, dyma'r unig le iddynt ddefnyddio cyfrifiaduron / If children don't have a PC or it's broken this is the only place for them to use computers.
- ✓ Wedi defnyddio'r llyfrgell i wneud gwaith academaidd – mae llyfrau ar gael fan hyn nad ydynt ar gael yn y brifysgol a mae lot o bobl yn y 6ed dosbarth / Have used the library to do academic work - this library has books that the university doesn't have and there a lot of people in sixth form
- Does gan llawer o bobl diwaith ddim mynediad i gyfrifiaduron arwahan i drwy llyfrgelloedd / A lot of unemployed people don't have access to computers apart from via libraries
- Gall bod heb fynediad i gyfrifiaduron effeithio ar fudd-daliadau megis Job Seekers Allowance i rhai / Being without access to computers can affect benefits claims e.g. Job Seekers Allowance
- Mae ceisiadau am swyddi bron i gyd ar-lein y dyddiau yma / Virtually all job applications are on-line these days
- What is going to happen to free access to computers in places like Bethesda if the library is shut?

#### Y gymuned a pham fan hyn? / The community and why here?

- ✓✓ Mae ardaloedd eithaf difreintiedig fel 'ma ANGEN llyfrgelloedd; byddai colli adeilad llyfrgell yn amddifadu ardal ddifreintiedig / Relatively less-privileged areas such as this one NEED libraries; losing a library building would neglect a less-privileged area.
- Mae'r newidiadau posibl yn symud y broblem/cyfrifoldeb ymlaen a'u rhoi ar ysgwyddau'r Cyngor Cymuned / The potential changes pass the buck and place it on the Community Council's shoulders.
- Will affect access to printed materials throughout Britain, access to printed reports and projects, e.g. local and national government publications, information on local groups and events, contact details of voluntary and public services.
- To have a library in the village is something that can be relied upon, there when needed, supporting the community with interests, development and social interaction
- This could be an excellent purpose built building going to waste.
- This is not a question of resisting change but rather it's preserving a service that has always filled a need. The library is an important part of the community.
- Place a full emphasis on the 'traditional' user to maintain a tradition which is important to the community. Hands on learning by doing!



## Plant / Children

- Mae'n bwysig i blant fod o amgylch llyfrau / It's important for children to be around books
- 'Dwi wedi bod yn dweud bod Bethesda yn lle da i fagu plant'a mae'r llyfrgell yn help i hyn / I have said that Bethesda is a good place to raise children and the library helps this
- I have used Bethesda library for many years and now use it with my grandson.

## Dewis o lyfrau / Choice of books

- Mae ystod eang o lyfrau yn apelio at bobl; mae'r newidiadau hyn yn rhoi'r argraff fod y Cyngor yn datbrisió'r gwasanaeth / A wide range of books is appealing; these changes feel like the Council is devaluing the service
- My family cannot afford to purchase books

## Yr oes/newidiadau digidol / The digital age/changes

- Poeni bod 4 o'r 6 opsiwn ar gyfer gwasanaethau penodol yn canolbwyntio ar elfennau digidol / Concern that 4 out of the 6 options for specific services focus on digital aspects
- Dydy llyfrgell abenigol ddim ar gael yn ddigidol; dydy nhw ddim 'up to date' / Specialist books are not available digitally; they aren't up to date
- Fydd y gwasanaeth ddim yr un fath / The service will not be the same
- Not everybody has the facility to read E books and may not enjoy this tech age. Reference and research must always be available for study.

## Cwestiynau / questions

- A fydd y llyfrgellydd allan o waith? / Will the librarian be out of work?
- Beth sydd yn mynd i ddigwydd i'r adeilad? / What will happen to the building?
- Pe byddai'r adeilad yn cael ei werthu, a fydd cyfraniad i'r gwasanaeth newydd? / If the building is sold, will a contribution be made to the new service?
- How to reduce hours but increase public access to IT / computers at the library?

## Opsiynau cymunedol amgen / Alternative community options

- Dw i ddim yn meddwl bod unrhyw un o'r opsiynau hyn yn ddichonadwy / I don't think that any of these options are feasible
- Mae'r 'peth cymunedol' yn syniad neis, ond pwy yw'r gymuned? / The 'community thing' is a nice idea, but who is the community?
- Poeni am blant yn gallu gwneud gwaith cartref/ymchwil ar y cyfrifiadur / Concern about children being able to do their homework/research on computers
- Gwthio cyfrifoldeb i'r gymuned sy'n ddifreintiedig / Pushing responsibility onto an underprivileged community
- Gofyn i'r Gymuned gymryd gofal – yr un bobl a fydd yn gyfrifol am bob dim - gormod o bwysau ar yr un bobl / In asking the Community to take charge, the same people will be responsible for everything, too much pressure on the same people
- Mae ystod o lyfrau'n golygu gall pobl gael un o'i dewis; a fydd unrhyw un o'r opsiynau hyn yn diwallu'r galw? / A range of books means that people can select the one for them; will any of these options be able to keep up with demand?

### **Opsiwn A / Option A**

- Hoffi hwn ond sut ydan ni'n mynd i fforddio'r costau? / I like this but how will we afford the costs?
- Bydd angen lot o godi pres – ni fydd boreau coffi yn gallu cynnal y lle / A lot of fundraising will be necessary - coffee mornings will not be able to support the place
- Ffaffio Opsiwn A – angen cartref i llyfrgell / I favour Option A - need a home for a library
- Mae'r adeilad yn bwysig a nid jest y gwasanaeth / The building is important, not just the library
- Byddaf wedi torri'n nghalon / I will be devastated if the building goes

### **Opsiynau B + C / Options B + C**

- Efallai buasai Canolfan Cefnfaes yn opsiwn ar gyfer B a mae'n addas ar gyfer yr henoed / Cefnfaes Centre may be an option for B, and it is suitable for the elderly
- Credu buasai gwirfoddolwyr o Fethesda/Dyffryn Ogwen ar gael i helpu / I think volunteers from Bethesda/Dyffryn Ogwen would be available to help
- Llawer llai o ddewis o lyfrau gydag opsiwn B ac C - ddim yn rhoi'r dewis i 'bori' / Much less choice of books with option B and C - doesn't give the option to browse
- Pryderu byddwn yn dibynnu ar wirfoddolwyr yn hytrach na llyfrgellwyr proffesiynol / Concern that we would be dependent on volunteers rather than professional librarians
- Hoffi opsiwn C – archebu dros y we a chasglu / I like option C - order online and collect
- Poeni am y ddarpariaeth i blant gydag opsiwn B ac C / Concerned about the provision for children with options B + C.
- Ddim yn gweld B ac C yn realistig / I don't think B and C are realistic
- Mae 'C' yn 'elitist' e.e. gorfod gwybod be ti angen ymlaen llaw a sut i ddefnyddio'r we / Option C seems to be 'elitist' – you have to know what you want beforehand and how to use the web
- Bechod ei bod hi wedi dod i hyn / It is a shame that it's come to this

### **Llyfrgell deithiol / Mobile library**

- Syniad da i bobl hŷn / Good idea for older people
- Mae'r lori'n ymweld yn ystod oriau ysgol felly fawr o help i blant / Mobile library visits during school hours and so is of little help for children
- Ddim yn teimlo y buasai hen bobl yn archebu dros y we – ond hapusach gyda lori llyfrgell / I don't think the elderly would be able to order online - but happier with a library lorry
- Ddim yn gallu darparu gwasanaeth effeithlon gyda llyfrgell deithiol / Cannot provide an efficient service with a mobile library
- Lori deithiol yn gallu ateb anghenion i raddau ond nid ar gyfer eitemau arbenigol / A mobile library can address needs to some degree but not for specialist items
- The mobile library is not accessible to those who work.

### **Awgrmyiadau ac atebion / Suggestions and solutions**

Codi arian ar gyfer y llyfrgell / raise funds for the library

- Beth am i drethdalwyr talu mwy o dreth ar gyfer y Cyngor Cymuned? / Why don't taxpayers pay more tax to the Community Council?
- ✓✓✓ Dylid torri oriau llyfrgelloedd yn hytrach na'u cau. / Libraries' hours should be cut rather than closed.

- Pam na ellid codi ffi bychain am y llyfrau? / Why not charge a small fee for books?
- Beth am i oedolion talu'n flynyddol i fod yn aelod? / What about having an annual membership fee for adults? .
- Open for fewer days but longer hours.
- Reduce hours at main libraries.
- Use the building for other activities that you could charge for to cover costs.

#### Arbed pres mewn ffyrdd eraill / Save money by other means

- Plannu llai o blanhigion blynyddol yng ngerddi Capel Jeriwsalem a mwy o blanhigion hirhoedlog; addas i wirfoddolwyr gwneud / Plant fewer annual plants and more perennials in Jerusalem Chapel gardens; suitable for volunteers to do instead of Council.
- Beth am droi goleuadau lôn i ffwrdd ar ôl canol nos? / Why not turn off street lighting after midnight?
- Os oes angen torri 25% o'r cyllid beth am dorri y nifer o gynghorwyr? / If it is necessary to cut 25% of the budget, how about cutting the number of councillors?
- Stop buying in top 10 best sellers especially non fiction, perhaps buy top 5 fiction best sellers. Buy in books requested by readers if they are not too esoteric.

#### Yr ymgynghoriad, y strategaeth a'r Cyngor / The consultation, the strategy and the Council

- Dylai'r toriadau ddigwydd mewn lleoedd eraill, i'w gweld yn digwydd mewn llefydd 'odd' / The cuts should happen elsewhere – they seem to be happening in 'odd' places.

#### Y wybodaeth / The information

- Dim digon o wybodaeth - pwy yw'r gymuned? / Not enough information – who is the community?
- Dim gwybodaeth ynglyn â chost yr adeilad? / No information given regarding the cost of the building?
- Byddai'n dda gallu cymharu defnydd pob llyfrgell o rhan y boblogaeth; dim ond data ar gyfer pob llyfrgell yn unigol sydd ar gael / It would be good to be able to compare use made of each library in terms of the population; only data for each individual library is available.

#### Y strategaeth / The strategy

- Ydy Abermaw a Dolgellau yn rhy agos i'w gilydd i haeddu prif lyfrgell yr un? / Are Barmouth and Dolgellau too near each other to deserve a main library each?
- Synnu clywed bod sicrhau lefel staffio digonol yn gyrru'r strategaeth/newidiadau / Surprised to hear that meeting sufficient staffing levels is a driver for the strategy.
- Credu mai cyflogau nid adeiladau yw'r gost fwyaf / Believe that wages not buildings comprise the largest cost.

#### Yr ymgynghoriad / The consultation

- Dylai'r Cyngor droi i fyny / The Council should turn up
- Pam y dylid cymryd yn ganiataol bod y gwasanaeth am gau? Roeddwn i'n meddwl mai ymgynghoriad oedd hwn / Why is it a given that the service will close? I thought it was a consultation.
- Mae'n siwr ei fod wedi'i benderfynu yn barod - gwasanaeth gwefus yw hwn / It's probably already decided – this is 'lip service'
- Dylai'r digwyddiad wedi cael mwy o gyhoeddusrwydd. / The event should have had more publicity.
- Put the people of Gwynedd first!

## Llyfrgell Cricieth / Criccieth Library

### Adborth a sylwadau - Feedback and comments

#### Pryderon am y newid posibl - Concerns re possible change

- ✓✓✓✓✓ Loss of familiar, attentive staff and excellent personal service for everyone including older people who go through a lot of books and children by opening their eyes to the world / Colli staff cyfarwydd a chydwybodol a gwasanaeth personol rhagorol i bawb gan gynnwys pobl hŷn sy'n mynd trwy lawer o lyfrau a phlant drwy agor eu llygaid i'r byd.
- Why should the staff loose their jobs? They are happily employed.
- ✓✓✓✓✓✓✓✓✓✓✓ The community will lose a vital facility and hub - 'One of the most important places in Cricieth' / Bydd y gymuned yn colli cyfleuster a chanolfan hanfodol – 'Un o'r llefydd pwysicaf yng Nghricieth'
  - 'people from all parts of society' use it, / Mae pobl o bob rhan o'r gymdeithas yn ei defnyddio
  - ✓ important for people moving to the area – helps with learning the language and access to Council tax / yn bwysig ar gyfer pobl sy'n symud i'r ardal – yn helpu i ddysgu'r iaith a chael mynediad at Treth Cyngor.
  - ✓✓✓ Fundamental for older people / yn hanfodol ar gyfer pobl hŷn.
  - develops and reinforces social bonds in the community / Yn datblygu ac yn ategu cysylltiadau cymdeithasol yn y gymuned.
  - ✓✓✓ 'Meeting place' – social element which creates a sense of well-being and combats loneliness. / Man cyfarfod – elfen gymdeithasol sy'n creu synnwyr o lesiant ac yn brwydro unigrwydd. It's a place to meet.
